Y DRYSORFA.

RHIF. 709.] TACHWEDD, 1889. [LLYFR LIX.

YR ATHRAWIAETH O DRAGYWYDDOL GOSB.

GAN Y PARCH. EVAN ROBERTS, DYFFRYN.

MATTHEW xxv. 46: "A'r rhai hyn a ânt i gosbedigaeth dragywyddol."

BETH fydd sefyllfa yr annuwiol yn y byd a ddaw? A fydd pob gobaith wedi ei adael ar ol, neu ynte a oes rhyw obaith eto wedi ei osod o'i flaen? Dyma ofyniad sydd yn destun cryn ddadl, ac yn creu nid ychydig o gynhwrf yn yr Eglwys Gristionogol yn y dyddiau hyn. Dyma un o bynciau y *Down Grade*—"Dadl y Goriwaered." Hyn yn benaf sydd wedi peri i Mr. Spurgeon gilio o Undeb y Bedyddwyr. Dywedodd Dr. Hannay, Ysgrifenydd yr Undeb Cynnulleidfaol, yn ddiweddar, fod yr "Athrawiaeth o dragywyddol gosb wedi marw yn yr Enwad hwnw, a rhywbeth arall yn cael ei bregethu yn ei lle." Profodd ymchwiliad fod llawer o wir yn y dysgiolaeth hon, er nad yn hollol gywir. O drugaredd, nid yw y cynhwrf hwn yn cythryblu Eglwysi Cymru hyd yn hyn. Ond er nad yw y fflam wedi tori allan, y mae yn eglur fod y tân yn mud-losgi yn ddirgelaidd mewn llawer man. Mewn lle bychan dinod iawn, dywedwyd wrthym yn ddiweddar, fod yno liaws yn diystyru yr athrawiaeth o dragywyddol gosb. Haerent nad ydyw y pregethwyr bellach yn ei phregethu, na'r gwrandawyr yn ei chredu—ei bod wedi marw. Yn wyneb hyn, barnwyd mai nid anfuddiol fuasai dwyn y mater pwysig hwn dan sylw darllenwyr y DRYSORFA. Nid buddiol yn ddiau cynhyrfu dadl ddianghenrhaid; ond nid doeth ydyw anwybyddu peryglon ac anhawsderau ein gwrandäwyr; ac yn sicr nid gwrol ydyw peidio pregethu unrhyw wirionedd am ei fod yn anmhoblogaidd. Ceisiwn yn bwyllog ymdrin â'r pwnc trwy nodi dau beth.

I. Y GWRTHWYNEBIADAU A DDYGIR YN ERBYN YR ATHRAWIAETH HON.

Ni oddef gofod i ni gynnyg bod yn hysbyddol, dim ond ychydig o sylwadau awgrymiadol ar hyn.

1. Ei bod yn hollol groes i natur Duw, ac yn gwbl anghyson â'i anfeidrol garedigrwydd. "Duw cariad yw." Dyna adnod fawr, a bron unig adnod, pleidwyr iachawdwriaeth "ar ol marw"—*post mortem*. Cariad ydyw natur hanfod Duw, meddent; a chan fod yr athrawiaeth yn cymylu ei gariad, mae hi yn rhwym o fod yn anghywir. Y mae yn anmhosibl dyweyd gormod am gariad Duw. "*Felly* y carodd Duw y byd." Mae yn hunangynhyrfiol, yn angerddol, ac yn anfeidrol, fel y mae yn amlygu ei hun yn y gwrthddrychau annheilwng a garodd, a'r rhodd anfeidrol a roddodd. Yr un modd hefyd yn ei "hiramynedd, ei oddefgarwch, a'i ymaros," yn goddef yr annuwiol ar y ddaear, a'i dywys trwy ddaioni i edifeirwch. "Heb ewyllysio bod neb yn golledig." Nid o'i fodd—nid o bleser na hyfrydwch—y damnia efe neb, nac hyd yn nod y "blina efe blant dynion." Ond ni ddylem roddi y fath arbenigrwydd ar un gwirionedd, fel ag i guddio gwir-

ionedd arall cyferbyniol, neu ynte y mae y gwirionedd hwnw yn myned yn gyfeiliornad. Mae gair arall yn bod yn gosod allan natur Duw—"Goleuni yw Duw." Er ei fod yn gariad, mae yn gyfiawn a sanctaidd, "yn lanach ei lygaid nag y gall edrych ar ddrwg; ni thrig anwiredd yn ei olwg." "Goleuni yw Duw;" goleuni gwybodaeth i ganfod, a goleuni purdeb i gasâu pob pechod. Mae Duw yn Dad anfeidrol dosturiol, ond y mae hefyd yn Frenin mawr, ac yn Farnwr cyfiawn. Nid tad creulawn fel Saul, ac nid tad meddal fel Eli, ydyw Duw. Mae y naill yn ddirmygus, a'r llall yn gywilyddus. Y mae cariad Duw yn cael ei ddybryd gamddefnyddio gan y bobl hyn. Defnyddiant ef i gymylu cyfiawnder, ac i dywyllu sancteiddrwydd Duw y goleuni. Defnyddiant ef i wadu pechod yn ei euogrwydd a'r Iawn yn ei haeddiant, ac felly yn y pen draw i wadu gras ei hun; oblegid pa *ras* sydd mewn achub os ydyw Duw dan anghenrheidrwydd cariad i beidio cosbi? Mae hyn yn gwneyd achub yn anghenrheidrwydd natur yn Nuw, ac nid yn benarglwyddiaethol ras. Ar y tir yna, pa fodd y gellir cyfrif am y trueni arteithiol y mae dyn yn gruddfan dano yn y byd hwn, ac na byddai yr efengyl bellach wedi troi wyneb y ddaear yn debyg i wyneb y nefoedd? os mater o gariad yn unig ydyw achub. Ac yn enwedig pa fodd y mae yr angelion syrthiedig—"druain bach!"—yn cael eu gadael yn nghadwynau y tywyllwch? Mae yn rhaid fod cyfiawnder yn rhoi terfyn ar weithrediadau cariad. Dywed rhai fod yr athrawiaeth hon yn dangos Duw yn gariad tyner yn y byd hwn, ac yn doster llym yn y byd a ddaw, yr hyn, meddant, sydd wrthun. Ond mae hyn yn tybio fod y dyn wedi gwrthod a dirmygu cariad Duw yn y byd hwn, ac felly nad oes i'w ddysgwyl ond cyfiawnder noeth yn y byd arall. Yr *haf* sydd wedi darfod, a'r *cynauaf* sydd wedi myned heibio. Yn y byd arall bydd Uffern yn amlygiad eglur o gyfiawnder Duw, a'r Nefoedd yn amlygiad gogoneddus o'i gariad anfeidrol.

2. Ei bod yn arteithiol groes i deimlad dyn. Ond gellir gofyn, Pa ddyn? Pa un ai y "dyn anianol" ai y "dyn ysbrydol?" Nid yw y dyn anianol yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw, ac y mae yn myned yn bell i brofi gwirionedd yr athrawiaeth fod y syniad anianol yn ei gwrthod. Mae pethau crefydd yn gyson â greddfau moesol dyn fel creadur rhesymol, sydd yn gorwedd o dan y syniadau anianol. Mae yr athrawiaeth hon felly; prawf o hyny ydyw ei bod yn cael ei derbyn yn ddiammheuol gan gorff mawr y bobloedd sydd heb gael aflonyddu arnynt gan syniadau y dyn anianol. Ond os "y dyn ysbrydol" a feddylir, mae hyn yn anghywir. Mae y dynion sydd wedi eu hargyhoeddi o bechod a'u haileni trwy ras, fel corff, yn ei chredu yn ddiammheuol. Nid "goleuni newydd" fel un o ddarganfyddiadau sicr Gwyddoniaeth, ydyw y gwrthwynebiad i'r athrawiaeth hon, ond hen dyb sydd wedi gwneyd ei hymddangosiad yn yr Eglwys o dro i dro, er dechre y drydedd ganrif, trwy Origen ac eraill o'r Tadau oedd dan ddylanwad yr athroniaeth Alexandriaidd. Ond y mae yr Eglwys Gristionogol yn ei chynghorau a'i safonau, wedi dal fel y graig oesol yn erbyn y dòn anwadal, gan ei thaflu yn ol yn deilchion ar bob achlysur. Mae credo yr Eglwys wedi bod yn ymarferol unfarn ar y pwnc drwy yr oesoedd. Gwir fod Eglwys Rhufain yn dal purdan; ond lle ydyw y purdan, yn ol eu syniad hwy, i berffeithio y saint, nid i achub pechaduriaid. Er fod dynion yn d'od o'r purdan, nid oes neb yn d'od o uffern. Naill ai dynion annuwiol sydd eisieu eu rhwysg i bechu yn ddigosb, a'u syniadau yn codi fel tawch o lygredd eu

calonau, neu ynte dynion gwylltion eu syniadau, byrion eu cyrhaeddiadau, arwynebol eu hargyhoeddiadau, a bâs eu profiadau crefyddol, sydd wedi bod bob amser yn aflonyddu ar y pwnc hwn. Mae dynion sobr eu meddyliau, dwfn eu hargyhoeddiadau o ddrwg pechod, a dwys eu profiadau yn mhethau crefydd—y dynion mwyaf sanctaidd a duwiolaf—mwyaf tebyg i Dduw ymhob oes, wedi bod o'r ochr arall, o Augustine gynt hyd Spurgeon yn y dyddiau hyn. Mae y ffaith amlwg hon yn galw arnom i fod yn wylaidd uwch ben y pwnc.

3. Ei bod yn *galed*, os nad yn *anghyfiawn*, gan fod miliynau yn myned o'r byd heb brawf priodol, na chynnyg teg ar fywyd tragywyddol. Y plant sydd yn marw yn ieuainc, a'r Paganiaid sydd heb erioed glywed gair am Geidwad, oni chânt hwy gynnyg eto ar fywyd mewn sefyllfa ddyfodol? Mae y sylw hwn yn gwneyd dau beth ar unwaith. Yn un peth, cauir allan bawb sydd yn gwrthod yr efengyl, fel rhai annheilwng o ail gynnyg. Gan iddynt gael prawf priodol a chynnyg teg ar fywyd, maent wedi fforffetio pob hawl i gynnyg eto. Hefyd, y mae y syniad hwn yn tybio fod Duw yn rhwym i roi, a bod gan ddyn hawl i gael un cynnyg o leiaf; neu ynte os ydyw Duw yn rhoi cynnyg i rai, y dylai roddi cynnyg i bawb; os ydyw yn achub rhai, y dylai achub pawb, neu beidio achub neb. Pryd y mae y Bibl yn dysgu yn bendant mai gras hollol ydyw achub o gwbl, fod pob dyn wrth natur dan farn Duw, ac mewn cyflwr y byddai yn gyfiawn ei adael ynddo, a bod Duw yn meddu hawl i drugarhau wrth y neb y myno, heb wneyd cam â neb. Os amgen nid yw gras yn ras mwyach, os oes rhyw rwymau ar Dduw i drugarhau. Ond y mae yn ammheus, o'r tu arall, nad ydyw Duw yn ei ras yn rhoddi cynnyg teg i bob dyn ar fywyd yn y byd hwn, er nad ydyw dan rwymau i wneyd hyny â neb. Am y plant sydd yn marw cyn dyfod i oedran cyfrifoldeb, dengys y Bibl eu bod yn cael eu cadw i fywyd tragywyddol, trwy ras, trwy Iesu Grist. Nid oes iachawdwriaeth yn neb arall; "Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd." Gras hollol ydyw hyn. Nid ar gyfrif eu diniweidrwydd eu hunain, nac ar gyfrif fod Duw dan rwymau. Buasai yn gyfiawn i Dduw eu gadael. Ar yr un pryd, mae yn ddiau na buasai Duw yn trefnu iddynt fod dan farn gyfiawn y cyfammod gweithredoedd, oni buasai fod darpariaeth fawr y cyfammod gras ganddo yn ei fwriadau grasol. Nid yw y ddau beth ond megys un trefniant. Am y paganiaid, mae llawer o ddirgelwch yn amgylchu eu sefyllfa. Ond y mae wedi ei ddadguddio yn eglur, er eu bod dan farn condemniad, y cânt berffaith gyfiawnder a hollol chwareu teg oddiar law Duw yn y farn a ddaw. "Y rhai a bechasant yn ddiddeddf a fernir yn ddiddeddf, a'r rhai a bechasant dan y ddeddf a fernir wrth y ddeddf." Felly bydd *esmwythach* i Tyrus a Sidon nag i Chorazin a Bethsaida, i Sodom lygredig nag i Capernaum uchelfreintiog, yn nydd y farn. Mae hyn yn hollol eglur. Ac nid yw yn ansicr nad ydyw y paganiaid ar dir y gellir eu hachub trwy *ras*, fel y babanod, er nad ydyw y naill yn clywed cyhoeddiad o'r Efengyl, mwy nag yw y lleill yn ei ddeall. Mae goleuni natur—y greadigaeth oddiallan a'r gydwybod oddifewn, â'u llinyn yn myned trwy yr holl ddaear, a'u geiriau hyd eithafoedd y byd. Mae hyn o leiaf yn gwneyd pob dyn yn "ddiesgus" am ei bechodau. Ac am bob dyn sydd yn byw i fyny â'i oleuni a'i fanteision, oni allwn gredu fod Duw yn ei ras a thrwy Grist yn anfon ei Ysbryd i'w achub? Mae nid yn unig syniad greddfol am Dduw, ond hefyd syniad traddodiadol am Waredwr ymysg holl genedloedd y byd, ac onid oes digon

o efengyl yn hyn i ras Duw allu eu hachub? Onid ydyw natur ei hun yn dangos "bywyd trwy farw," a'r ser yn eu graddau yn arwain at yr hwn a aned yn "Frenin yr Iuddewon?" Onid ellir credu felly fod pob dyn ymhob man yn cael cynnyg teg ar fywyd trwy ras anfeidrol Duw, ond gweithredu yn ol ei oleuni? Ni chollir neb am bechod Adda ond fydd yn dewis ymuno yn y gwrthryfel. Cadwyd llawer dan yr oruchwyliaeth Batriarchaidd a'r Foesenaidd heb ond ychydig iawn o wybodaeth am *drefn* y cadw. Mae miloedd eto yn cael eu cadw, hyd yn nod yn ngwlad Efengyl, nad ydynt yn meddu nesaf peth i ddim dirnadaeth am y drefn. Ac oni allwn feddwl fod bywyd tragywyddol yn nghyrhaedd y pagan ar yr un egwyddor a'r *plant* a'r *anwybodus?* Mae eu hanfantais yn fawr yn ddiau, ond eu cadwedigaeth yn bosibl. Byddant yn hollol ddiesgus yn nydd y farn. Mae angeu Crist yn bridwerth "dros bawb" mewn un ystyr bwysig, ond i gael ei "dystiolaethu i'r byd yn ei amserau priod," fel cyhoeddiad o'r efengyl. Nis gallwn feddwl nad oes rhyw berthynas rhwng yr Iawn a'r "holl fyd," ac nad ydyw yr Ysbryd oedd yn ymryson â'r cynddiluwiaid yn ymryson hefyd â'r paganiaid. Yr oedd llawer o ryw fath o "forio" cyn darganfod deddfau mawr morwriaeth, ac y mae llawer o ryw drafodaeth rhwng Duw a dynion cyn cyhoeddi egwyddorion mawr *trefn gras* i gadw pechadur i fywyd tragywyddol.

4. Ei fod allan o bob cyfartaledd i gosbi am *dragywyddoldeb* am bechu mewn *amser*—ychydig flynyddau yn y byd hwn. Nid oes dim ag y mae y Bibl yn ei ddysgu yn fwy pendant nag y bydd y gosb yn *gyfiawn* berffaith yn ol yr haeddiant. "Barn wrth linyn a chyfiawnder wrth bwys" i'r manylrwydd eithaf. "Efe a dâl i bob un yn ol ei weithredoedd." Ond nid hŷd yr *amser* yn gymaint ydyw y pwnc mewn llys barn, ond maint, nifer, neu ysgelerder y troseddau. Gall dyn mewn mynyd o amser gyflawni trosedd yn haeddu penyd am ddeg neu ugain mlynedd, neu am ei oes; neu, yn wir, yn haeddu dienyddiad. Gwir fod byw yn hir mewn pechod yn rhoi cyfle i ddyn chwanegu nifer ei bechodau. Ond drwg pechod fydd y pwnc mawr yn y farn. Cymerir i ystyriaeth fanol yr amgylchiadau, y manteision, a'r anfanteision sydd yn ffurfio ysgelerder y pechod. Nis gallwn ni amgyffred *drwg pechod* fel y mae yn annelu at ddiorseddu a difodi Duw, yn taro yn erbyn ei sancteiddrwydd dysglaer. Y mae pob peth ond pechod a sancteiddrwydd yn lleihau wrth nesâu at Dduw. Amgylchiadau y byd hwn, helyntion teyrnasoedd, ac hyd yn nod y greadigaeth fawr, yn myned megys yn "llai na dim" yn ymyl Duw. Ond y mae pechod yn myned yn fwy fwy wrth nesâu at Dduw, nes y mae yn cyrhaedd rhyw fath o *anfeidroledd*—gwrthryfel yn erbyn Duw Anfeidrol. Ac yn enwedig gwrthod ei Anwyl Fab, "barnu yn aflan waed y cyfammod a diystyru Ysbryd y gras." Nid oes modd i greadur meidrol ddyoddef cosb gyfiawn am bechu mor ysgeler yn erbyn Duw anfeidrol, sanctaidd a da, ond mewn *tragywyddol barhad*. Yr oedd yn rhaid cael Person anfeidrol i ddal digofaint Duw, ac i waeddi "Gorphenwyd" ar Galfaria. Dynion heb gael golwg ar ddrwg haeddiant pechod sydd yn dyweyd fod tragywyddol gosb yn rhy drom.

5. Fod trefn y prynedigaeth trwy angeu Mab Duw, yn galw am lawer mwy o ffrwyth na dim sydd yn debyg o gymeryd lle yn y byd hwn. Yn ol pob golwg i ni yma, meddynt, mae y "llawer" yn myned i ddystryw, a'r "ychydig" yn myned i'r bywyd. Yn ol yr olwg hon, y mae trefn gras bron yn fethiant, tra y dylai peth mor fawr ag angeu y groes "ddwyn ffrwyth

lawer." Os nad oes rhyw filiynau i'w cadw ar ol y byd hwn, y mae y ffrwyth yn annheilwng hollol o'r draul anfeidrol.

Da genym weled y bobl hyn weithiau yn rhoi mawredd a gwerth ar angeu y groes. Eu harfer ydyw bychanu drwg pechod heb anghen dim haeddiant i'w ddyhuddo, a'r Iawn yn rhyw drefniad penagored heb fod yn sicrhau dim. Ond dengys y Bibl yn eglur fod angeu y groes yn sicrhau achub "tyrfa fawr na ddichon neb ei rhifo," a hyny "allan o bob llwyth ac iaith a chenedl" o ddynion. Er y gellid tybio hyd yn hyn, mai "ychydig ydyw y rhai cadwedig;" eto caiff Iesu Grist "weled o lafur ei enaid a'i ddiwallu." Mae achub un enaid yn fuddugoliaeth fawr ar bechod, ond nid "ychydig" a "ddiwalla" y Gwaredwr am "lafur ei enaid." Mae llawer yn credu ynddo. Mae miliynau—un ran o dair mae yn debyg o'r hil ddynol—yn marw yn eu mabandod. Dichon fod miliynau o'r paganiaid yn cael eu cadw, er eu hanfanteision. Am ddyfodol y byd hwn y mae y rhagolygon yn ddysglaer; yr hil ddynol yn cynnyddu yn aruthrol yn eu nifer. Mae yna ynysoedd mawrion yn cael eu hadeiladu yn awr yn y cefnforoedd, ddigon i gynnal triliynau, wedi poblogi y sychdir presennol. Tebyg mai yr hil ddynol ydyw y teulu rhesymol lluosocaf yn nghreadigaeth Duw. Ac yn ol yr addewidion, bydd llwyddiant mawr ar grefydd Crist ymysg teulu mawr y dyfodol. "Daw llawer o'r dwyrain ac o'r gorllewin." Bydd yr holl fyd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef, a gwyneb y ddaear yn debyg i wyneb y nefoedd. Nid mewn *pandemonium* y mae y byd hwn i ddiweddu, ond mewn *millennium*. Erbyn hyny bydd toraeth fawr y teulu dynol wedi eu hachub, a dim ond megys dyrnaid bychan fydd ar ol. Dywed y gwrthwynebwyr wrthym, cyn y bydd trefn gras yn llwyddiant hollol a'r fuddugoliaeth yn llwyr ar bechod, y rhaid i bob un a syrthiodd gael ei adfer, a'r diafol gael ei yspeilio o bob enaid a feddiannodd. Ond, er fod y Bibl yn dangos y bydd y llwyddiant yn sicr a'r fuddugoliaeth yn llwyr, nid ydyw byth yn dangos fod hyny yn cynnwys achub pob dyn. Tueddai hyn i osod allan fod achub yn fater o anghenrheidrwydd, ac nid o ras. Mae *Etholedigaeth gras* yn bod wedi y cwbl. Mae buddugoliaeth gras ar bechod, yn ol y Bibl, yn gynnwysedig, nid yn hollol mewn adfer y nifer a bechodd, ond mewn "creu o newydd," nes gosod dyn yn uwch ar dir gras nag ydoedd ar dir creadigaeth, cyn i'r diafol ei ddarostwng; neu ynte wneyd dyn yn fwy o sant trwy ras nag ydoedd o bechadur trwy bechod. Dyna "arbed yn helaeth" y Bibl. Byddai buddugoliaeth lwyr ar bechod yn yr ystyr arall yn cynnwys achub y cythreuliaid a difodi uffern.

6. Nad ydyw y gair "tragywyddol" yn y Bibl, o anghenrheidrwydd yn golygu yr *annherfynol*. Sonir am "ddeddfau tragywyddol" a "mynyddoedd tragywyddol," &c. Diau fod y gair hwn, fel llawer gair arall, yn cael ei ddefnyddio mewn mwy nag un ystyr; ystyr *hollol* ac ystyr *gymhariaethol*, ystyr uwch ac ystyr is. Mae y gair "anfeidrol" yn cael ei arfer mewn mwy nag un ystyr yn y Bibl. Mae ystyr gyntaf, ail, trydydd, &c., i lawer o eiriau; ac nid ydym yn dyrysu uwch eu pen, canys y mae y cysylltiad fel rheol yn penderfynu yn ddigon amlwg pa ystyr a feddylir. Mae y gair *tragywyddol* bob amser yn golygu yr hyn sydd *annherfynol* i olwg dyn. Am y "deddfau" yn Israel yr oeddynt mor annherfynol a'r oruchwyliaeth hono. Mae y "mynyddoedd" sefydlog yn dragywyddol mewn cymhariaeth i'r cyfnewidiadau parhaus sydd ymysg trigolion y ddaear. Mae natur pethau yn ein harwain yn esmwyth a naturiol i roddi yr ystyr

hon i'r gair—yr ystyr gymhariaethol, Er ar yr un pryd, dichon y gellir cymhwyso yr ystyr *hollol* hyd yn nod at y deddfau a'r mynyddoedd. Y mae egwyddorion y deddfau hyny i bara byth yn ddiddiwedd, ac y mae sylwedd y mynyddoedd i fod yn oes-oesoedd, gellid tybio. Nid oes lle i feddwl y bydd i un gronyn o fater gael ei ddifodi, er i'r nefoedd fyned heibio, a'r defnyddiau doddi. Ni bydd "diwedd y byd" ond diwedd ar ei ffurf bresennol. Ond mwy naturiol, wedi y cyfan, ydyw cymeryd y gair yn y cysylltiadau uchod yn ei ystyr israddol a chymhariaethol. Ond, pan gysylltir y gair â *Duw*, ac *enaid*, a *byd arall*, teimlwn ar unwaith ei fod yn cymeryd yr ystyr *hollol*—ystyr briodol, ac nid ystyr fenthyciol y gair. Yn yr ystyr hon y defnyddir ef yn amlwg i osod allan ddedwyddwch y saint yn y nefoedd; a byddai yn wrthun ac yn afresymol i'r eithaf ei ddefnyddio mewn dwy ystyr wahanol yn yr un adnod heb ddim i awgrymu hyny. "A'r rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragywyddol, ond y rhai cyfiawn i fywyd tragywyddol," Mat. xxv. 46.

II. Y Dyfeisiau i osgoi tragywyddol gosb. Beth gynnygir yn ei lle?

Nid oes unfrydedd na thebyg ar hyn. Mae unfrydedd yr Eglwys Gristionogol ar dragywyddol gosb yn gan' mwy nag unfrydedd ei gwrthwynebwyr gyda golwg ar yr hyn sydd i fod yn ei lle. Nodwn rai o'r prif olygiadau.

1. *Difodiant.* Yn ol y golygiad hwn, yn Nghrist yn unig y mae bywyd tragywyddol, ac y mae bywyd tragywyddol yn ol y syniad hwn bron yn gyfystyr a *bodolaeth* dragywyddol, Nid difodiant yr Anffyddwyr ydyw hwn, y rhai sydd yn dal fod dyn yn trengu fel anifail, a dyna ddiwedd byth am dano; ond difodiant *cosbol.* Daliant fod yr enaid yn bod ar ol marw, y corff yn cael ei adgyfodi o'r bedd, a'r dyn yn cael ei ddwyn i farn, a'i draddodi i dragywyddol gosb, ond mai y gosb hono ydyw *tragywyddol ddifodiant.* Dyna eu hystyr hwy i'r geiriau "marw," "colli," "dinystr," "dystryw," &c. Cosb arswydus fyddai difodiant i greadur ag y mae anfarwoldeb yn reddf blanedig yn ei enaid yn ei greadigaeth. Dywedai un o anffyddwyr Ffrainc, pan ar wely angeu, y buasai yn well ganddo y syniad o fod am ddeng miliwn o flynyddau dan lid Duw y Bibl, na'r syniad o gael ei ddifodi. Byddai yn gosb arswydus; ond nid yn gosb gyfiawn. Byddai yn drugaredd i'r enaid gael ei ddifodi, yn hytrach na bod mewn poenau bythol. Er fod yn y byd hwn lawer math o *farw*, nid oes yma un gronyn o ddim yn cael ei *ddifodi;* ac y mae hyny yn awgrym nad oes yn mwriad Duw ddifodi un enaid, gan fod *bodoli* yn beth mor gyffredinol. Byddai yn ynfydrwydd dyweyd fod anhawsder *naturiol* i'r Hwn sydd yn rhoi bod i bob peth, ac yn cynnal pob peth mewn bod, i ddifodi unrhyw beth. Ond peth arall ydyw ei ewyllys a'i fwriad. Ond ni fyddai yn ormod dyweyd fod anhawsder *moesol* i Dduw ddifodi dyn fel *pechadur*, er nid fel creadur. Mae yr un anhawsder i ddifodi pechadur ag sydd i faddeu i bechadur heb Iawn. Mae cyfiawnder yn cael cam. Trugaredd ar draul cymylu cyfiawnder ydyw. Eto nid ydym yn cael pleidwyr y syniad hwn yn dal mai ar sail yr Iawn y bydd i Dduw ddifodi yr annuwiol. Ymddengys fod *pechod* ei hun yn sicrhau parhad diddiwedd i bechadur, fel y mae *gras* yn diogelu bywyd tragywyddol i'r credadyn, er nad ar yr un tir.

2. *Adferiad.* I'r rhan fwyaf, y mae difodiant yn fwy gwrthun, ac yn fwy arteithiol i'r teimladau na hyd yn nod tragywyddol gosb. Ciliant oddiwrth y naill gyda mwy o arswyd nag oddiwrth y llall, a choleddant y

syniad esmwyth a thyner, fod gobaith da am adferiad o'r trueni—rhyw *post-mortem salvation*, neu y bydd ail gynnyg i ddynion am fywyd yn y byd a ddaw. Mae trefn a dull yr adferiad hwn yn niwliog i'r eithaf ganddynt. Gellid meddwl fod rhai yn dal allan y bydd i'r enaid, trwy ddyoddef cosb am ryw ysbaid, ennill ei ryddhad ar dir cyfiawnder—cyfnod y penyd wedi d'od i ben yn deg. Mae hyn yn groes i bob syniad sydd genym am bechod. Pa fodd y gall dyn "dalu yr hatling eithaf," ac yntau "heb ddim i dalu," ac yn suddo i fwy o ddyled yn barhaus trwy ei elyniaeth at, a'i wrthryfel yn erbyn Duw? Pe gallai, trwy ddyoddef cosb, newid ei gyflwr, ni allai hyny byth gyfnewid ei galon, a'i ddwyn i garu Duw, ac i ymhyfrydu mewn sancteiddrwydd. Gellid meddwl fod eraill yn dal, fod yr *adferiad* hwn yn cael ei ddwyn oddiamgylch ar ryw egwyddor o *ddadblygiant—evolution*—pob peth yn gweithio ymlaen o annhrefn i drefn. Y tân yn bureiddiol, a'r dyoddef yn feddyginiaethol. Mae hyn ar unwaith yn difodi *gras* Duw, ac yn dinystrio *moesolrwydd* dyn—yn gwneyd achub yn y pen draw yn fater o anghenrheidrwydd Gwyddonol. Ond ymddengys mai syniad y rhan amlaf o bleidwyr *Adferiad* ydyw, y bydd dynion yn y byd a ddaw yn cael ail gynnyg ar fywyd, mewn ffordd o "brawf moesol," cyffelyb, ond llawer mwy manteisiol, i'r cynnyg neu y prawf y mae dyn yn gael yn y byd hwn. Prawf grasol ar dir yr Iawn raid iddo fod, neu ynte ni byddai yn ddim i greaduriaid wedi myned i afael pechod. Nis gallwn ganfod y gronyn lleiaf o sail i hyn yn y Dadguddiad dwyfol. Ynfydrwydd ydyw seilio athrawiaeth fel hyn ar ryw ymadrodd unigol a thywyll, megys "pregethu i'r ysbrydion yn ngharchar," tra y mae llu mawr o adnodau amlwg a diamwys ar yr ochr arall. "*Marw*, ac wedi hyny bod *barn*," sydd amlwg yn y Bibl; nid wedi hyny bod ail gynnyg, wedi hyny bod adferiad. "Gagendor annhramwyadwy" mae Iesu Grist yn roddi rhwng uffern a nefoedd. "Yna ni'th wared Iawn mawr." Mae "Iawn mawr" Calfaria yn anfeidrol yn ei werth, ond yn derfynol yn ei amcan. Nid ydyw dros gythreuliaid, na thros neb sydd yn myned atynt i'r lle a barotowyd iddynt. Mae cysylltiad cyffelyb rhwng bore oes dyn a'i hen ddyddiau yn y byd hwn ag sydd rhwng ei "amser" a'i "dragywyddoldeb"—dedwyddwch y naill yn dibynu ar y defnydd wneir o'r llall. Mae miloedd yn eu ffolineb a'u hanystyriaeth yn camddefnyddio bore oes, ac felly yn tynu trueni mawr arnynt eu hunain mewn hen ddyddiau. Ond er mor drugarog ydyw Duw, nid oes neb yn cael ail gynnyg ar fore oes. Os ydyw hyn yn bod yn y byd cymysg hwn, pa faint mwy yn y byd a ddaw, lle y mae y cwbl yn ddigymysg a digyfnewid? "Yr hwn sydd frwnt bydded frwnt eto, a'r hwn sydd gyfiawn bydded gyfiawn eto." Nid oes yn Uffern nac America i'r diles i "droi dalen newydd," nac Awstralia i'r afradlawn gael ail gynnyg. Heblaw hyn, pe ceid ail gynnyg, beth fyddai y dyn well? Gyda llaw, y mae dyn yn cael ail gynnyg yn awr yn y byd hwn. Mae un cynnyg manteisiol iawn wedi myned yn fethiant ar ddyn yn Eden draw mewn pencyfammodwr. Yn awr ca ail gynnyg, a hwnw yn *bersonol*. Os ä hwn yn fethiant, ar ba egwyddor arall y gellir rhoddi cynnyg iddo mwy? Dichon mai dyna un rheswm na chafodd yr angelion syrthiedig ail gynnyg, am iddynt bechu bob un yn bersonol. Ond pe ceid ail gynnyg, beth fyddai y dyn well? Byddai yn cychwyn y prawf hwnw yn annhraethol fwy caled nag y mae yn cychwyn y prawf presennol. Myned ymlaen y mae pechod mewn dyn trwy bob cyfnewidiadau. Nid oes dim byd cryfach i ddylanwadu

yn foesol ar ddyn nag "angeu y groes," Gair ac Ysbryd Duw. "Oni wrandawant ar Moses a'r prophwydi" —ïe, Crist a'r apostolion—"ni chredent chwaith pe codai un oddiwrth y meirw." Os gwrthododd dyn dan brawf manteisiol yn y byd hwn, byddai bron yn sicr o wrthod dan brawf mwy anfanteisiol yn y byd a ddaw. Mae genym awgrym y bydd rhai dynion dan ddylanwad barn a siomedigaeth yn gwaeddi "Agor i ni" yn nydd y farn, ond nid yw hyny yn profi o gwbl eu bod yn fwy parod i dderbyn gras Duw yn y cariad o hono yno nag yma. Mae pob tebygrwydd am bob un wrthyd yn y byd hwn, y byddai iddo wrthod hefyd yn y byd a ddaw. Ni bydd dyn ddim *gwell* o gael ail gynnyg, ond byddai yn annhraethol *waeth*—byddai ei bechod yn fwy, a'i gosb o anghenrheidrwydd yn drymach. Dywed rhai fod *trugaredd* Duw bron yn sicrhau y caiff dynion ail gynnyg. Na, mae Duw yn rhy drugarog i roddi arfau yn nwylaw ei greadur, pan y mae pob sicrwydd moesol na wnai ddim â hwynt ond dinystrio ei hun, suddo ei hun yn ddyfnach, ddyfnach, i golledigaeth. Mae Duw yn cynnyg maddeuant rhad yn awr yn y byd hwn, ond byddai dal unrhyw obaith o flaen dyn yn y byd a ddaw, yn ol natur gyndyn a phechadurus dyn syrthiedig, cystal a gwneyd holl gynnygion gras yn gwbl aneffeithiol. Yr hyn sydd yn cyfarfod â natur lygredig dyn, ydyw *trefn* anrhydeddus i faddeu yn rhad, ac *amser* penodol i'w derbyn neu ei gwrthod am byth. Byddai meddalwch o ochr Duw yn hunanddinystriol hollol i ddyn llygredig.

3. *Esmwythâd.* Ceir rhyw ddosbarth na allant feddwl am *ddifodiant*, mae hyny yn groes i natur; nac am *adferiad*, mae hyny yn groes i'r Bibl; ond haerant fod uffern, yn ol y syniad cyffredin, wedi ei chamddarlunio yn ddybryd, a mynant hwy oeri llawer iawn arni, er nad ei diffoddi yn hollol. Y mae yr hen syniad am uffern yn annyoddefol iddynt hwy. Ni fynant son am "dân" na "fflam." Nid yw y darluniau erchyll hyn ond dirdyniadau dychymygol beirdd awyddus am enwogrwydd, megys Dante, Milton, y Bardd Cwsg, &c., neu ynte ddichellion offeiriaid trachwantus i gadw y bobl mewn ofn ac arswyd. Mae uffern wedi ei chamddarlunio yn hollol, ac y mae yn hwyr bryd cywiro syniadau dynion am dani. Mynant ddiwygio y *Rhodd Mam*, ac yn ateb i'r gofyniad, "Pa fath le ydyw uffern?" yn lle "Llyn yn llosgi o dân a brwmstan," rhoi "Lle o boen i gosbi pechod." Heb geisio amddiffyn beirdd hunangeisiol, nac offeiriaid tra-arglwyddiaethol, eto dylid cofio mai darluniad y Bibl o uffern ydyw "tân anniffoddadwy," "tân tragywyddol," "ffwrn dân," "y fflam hon." Dyna eiriau yr Arglwydd Iesu ei hun. A dyna y darlun bywiog geir yn llyfr y Dadguddiad, yr hwn sydd wedi ei osod yn niwedd y Dadguddiad dwyfol fel "drych a dammeg" rhyngom â'r dyfodol mawr, sef "Llyn yn llosgi gan dân a brwmstan." Dyna gymhariaeth fawr gyffrous y Bibl i osod allan uffern. Ac ni fethwn byth wrth ddilyn yn ystyriol eiriau y Bibl. Ni ddylai fod arnom gywilydd o'u harfer. Geiriau Ysbrydoliaeth ydynt. Gallwn yn hawdd fyned ar gyfeiliorn wrth eu gadael, a myned ar ol ein geiriau ein hunain; yn wir, yr ydym yn barod wedi gwyro ymhell, pan yn ceisio myned yn ddoethach na'r Ysbryd Glân, a cheisio symud ymaith dramgwydd yr efengyl oddiar feddyliau llygredig. Nid oes un darlun mwy tarawiadol i blant na "Llyn o dân a brwmstan," na dim yn fwy tebyg o gael ei fendithio gan yr Ysbryd Glân na'i eiriau ei hun; ac nid oes perygl i neb mewn oed a synwyr i dybied mai tân anianyddol ydyw y tân, nac mai fferyllol ydyw y brwmstan. Gwyr

pawb mai cymhariaeth naturiol ydyw, yn cael ei defnyddio gan Ysbryd Duw yn ei Air i osod allan yr ysbrydol. Rhaid fod rhyw ddoethineb rhyfedd yn y "Diwygwyr" hyny sydd yn ddoethach na Gair Duw! Dylid gochel pob darluniad o uffern a dueddai i roddi argraff ar feddwl neb fod Duw mewn nwydau poethion yn tywallt ei lid, neu mewn cynddaredd greulawn yn ymhoffi mewn poenydio ei elynion. Byddai hyn yn gamddarluniad dybryd. Nid nwydau gwylltion, na chynddaredd fud, ydyw "digofaint" Duw, ond casineb sanctaidd at bechod. Nid dialgarwch maleisus fydd "dydd dial ein Duw ni," ond cosb gyfiawn bwyllog ar bechadur, a hyny yn gyson â'r tosturi mwyaf tuag ato. Myn rhai i ni gredu nad ydyw Duw yn gweinyddu unrhyw gosb yn uffern, dim ond gadael y pechadur iddo ei hun, ac felly nid ydyw uffern ond lled debyg i'r byd hwn. Na, mae rhyw "hiramynedd ac ymaros" o'r eiddo Duw yn cael ei arfer yn y byd hwn at yr annuwiol na bydd yn bod yn y byd a ddaw. Mae rhyw "ddigofaint ar ddyfod" nad ydyw yn cael ei deimlo yn awr. Arswydus fydd gadael dyn iddo ei hun yn ysglyfaeth i bechod. Ond dengys y Bibl yn eglur mai nid nacäol ydyw trueni uffern yn unig, ond fod cosb weinyddol yn disgyn ar ben yr annuwiol. "Y rhai a dderbyniant yn gosbedigaeth ddinystr tragywyddol," &c. Bydd yn "esmwythach" i rai nag i eraill, ond byddant yn cael eu cosbi yn gyfiawn yn eu gweithredoedd.

4. *Anwybodaeth.* Dyma y ffordd sydd gan lawer yn y dyddiau hyn i wneyd i ffordd âg athrawiaethau nad ydynt yn eu hoffi. Nid eu gwadu yn bendant, ond eu hanwybyddu. Proffesu anymwybyddiaeth hollol o honynt; dal allan nad oes dim wedi ei ddadguddio gyda golwg arnynt, ac yna eu halltudio o'u meddyliau a pheidio son am danynt yn eu pregethau, oddieithr mewn awgrymiadau sydd yn taflu pob ammheuaeth gyda golwg arnynt—*Agnosticism.* Yn yr amseroedd a aethant heibio, y *Gnosticiaid*—dynion yn proffesu gwybod mwy na'r Bibl—oedd yn blino yr Eglwys. Erbyn y dyddiau hyn yr *Agnosticiaid*—dynion sydd yn dal na ellir gwybod dim yn bendant am bethau crefydd—sydd yn aflonyddu. Ni wyddant hwy ddim am uffern; na'r fath le ydyw, os yn bod hefyd, na pha fwriadau sydd gan yr Anfeidrol gyda golwg ar ei phreswylwyr, yn ddynion ac yn angelion syrthiedig. Beth wyddom ni am *ddichon* Duw? Yn hyn y mae yn rhyfedd eu bod mor anwybodus pan y mae Gair Duw yn dadguddio uffern mor eglur, a bwriad Duw gyda golwg arni mor bendant. Nid ydyw y Bibl o gwbl wedi ein gadael yn anwybodus ar y fath fater pwysig. Cariad Duw at bechadur, a chasineb Duw at bechod, ydyw y ddau beth mawr amlycaf yn y Bibl. Gwir nad "amlygwyd eto" y manylion am uffern mwy nag am y nefoedd. Mae hyny yn anmhosibl yn y byd hwn, nis gallem ddal y dadguddiad. Ond y mae bodolaeth y naill yn gystal a'r llall wedi ei ddadguddio yn eglur. Gwyleidd-dra gau, a gostyngeiddrwydd ffugiol, ydyw yr hyn sydd yn peri i ddynion hòni na wyddant ddim am uffern, a bod yn well ganddynt hwy gan hyny beidio son am dani. Nid ydyw pregethu uffern mewn dull haerllug yn debyg o wneyd llawer o les, ond y mae y mursendod gwrachaidd sydd yn peri i ddynion beidio son am dani, a son am dani yn iaith ac ysbryd y Bibl hefyd, yn gwbl annheilwng o ddynion sydd wedi ymgymeryd â "mynegu i ddynion holl gynghor Duw." Nid ydynt yn meddu ar y gwroldeb moesol sydd yn anghenrheidiol i sefyll dros Dduw, ac i rybuddio yr annuwiol, serch fod clustiau rhyw "wrageddos" o ddynion yn merwino wrth wrando arnynt.

LLE MEDDYLGARWCH MEWN CREFYDD.

Gan y Parch. R. D. Rowlands *(Anthropos), Caernarfon.*

Dywedir i athronydd Ysgotaidd yn yr oes o'r blaen osod uwch ben drws ei ystafell y frawddeg a ganlyn:—"Nid oes dim yn fawr ar y ddaear ond dyn, ac nid oes dim yn fawr mewn dyn ond ei *feddwl*." Dyna'r gallu sydd yn ei gymhwyso i esgyn i'r orsedd; hwn sydd yn darostwng pob peth dan ei draed ef; hwn, hefyd, sydd yn ei gyfaddasu i dderbyn dadguddiad o'r Dwyfol a'r ysbrydol, ac yn ei osod y tu fewn i gylch euraidd crefydd ac addoliad.

Ac y mae y grefydd Gristionogol, mewn modd arbenig, yn appelio at y meddwl; nid ydyw yn cyrhaedd ei hamcan os nad yw yn cyffroi dyfnderoedd yr ysbryd, ac yn creu ynom feddylgarwch.

Y mae dylanwad cyffredinol yr Efengyl ar y byd yn myned ymhell i ddangos hyn. Yn ei goleuni hi fe ddeffry gwledydd o gwsg oesau. Gwelir y rhai fyddent yn eistedd yn swrth mewn tywyllwch yn cyfodi ar eu traed yn "llu mawr iawn." Ni raid ond bwrw trem ar *fap* y byd mewn trefn i weled mai Cristionogaeth ydyw gwir symbylydd meddylgarwch yn ei amrywiol agweddau. Môr Marw ydyw Paganiaeth; nid ydyw bywyd o fath yn y byd yn cael ei achlesu gan goelgrefydd. Ond y mae crefydd yr Iesu, "wrth fyned heibio" i roddi bywyd ysbrydol i'r byd, yn agor llygad cymdeithas, ac yn rhoddi bôd i ŷni deallol a meddylgarwch.

Ond nid effaith gyffredinol yn unig ydyw hyn: dyma neges ein crefydd at bawb yn bersonol. Y mae ei gwirioneddau yn hawlio yr oll o'n meddwl, ac yn gofyn am i'n deall a'n hamgyffredion fod ar eu llawn hyd yn oeisio eu dirnad a'u sylweddoli.

Mae yn wir mai ffydd sydd yn cofleidio Dadguddiad yr Efengyl, ac mai â'r "galon y credir i gyfiawnder," ond nid ydyw hyny yn cau allan weithrediad llawn y meddwl ar wirioneddau Dwyfol. Y ffaith yw, fe gyfarwyddir etifeddion ffydd i beidio bod yn "segur na diffrwyth yn *ngwybodaeth* ein Harglwydd Iesu Grist." Nid cochl dros seguryd ydyw ffydd; nid esgusodi dyn rhag meddwl y mae hi, ond yn hytrach ei gynnorthwyo *i* feddwl, ac i "amgyffred gyda'r holl saint." Deisyfai Apostol Ffydd am i'r rhai yr ysgrifenai atynt fod wedi eu haddurno â'r dueddfryd i dreiddio i mewn i bethau hanfodol yr efengyl; meddiannu golud a sicrwydd deall, a chael eu cyflawni â gwybodaeth o ewyllys Duw ymhob "doethineb a deall ysbrydol."

Y mae deall ysbrydol yn anghenrheidiol i ymwneyd â phethau ysbrydol. "Y dyn anianol nid yw yn gwybod y pethau sydd o Ysbryd Duw." Ceir yn y deall brofion cedyrn o lygredigaeth ein natur. Y mae wedi ei dywyllu; fel llygad y meddwl y mae wedi ei gau i'r hyn sydd ysbrydol. Ond y mae yn yr Efengyl ddarpariaeth rasol i agor y deall, ac i agor y byd ysbrydol—byd gwirioneddau pur—o flaen y meddwl. Mae y naill a'r llall yn cymeryd lle yn gyfamserol. Felly yr ydoedd yn ei berthynas â'r Iesu a'i ddysgyblion. "Efe a agorodd eu deall hwy," ac "Efe a agorodd iddynt yr Ysgrythyrau." Ond dysgwyliai iddynt hwythau *ddefnyddio* yr agoriadau hyn a roddasai Efe iddynt. Cwestiwn mynych o'i eiddo ydoedd,—"A ydych chwi yn deall y pethau hyn?" Mae yn ddyledswydd ar y dysgyblion ymhob oes i ymofyn am ddeall wedi ei ysbrydoli gan ddylanwadau Dwyfol; ond cofier mai dyben hwnw fydd, nid eu hesgusodi rhag ymdrechu eu hunain, ond eu cyfaddasu i feddwl mwy, ac i dreiddio yn ddyfnach i "ddirgelwch Crist a Duw."

Mae esgeuluso hyn yn sicr o droi yn golled i ddyn yn ei yrfa grefyddol. Mewn trefn i gael awyr bur a golygfeydd eang, rhaid i'r meddwl ymwregysu i ddringo bryniau y Dadguddiad Dwyfol. Mae Paul yn edliw i rywrai eu bod yn analluog i dderbyn gwirioneddau crefydd yn eu ffurfiau uchaf a mwyaf gogoneddus. "Ni allwn lefaru wrthych megys rhai ysbrydol, ond megys rhai cnawdol, rhai bach yn Nghrist." Nid *anianol* a ddywed, ond *cnawdol*. Yr oeddynt wedi derbyn yr Ysbryd sydd o Dduw, ond drwy esgeuluso y ddyledswydd o *feddwl*—o ymestyn at bethau mawrion crefydd, yr oeddynt yn byw mewn tir hynod o isel. Yr oedd syniadau cnawdol, fel tarth tew, yn gorwedd

ar eu meddyliau. Yr oeddynt yn Nghrist drwy ffydd, ond yn aros yn rhai bach—yn fabanod mewn deall.

Anfantais arall sydd yn debyg o ddilyn esgeulusdra o'r ddyledswydd o feddwl gyda chrefydd ydyw—diffyg cynnydd; cynnydd mewn gwybodaeth a chynnydd mewn gras, oblegid y mae y naill yn dibynu ar y llall. Dyma ddiffyg yr Hebreaid gynt. O ran amser dylasent fod yn "athrawon," yn meddu syniadau addfed a chlir ar drefn yr Efengyl; ond o herwydd eu diffyg ymroad, yr oedd eisieu dysgu iddynt drachefn "egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw."

"Mewn deall byddwch berffaith." Y mae hyn yn cynnwys fod y meddwl ar waith pan yn ymwneyd â gwirioneddau crefydd. Bod yn feddylgar ydyw un o'r ammodau i fod yn Gristion defnyddiol. Nid boddhau y teimladau ydyw unig na phrif amcan ordinhadau yr Efengyl; eu dyben mawr ydyw, ein cynnorthwyo i feddwl yn well ac yn ddyfnach ar fawrion bethau Duw. Y mae y teimlad yn rhan bwysig o'r meddwl; ond *rhan* ydyw, nid yr oll. Medda y deall ei hawliau fel yntau. Addoler â'r teimlad, ond addoler â'r deall hefyd. Os y teimlad ydyw allor yr arogldarth, y deall ydyw y canwyllbren aur sydd i oleuo cysegr yr enaid. Gan hyny, y warogaeth uchaf ellir dalu i'r Efengyl ydyw dwyn yr holl feddwl i weithredu ar ei gwirioneddau. Cydnabyddir nas gellir ymestyn at berffeithrwydd mewn addysg, celfyddyd, neu ddyfais, heb fod y deall ar lawn waith; y meddwl yn ymaflyd yn y peth yr ymaflwyd ynddo fel amcan a nôd. Ac a ydym i dybied y gellir Cristion o ddyn heb iddo feddwl ond y peth nesaf i ddim? Na thwyller ni. Mae drychfeddwl Cristionogaeth yn cynnwys fod meddwl yn gweithredu yn onest a dwys ar wirioneddau crefydd—gwybodaeth dduwinyddol. Y mae y cysylltiad sydd rhwng duwinyddiaeth a Christionogaeth yn un agos iawn. Y mae yn gysylltiad egwyddor â'i chymhwysiad ymarferol. Os ydyw deall egwyddorion prydferthwch yn anghenrheidiol i gynnyrchu arlunydd; os ydyw deall deddfau sain yn anghenrheidiol i'r cerddor, &c., yna y mae deall egwyddorion Cristionogaeth yn anghenrheidiol i gynnyrchu Cristion cymesur a deallus.

"Fy syniad I," ebai ambell un, "ydyw bod yn weithiwr Cristionogol. Ychydig yw fy nghydymdeimlad â phynciau duwinyddol. Nid oes genyf amynedd i ymboeni gydag anhawsderau, a darllen llawer sydd flinder i'm cnawd. Ond mewn gweithgarwch yr ydwyf yn fy elfen. Caiff eraill astudio—rhoddwch i minnau ddigon o *waith*." Da iawn; ond gwyn fyd na ellid perswadio y cyfeillion bywiog hyn fod *meddwl* ar wirioneddau crefydd yn hanfodol i gael gafael ar wir ysbryd eu gwaith. Y mae gweithgarwch i fod yn seiliedig ar feddylgarwch. Mae y llyfr coffadwriaeth sydd ger bron Duw i gael ei lanw âg enwau y rhai sydd yn *meddwl* am ei Enw Ef.

Y mae pethau mwyaf allanol crefydd yn deilwng o sylw, ond nid ydyw Cristionogion yn cael eu cyfyngu i'r "cyntedd allanol" yn nheml y Dadguddiad. Na, y mae i ni ryddid, "drwy waed Iesu," i fyned i mewn i'r sancteiddiolaf, a hyny nid unwaith yn y flwyddyn, ond yn barhaus. Ac fe addewir i ni Ysbryd yr Iesu yn Shecinah, nid i'n cadw y tu draw i'r wahanlen, ond i'n tywys i bob gwirioneedd.

"Y dirgeledigaethau ydynt eiddo yr Arglwydd," ebai rhai, fel esgusawd dros beidio cymeryd llawer o drafferth i ddeall yr Efengyl. Ond fe ddywedodd yr Iesu air hynod awgrymiadol wrth ei ddysgyblion: "I chwi y rhoddwyd gwybod dirgelion teyrnas nefoedd." Dyna ragorfraint dysgyblion Crist ymhob oes. Meddant drwydded i'r dirgelion; ac y maent yn gwneuthur cam â hwy eu hunain, ac â'u hawlfraint oruchel, drwy beidio ymdrechu i feddwl ar y meddyliau Dwyfol sydd yn y Gwirionedd.

Ond mewn trefn i efrydiaeth o wirioneddau crefydd droi yn fendith, anghenrhaid yw myned â'r deall at Dduw pob gras i ofyn iddo Ef ei sancteiddio, a'i gysegru i'w wasanaeth. Tân dyeithr fydd yn esgyn oddiar allor y meddwl, os na fydd yn ysgrifenedig arni,—"Sancteiddrwydd i'r Arglwydd." Dymuniad tra phriodol ydyw hwnw,

"O sancteiddia f' enaid, Arglwydd,
Ymhob nwyd ac ymhob dawn,"

—pob gallu a fedd y meddwl. Rhaid puro yr oll cyn y deuant yn gyfryngau cymhwys i wasanaethu y Duw byw.

Dyma un rheswm paham y mae y Bibl mor fynych yn cysylltu *duwiolfrydedd* a *dealltwriaeth.* "Deall da sydd gan y rhai a wnant ei ewyllys Ef." Mae y rhagfynegiad hwnw am y Messïah yn cael ei wirio yn hanes ei ddysgyblion: "Ac a wna ei ddeall ef yn fywiog yn ofn yr Arglwydd." Fel y mae y gwlith boreuol yn adfywio anian, felly y mae ysbryd defosiwn, naws crefydd yn y galon, yn bywiogi holl alluoedd y meddwl. Crefydd bur wna ddeall byw. Y mae ofn yr Arglwydd fel dylanwad cyson ar y bywyd, yn foddion i rymuso y deall, ac i wneyd ei berchen yn feddyliwr addolgar yn athrofa gwirionedd. Deall wedi ei sancteiddio sydd yn cymhwyso dyn i dyfu am byth yn ngwybodaeth Crist Iesu ein Harglwydd. Nid rhyfedd i Paul ddymuno ar ran ei hoff ddysgybl, "Yr Arglwydd a roddo i ti ddeall da ymhob peth." Iaith y grefydd Gristionogol ydyw, "Mewn deall byddwch berffaith."

"Oer yw crefydd heb deimlad," ïe, ac annaturiol hefyd. Ond y mae gwir deimlad yn codi oddiar gymdeithas â gwirionedd. "Onid oedd ein calon yn llosgi ynom?" ebai yr ymdeithwyr tuag Emmaus. Dyna deimlad byw. Ond beth oedd wedi ei gynnyrchu? Ai cyfarfodydd cyffrous? Ai ystorïau toddedig? Nage; ond Efe, yn nhawelwch y wlad, yn nystawrwydd min yr hwyr, oedd wedi bod yn agoryd iddynt yr Ysgrythyrau. Yr un pryd Efe a agorodd eu deall hwythau. Aeth y gwirionedd i mewn, a dyna y serch yn fflam! Yr oedd eu brwdfrydedd yn effaith cymundeb â'r Gwirionedd ei hun. Y mae yr un egwyddor yn aros—i aros hyd derfyn amser. Od oes neb yn chwennychu gwir frwdfrydedd gyda chrefydd, meithrined y cyfryw feddylgarwch yn ei berthynas â'i gwirioneddau.

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill 1af, 1888, i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

Y DOSBARTH CANOL.

SABBOTH, TACHWEDD 10FED—(*Y rhan olaf o'r Wers am* IONAWR 27AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 13).

Y Ddalfa Bysgod. Ioan xxi. 7—13.

ADN. 7: *Am hyny y disgybl hwnw yr oedd yr Iesu yn ei garu a ddywedodd wrth Petr, Yr Arglwydd yw.* Gallodd Ioan ddarllen yn y fan ystyr y wyrth, trwy ryw gydymdeimlad neillduol â'r Iesu. Ceir dirgelwch y cydymdeimlad hwn yn yr enw a roddir yma arno (yn arwyddocaol o hyn fe allai)—"y dysgybl hwnw yr oedd yr Iesu *yn ei garu.*" Yr oedd y cariad yn gryf o bob tu. Ac yr oedd y canfyddiad mewnol hwn o eiddo Ioan yn brawf ac yn ffrwyth, nid yn unig o'i gariad Ef at Grist, ond yn fwy o gariad Crist ato ef; nes y mae y teitl "y dysgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu," fel y sylwa Westcott, yn dyfod yn fath o ddodiad diolch: xiii. 23. *Yna Simon Petr pan glybu mai yr Arglwydd oedd.* O'r mewnol y daethai y dadguddiad i Ioan, ac felly i Petr o'r blaen, Mat. xvi. 17, ond yn awr daeth i Petr o'r tu allan. Ond gweithredodd arno ar unwaith. *A wregysodd ei amwisg (canys noeth oedd efe), ac a'i bwriodd ei hun i'r môr.* Rhoddodd ei amwisg o barch greddfol i bresennoldeb ei Arglwydd. Yr oedd o'r blaen yn "noeth," fel y byddent yn arfer bod gyda'u gwaith, hyny yw, heb ddim o'r dillad uchaf, ond y dilledyn ysgafn, isaf. Nis gallai aros wrth symudiad araf y cwch, ond taflodd ei hun i nofio i'r lan.

ADN. 8: *Mewn llong.* Y mae y gair wedi ei newid yn awr; golyga hwn long fechan, neu gwch oedd yn cael ei ddwyn gyda'r llong. *Nid oeddynt bell oddiwrth dir.* Dengys hyn pa fodd y gallent wneyd yr hyn a ddywedir. Tua chan' llath oedd rhyngddynt â'r lan.

ADN. 9: *A chan gynted ag y daethant i dir, hwy a welent dân o farwor wedi ei osod, a physgod wedi eu dodi arno, a bara.* Prysurent i gyfarfod â'u Harglwydd, cyn gwneyd y ddalfa yn ddyogel. Nid y pysgod a ddaliasent yn awr oedd y rhai a welent ar y tân (adn. 10). Awgrymir fod y rhai hyn, y pryd hwn o fwyd, wedi ei ddarpar gan yr Iesu mewn modd goruwchnaturiol. Gallai Efe ddarparu fel y mynai, trwy lafur dynol neu hebddo.

ADN 10: *Dygwch o'r pysgod a ddaliasoch yr awrhon.* I wneyd y pryd yn

gyflawn, yn ddigon i'w hanghen, medd Meyer. Golyga y geiriau yn adn. 9 *un* pysgodyn, ac un dorth (neu deisen o fara).

Adn. 11: *Cant a thri ar ddeg a deugain.* Dywed Jerome fod yma gynifer a hyny o fathau o bysgod, a bod un o bob math wedi ei gymeryd i ddangos cyffredinolrwydd gwaith yr Apostolion. Nid yw fod y cyfrif wedi ei roddi i lawr yn dangos dim, dybygid, ond y manylrwydd gofalus â pha un yr oedd y dysgyblion wedi rhifo y ddalfa ryfeddol. Sylwyd lawer gwaith ar y nodau o wahaniaeth rhwng amgylchiadau y ddalfa wyrthiol o bysgod yn nechreu gweinidogaeth ein Harglwydd, Luc v. 1, &c., â hon ar ol ei adgyfodiad. Tyna Awstin hwynt allan fel hyn:—Yr oedd y naill wyrth yn arwyddlun o'r hyn yw yr Eglwys yn bresennol, y llall o'r Eglwys wedi ei pherffeithio. Yn y naill, y mae da a drwg; yn y llall, y da yn unig. Yn y naill, y mae Crist hefyd ar y dwfr; yn y llall, ar y tir. Yn y naill, gadewir y ddalfa yn y llongau; yn y llall, dygir hi i'r lan. Yn y naill, gollyngir y rhwydau i lawr yn rhywle fel y dygwyddai; yn y llall, ar ochr benodol i'r llong. Yn y naill, torodd y rhwydau; yn y llall, nid ydynt yn tori. Yn y naill, yr oedd y llongau ar suddo gyda'u llwyth; yn y llall, nid ydynt yn cael eu llwytho. Yn y naill, ni rifir y pysgod; yn y llall, rhoddir y rhif yn fanwl. Dywed rhai fod ystyr ysbrydol gyson i'r holl wahaniaethau hyn rhwng y ddau amgylchiad.

Adn. 12: *Deuwch, ciniawwch.* Boreufwyd oedd hwn, nid ciniaw. Yr oedd ei roddion Ef i'w defnyddio. Ymddengys ei fod Ef ei hun yn ewyllysio darpar y pryd hwn (fel lletŷwr) i'w ddysgyblion. Gallai, er y gwyddent mai yr Arglwydd oedd, eu bod yn teimlo rhyw fesur o wahaniaeth dyeithr rhwng ei ystâd bresennol â'r hyn ydoedd cyn marw o hono; a'i fod yn eu galw fel hyn i'w dwyn i deimlo yn fwy rhydd. Yr oedd Efe i'w adnabod ar ol ei adgyfodiad, nid ar unwaith ac o anghenrheidrwydd, ond pan ac fel y mynai Efe ei hunan.

Adn. 13: *Yna y daeth yr Iesu*, &c. Nid yw "yna" i fod i mewn. Fel yr oeddynt hwy yn sefyll draw braidd, gan ryw gymysgedd o wylder ac ofn, daeth yr Iesu, ac a roddodd iddynt y bara a'r pysgod y rhai a ddarparasai Efe ei hunan iddynt.

Sabboth, Tachwedd 17eg—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Chwefror 3ydd *yn y* Gwers-lyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 13).

Gwaith Petr.—Ioan xxi. 14—19.

Adn. 14: *Y drydedd waith hon yn awr yr ymddangosodd yr Iesu i'w ddysgyblion, wedi iddo gyfodi o feirw.* Cyfeiria y "drydedd waith" fe allai at ymddangosiadau i'r dysgyblion gyda'u gilydd. Adrodda Ioan ei hun am dri ymddangosiad cyn hyn, y cyntaf i Mair Magdalen, xx. 11. Gallai fod y geiriad "y drydedd waith hon" er mwyn gwahaniaethu yr ymddangosiad hwn, yr hwn ni chadwyd yn y traddodiad, oddiwrth yr ymddangosiadau diweddarach y rhai a gadwyd felly. Gallai hefyd fod "y drydedd waith" yn golygu "sypiau" neu "ddyddiau" o ymddangosiadau; y rhai ar y dydd cyntaf yn cael eu cyfrif fel un.

Adn. 15: *Yr Iesu a ddywedodd wrth Simon Petr, Simon mab Jona.* Y mae cyferbyniad yr enwau yn arwyddocäol. Adgofir ni gan gyfarchiad Crist, yn cael ei adrodd deirgwaith, o'r geiriau cyntaf a lefarwyd wrth Petr, i. 42, pan y cafodd y cyfenw Cephas (Petr). Nid yw ein Harglwydd byth yn cyfarch Petr wrth ei gyfenw newydd, ac nid yw yr Apostol Paul ychwaith (yn ol y darlleniad cywir) byth yn son am dano wrth y ffurf Roegaidd o'i enw (Petr), ond fel Cephas. Ar y llaw arall, defnyddir y cyfenw yn fynych ei hun, neu gyda Simon, yn yr Efengylau, a phob amser yn y ffurf Roegaidd (Petr). Y mae y gwahaniaeth hwn yn yr arferiad o'i enw, yr hwn sydd yn cyfateb yn hollol i'r amgylchiadau o dan y rhai y newidiwyd ei enw, yn ddangosiad tarawiadol o fanylrwydd y cofrestrau, ac yn neillduol y cofrestr o eiriau Crist. "Simon mab Jona," y dyn yn ei gymeriad naturiol, ar wahan oddiwrth yr apostol. *A wyt ti yn fy ngharu i yn fwy na'r rhai hyn?* Sef 'yn fwy nag y mae y rhai hyn yn fy ngharu i.' Cyfeiriad, y mae'n debyg, at waith Petr yn hòni ymroddiad llwyrach na'r lleill i'w Feistr (xiii. 37; Matt. xxvi. 33). Rhoddir y broffes hon gan Matthew mewn cysylltiad unionglrychol âg addewid Crist i ymddangos yn Galilea ar ol ei adgyfodiad, yr hwn a rydd rym neillduol yn y gofyniad. *Yn fy ngharu i—ἀγαπᾶς*—y cariad sanctaidd, uchaf, ffynnonell y bywyd Cristionogol. Seilir y swydd apostolaidd ar gariad, nid ar grediniaeth. Y mae Cariad yn ei wir ffurf yn cynnwys Ffydd, 1 Cor. xiii. 13. *Dywedodd yntau, Ydwyf, Arglwydd, ti a wyddost fy mod yn dy garu di.* Y mae dau beth yn yr ateb yn wahanol i'r gofyniad. Nid yw yn proffesu unrhyw ragoriaeth ar ei frodyr—"yn fwy na'r rhai hyn?" Ac hefyd y mae yn defnyddio gair gwahanol am *garu*, gair gwanach, yn golygu serch naturiol, hoffder fel cyfaill (φιλῶ σε). "Ti a wyddost fy mod yn dy *hoffi* di." Nid yw yn gallu anturio proffesu y cariad uwchaf

sydd yn nghwestiwn ei Feistr. Tı *a wyddost. Ti* yn bwysleisiol. Yr oedd profiad wedi dysgu Petr i beidio ymddiried i'w farn ei hun am dano ei hun. Er iddi fod yn ffaith o ymwybyddiaeth digyfrwng, gedy ei hòniad i orphwys ar fewn-weledıad uniongyrchol yr Iesu. *Portha fy ŵyn.* Y mae yn rhoddi gwaith yn ei siars. Dengys hyn ei fod yn derbyn ei ateb fel un cywir. Y mae plant a'r rhai bach yn Nghrist yn gofyn am ymborth. Dyma y radd isaf o dair gwedd y swydd. Hon a roddir yn awr i Petr.

Adn. 16: *Efe a ddywedodd wrtho drachefn*, &c. Yr un cwestiwn yr ail waith, a'r un ateb. Yna dyry y Meistr ran arall o waith bugail yn ei ofal—*Bugeilia fy nefaid.* Rhaid i'r ŵyn gael eu porthi, rhaid i'r defaid gael eu harwain. Y mae y gofal gwyliadwrus sydd i fod dros Gristionogion addfed yn gofyn mwy o ddoethineb a thynerwch nag ydyw porthi yr ieuanc a'r syml.

Adn. 17: *Petr a dristaodd am iddo ddywedyd wrtho y drydedd waith, A wyt ti yn fy ngharu i?* Wele y cwestiwn yn cael ei ofyn y drydedd waith, ond gyda chyfnewidiad. Y gair uchaf am "garu" oedd yn y cwestiwn y tro cyntaf a'r ail, a Phetr yn ateb gyda'r gair îs. Ond y tro hwn, wele ein Harglwydd yn cymeryd gair Petr ei hunan: "A wyt ti yn wir hyd yn nod yn fy *hoffi* i?" Dyma barodd iddo dristâu, nid am ei fod wedi gofyn dair gwaith. Tristäodd yn fwy, wrth gofio fod ei Feistr wedi cael achos i ammheu hyd yn nod y radd isaf hon o gariad. Y mae Petr yn ei ateb yn cyfarfod â'r newidiad yn y cwestiwn: *Arglwydd, ti a wyddost bob peth, ti a wyddost fy mod i yn dy garu di.* Gedy allan y mynegiad *Ydwyf*, &c., a theifl ei hun yn hollol ar wybodaeth ei Arglwydd. Yna gorchymynir iddo, *Portha fy nefaid.* Rhaid porthi heblaw arwain. A dyma y rhan uwchaf a'r anhawddaf o waith bugail.

Adn. 18: *Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Pan oeddit ieuanc, ti a'th wregysaist dy hun, ac a rodiaist lle y mynaist: eithr pan elech yn hen, ti a estyni dy ddwylaw, ac arall a'th wregysa, ac a'th arwain lle ni fynit.* Yr oedd Pedr yn awr wedi ei osod o newydd mewn modd difrifol yn ei swydd. Yma dengys ein Harglwydd, trwy awgrymiad tywyll prophwydol, beth fyddai canlyniad eithaf y gosodiad hwn iddo ef yn bersonol. Cyfeirir yma at ei ferthyrdod, fel y dengys yr adnod nesaf. Cafodd ei eiriau beiddgar "mi a roddaf fy einioes drosot" (xiii. 37) eu cyflawni yn llythyrenol. Y mae yn debyg fod Pedr yn awr yn ŵr canol oed (Mat. viii. 14). Cyferbynir rhyddid tymmor ei ieuenctyd, a'i ewyllys benderfynol, fe allai, â'i dynged yn ngwendid henaint, yn cael ei arwain yn erbyn ei ewyllys i'r dienyddle. Tybia Westcott fod yma gyferbyniad cuddiedig o dan hyn rhwng lleihad ei ryddid naturiol yn nhreigliad amser â'i gynnydd mewn rhyddid ysbrydol. Y mae y tri mynegiad yn hanner olaf yr adnod yn gyferbyniol i'r tri yn yr hanner cyntaf.

Adn. 19: *A hyn a ddywedodd efe, gan arwyddo trwy ba fath angeu y gogoneddai efe Dduw.* Angeu trwy ferthyrdod. Tystiolaetha Tertullian i groeshoeliad Pedr yn Rhufain: o.c. 64. Dywed Origen ymhellach iddo gael ei groeshoelio â'i ben i lawr, ar ei ddeisyfiad ei hun. Edrycha esbonwyr yn gyffredin ar adn. 18 fel yn cyfateb i fanylion marwolaeth trwy groeshoeliad. Prin fe allai y goddefant yr ystyr yna. Golygant yn ddiau farwolaeth merthyr. *Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddywedodd wrtho, Canlyn fi.* Dyma yr hen alwad a roddasid i eraill dan amgylchiadau gwahanol, yn cael ei rhoddi yn awr i Pedr wedi ei gomisiwn newydd, ac awgrym am ddiwedd y daith. Cymer y gorchymyn ystyr newydd fwy ysbrydol ar ol adgyfodiad Crist na chyn hyny.

Sabboth, Tachwedd 24ain—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Chwefror 3ydd *yn y* Gwersleyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 13).

Gwaith Ioan.—xxi. 20—25.

Adn. 20: *A Phetr a drodd, ac a welodd y dysgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu, yn canlyn; yr hwn hefyd a bwysasai ar ei ddwyfron ef ar swper; ac a ddywedasai, Pwy, Arglwydd, yw yr hwn a'th fradycha di?* Ymddengys y bu rhyw symudiad llythyrenol, oddiwrth y dysgyblion eraill, ar ol y gorchymyn "Canlyn fi." Pan yn troi, tynwyd ei sylw at Ioan. Yr oedd yntau hefyd "yn canlyn," heb wahoddiad neillduol yn awr. Rhoddir y desgrifiad hwn o Ioan i egluro y rhyddid a gymerai i "ganlyn" fel hyn, ac i ddangos agosrwydd y berthynas rhwng Ioan a Phedr.

Adn. 21: *Pan welodd Petr hwn, efe a ddywedodd wrth yr Iesu, Arglwydd, ond beth a wna hwn?* Cwestiwn naturiol. Yr oedd gwaith Ioan yn canlyn ynddo ei hun megys yn ofyn cwestiwn i'r Iesu. Y mae y gwreiddiol yn hynod fyr a chynnwysfawr: "Arglwydd, a'r dyn hwn, beth?" 'Beth am hwn? Beth gaiff hwn ddyoddef neu wneuthur? Beth fydd rhan hwn?'

Adn. 22: *Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Os mynaf iddo aros hyd oni ddelwyf, beth*

yw hyny i ti? canlyn di fyfi. Yr oedd helynt ddyfodol Petr i gyfateb i'w *waith*, ac felly Ioan. *Os mynaf*—yn cuddio y bwriad dwyfol. Amser a eglurodd beth oedd hwnw. *Hyd oni ddelwyf*—ystyr fanwl y gwreiddiol yw "tra yr ydwyf yn dyfod." Nid pwynt neillduol yn y dyfodol, ond ffaith yn cael ei chyflawni yn araf a pharhaus. *Beth yw hyny i ti?* Nid oes a wnelo dynion â phenderfynu rhan a lle pob un yn nghorff yr Eglwys. Yr ewyllys Ddwyfol sydd yn gwneyd hyny, ac amser yn ei hesbonio.

ADN. 23: *Am hyny yr aeth y gair yma allan*, &c. Arosodd y traddodiad yn hir yn yr Eglwys mai cysgu yr oedd Ioan yn ei fedd yn Ephesus. Cynnrychiolai Pedr ac Ioan ddwy weinidogaeth yn yr Eglwys. Gweinidog gwaith oedd Pedr, a'i wasanaeth yn cael ei gyflawni gan ferthyrdod marwolaeth. Gweinidog meddwl ac addysg oedd Ioan, a'i wasanaeth yn cael ei berffeithio yn merthyrdod bywyd.

ADN. 24, 25. Dau nodiad yn cael eu chwanegu at Efengyl Ioan cyn ei chyhoeddiad, gan henuriaid Ephesus, o bosibl, i'r rhai y traddodasid yr hanes blaenorol mewn llafar ac ysgrifen.

NODIAD.—Yma y terfyna y *Gwersi Esboniadol* ar y rhanau gosodedig o'r Efengylau i'r *Dosbarth Canol* yn y Gwerslyfr. Gwneir y gweddill o'r Gwersi i fyny o *Dasgau* ar gynnwys y llafur blaenorol, ac ar y *Gwyrthiau* a nodweddion yr Efengylwyr yn gyffredinol. Cyrhaeddant, yn ol y rhaniad a wnaed, hyd fis Mawrth, 1890. Gwel GWERSLYFR II., tu dal. 13. Cyfeirir y darllenydd am atebion i'r cwestiynau hyn at y llafur blaenorol, ac at y Llawlyfrau ar y Gwyrthiau ac ar yr Efengylau.

DOSBARTH HYNAF.

SABBOTH, TACHWEDD 10FED—(*Y rhan gyntaf o'r Wers am* IONAWR 20FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 30).

Ofnwch Dduw yn unig. Mat. x. 26—31; Luc xii. 1—7.

ADN. 26: *Am hyny nac ofnwch hwynt.* Ceir grym yr "am hyny" yn adn. 24, 25, lle y dangosir fod y dysgyblion yn un â'u Hathraw mewn erlidigaeth. Am hyny byddent yn un âg Ef mewn buddugoliaeth. Un achos ydoedd. Achos y Meistr ydoedd, ac yn hyny yr oedd sicrwydd ei fuddugoliaeth. *Oblegid nid oes dim cuddiedig, a'r nas dadguddir: na dirgel, a'r nas gwybyddir.* Yr oedd y rhan flaenaf o'r adnod yn edrych yn ol ar lwybr y Rhagflaenor drwy ymdrechfa i fuddugoliaeth; y mae y rhan olaf yn taflu edrychiad ymlaen i ddiweddiad sicr ac eithaf holl hanes y byd. Y mae y ddau ymadrodd yn y frawddeg hon yn gyfochrog, ac yn cyflenwi eu gilydd. Cyfeiria y "cuddiedig," fe allai, at oruchwyliaethau Duw tuag at ddynion. Y mae Efe yn cuddio ac yn dadguddfo. Cyfeiria y "dirgel" at ymddygiadau dynion tuag at Dduw. Y mae dynion yn celu y gwirionedd, ond gwybyddir ef er hyny; caiff pob peth ei ddwyn i'r goleuni, ei adnabod a'i gydnabod. Yn ol eraill, golyga y cyntaf weithredoedd, a'r llall ddirgelion. 'Yr hyn na welodd un dyn a ddaw yn weledig; yr hyn na chlywodd ac na wybu un dyn a amlygir'—dadguddiad cyffredinol o bob peth cuddiedig.

Pa fodd y mae hyn yn rheswm dros beidio ofni? 1. Gan mai dyma egwyddor fawr y llywodraeth Ddwyfol, rhaid cyffurfio â hi. Rhaid i'r efengyl gael ei phregethu trwy yr holl fyd. Yr ydych chwithau yn offerynau i ddwyn i ben y bwriad dwyfol. 2. Gan fod pob peth i ddyfod i'r golwg, gwyliwch ragrithio, neu gelu dim rhag ofn dynion; caiff pob twyll ei ddynoethi eto. 3. Nac ofnwch enllib a chamgyhuddiadau dynion; daw dydd i'ch clirio chwi a'u condemnio hwythau, os ydych yn gwasanaethu y Meistr yn gywir. Gesyd y dydd hwnw bob peth yn ei wir oleuni.

ADN. 27: *Yr hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd wrthych chwi yn y tywyllwch, dywedwch yn y goleuni.* Yn ol rhai o'r Tadau, y gwirionedd yr oedd Crist yn ei ddysgu i'w ddysgyblion o fewn cylch bychan, neillduedig gwlad Canaan, yr oeddynt hwy i'w ledaenu ymhob gwlad. Gall fod yn cynnwys hyn a mwy. Yr oedd yn rhaid iddo Ef sefydlu ei deyrnas yn ei ddysgyblion yn nghyntaf, ac yna trwyddynt hwy yn y byd. Yr oedd y dadguddiad o'r efengyl i ddechreu yn ddirgel, ymysg cwmni dirmygedig y groes, cyn y gellid ei gyhoeddi yn ei gyflawnder i'r byd. *A'r hyn a glywch yn y glust, pregethwch ar benau tai.* Yr oedd penau y tai yn y Dwyrain yn wastad, fel y gellid ymddyddan o un nen i'r llall, neu i'r heol. Ymadrodd ffugyrol am yr hysbysiad mwyaf cyhoeddus.

Y mae y cymhwysiad o'r gwirionedd hwn yn wahanol yn Luc (xii. 1, 2, 3) i'r hyn ydyw gan Matthew. Cymhwysir ef yno yn benodol fel rheswm dros ochel "surdoes y Phariseaid, yr hwn yw rhagrith" (adn. 1). Ond yma, fel y dangoswyd uchod, fel cymhelliad i bregethu yr efengyl yn ddiofn, yn ddigêl, ac er gwaethaf enllib. Gwelir cymhwysder yr ystyriaeth am y ddeddf fawr hon yn llywodraeth Duw, fel yr awgrymwyd dan adn. 26, i attegu yr holl bethau hyn.

SABBOTH, TACHWEDD 17EG—*(Y rhan olaf o'r Wers am* IONAWR 20FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal* 30.).

ADN. 28: *Ac nac ofnwch rhag y rhai a laddant y corff, ac nid allant ladd yr enaid.* Gall y cyhoeddusrwydd a orchymynir achlysuro eu marwolaeth. Ond nid oeddynt i ofni marwolaeth, na'r rhai oedd yn lladd. Nis gallent ond lladd y corff. Y mae ymddangosiad Crist, yr hwn sydd i wneyd pob peth yn amlwg, i fod yn ddydd eu buddugoliaeth hwythau ar angeu a'r bedd. *Eithr yn hytrach ofnwch yr hwn a ddichon ddystrywio enaid a chorff yn uffern.* Pwy yw "yr hwn?" Pa un ai Duw ai Satan? Sylwa Stier mai dyma yr unig ymadroddion yn y Bibl ag y gellir eu cymhwyso at Dduw neu y diafol. Dadleua efe mai y diafol a olygir. Ond credwn nas gellir eu cymhwyso at y diafol, am y rhesymau a ganlyn:—1. Y mae "ofni *rhag*" yn golygu ofn o gaethiwed ac arswyd; ond "ofni" a ddefnyddir mewn ystyr uwch a sanctaidd, yn golygu yn gyffredin "ofni *Duw.*" 2. Duw *yn unig* a osodir allan yn yr Ysgrythyrau fel Arglwydd Hollalluog ar fywyd a marwolaeth, dymmorol a thragywyddol. Duw yn unig yw "yr hwn a *ddichon* ddystrywio" yr oll o ddyn am yr oll o'i barhâd. 3. Y mae Satan ei hun dan farn condemniad. Nid carcharor sydd yn bwrw i garchar. 4. Nid "*yn* uffern" y mae y diafol yn dystrywio, ond *cyn* hyny, er mwyn i'r dyn gael ei fwrw yno. Nid y diafol sydd yn gweinyddu barn uffern. Satan sydd yn gweithio yr ofn angeu pechadurus yr hwn sydd yn gaethiwed, o'r hwn nis gallwn gael ein gwaredu ond trwy ofn uwch a sanctaidd iach—sef ofn Duw, Heb. ii. 14.

ADN. 29: *Oni werthir dau aderyn y tô er ffyrling?* Golyga y gair *στρουθία* unrhyw adar bychain, ond yma "adar y to" yn benodol. Tardda y gair a gyfieithir "ffyrling" o air Groeg, a defnyddid y gair yn y Groeg a'r Hebraeg i arwyddo y dernyn mwyaf distadl, lleiaf ei werth, mewn ffordd o arian. Ac fel y sylwa Stier, yn Luc xii. 6 (a lefarwyd ymhen blwyddyn ar ol hyn) yr oedd yr adar tô wedi gostwng yn y farchnad, fel ag yr oedd *pump* o honynt am *ddwy* ffyrling. *Ac ni syrth un o honynt heb eich Tad chwi.* "Syrthio," nid ehedeg, trwy gael ei ladd gan gareg neu saeth. Ni ddygwydd hyn i'r creaduriaid distadlaf a mwyaf diwerth "heb eich Tad chwi"—heb ei wybodaeth, ei sylw a'i ganiatâd, neu ei ewyllys. Y mae manyldra gofal Rhagluniaeth Duw, eu Tad hwy, yn rheswm ychwanegol dros iddynt beidio ofni eu gelynion hwy a Duw.

ADN. 30: *Ac y mae, ïe, holl wallt eich pen wedi eu cyfrif.* I ddangos y raglunïaeth fwyaf neilduol, a'r gofal mwyaf manwl a hollol. Addurn naturiol y pen yw y gwallt. Ni chollir y bywyd, nac hyd yn nod yr un o addurniadau distadlaf bywyd, o ddiffyg manylrwydd gofal. 'Ni chollir blewyn o'ch pen, llawer llai y pen ei hun.'

ADN. 31: *Nac ofnwch gan hyny: chwi a delwch fwy na llawer o adar y tô. Chwi* yn bwysleisiol: '*chwi* ddynion, *chwi* Gristionogion, ac yn benaf yma, *chwi* fy ngweision a'm tystion I, i ledaenu fy Efengyl yn y byd.' Ond yn yr adnod nesaf ceir "pwy bynag" ar gyfer y "chwi" yma.

SABBOTH, TACHWEDD 24AIN—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* IONAWR 27AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 31).

Ymogelwch rhag cybydd-dod. Luc xii. 13—21.

ADN. 13: *A rhyw un o'r dyrfa a ddywedodd wrtho, Athraw, dywed wrth fy mrawd am ranu â myfi yr etifeddiaeth.* Nid un o ganlynwyr yr Iesu oedd hwn, ond dyn dyeithr, un o'r "myrddiwn pobl" oedd wedi ymgasglu i wrandaw arno (adn. 1). Tra yn gwrando ar Grist yn traethu am bethau nefol, yr oedd ei feddwl ef wedi ei lyncu gan bethau daearol. Wrth deimlo nerth geiriau yr Iesu, a gweled urddas ei agwedd, tybiodd fod yma gyfleusdra da i gael dwyn achos o ymrafael teuluaidd i benderfyniad. Gallai ei fod yn synio fod y Messïah, neu y Rabbi mawr hwn, wedi ei anfon i unioni pob peth.

ADN. 14: *Yntau a ddywedodd wrtho, Y dyn, pwy a'm gosododd i yn farnwr, neu yn rhanwr arnoch chwi?* Nid yw atebiad ein Hiachawdwr yn awgrymu fod cais y dyn yn anghyfiawn ynddo ei hunan. Yr oedd ei waith yn gofyn i'r Iesu benderfynu y cwestiwn o gwbl yn gamsyniad. Ni roddai farn arno y naill ffordd na'r llall. Nid oedd yn perthyn dim i'w swydd na'i waith. Adgofir ni o gwestiwn yr Aiphtiwr i Moses, Exod. ii. 14.

ADN. 15: *Ac efe a ddywedodd wrthynt, Edrychwch, ac ymogelwch rhag cybydddod: canys nid yw bywyd neb yn sefyll ar amlder y pethau sydd ganddo.* Gwelai yr Iesu gybydd-dod yn nghalon y dyn, a defnyddiai y cyfle i rybuddio ei wrandawyr rhag y pechod hwn. Cyf. Diwyg.: "rhag *pob* cybydd-dod"—pob math; *πάσης πλεονεξίας.* Y math hwn oedd ariangarwch. Ond y mae "cybydddod" mewn ystyr eang yn golygu, yn unol âg ystyr y Saesoneg *covetousness,*

chwennychiad anghymedrol am ddaioni daearol ymhob ffurf. "Cybydd-dod, yr hon sydd eilunaddoliaeth," Col. iii. 5. Gwneyd duw o'r creadur, a nefoedd o'r ddaear. *Bywyd* yn ei ystyr naturiol. Nis gall cyfoeth estyn bywyd neb. O Dduw y mae bywyd, nid o feddiannau dyn, pa mor aml bynag y byddont. Dyma wers y ddammeg sydd yn canlyn, a sail y wers uwch a dynir o honi yn adn. 21. Y mae cybydd-dod yn bechod na weinyddir dysgyblaeth am dano, ac nas gellir, ond mewn achosion tra eithafol; am ei fod mor ddirgel—ei eisteddle yn ysbryd y dyn; gall lywodraethu ar y galon, heb dori allan mewn gweithred o anghyfiawnder neu dwyll. A phan amlyga ei hun mewn gor-gynnildeb, nid yw yn hawdd cymeryd gafael ynddo, am y gall pob dyn ddadleu mai efe sydd yn gwybod ei amgylchiadau ei hun, ac mai efe sydd i'w rheoli; ac hefyd am nad yw cyfranu yn beth o orfodaeth, ond o deimlad a chydwybod. Y mae hwn yn un o'r pechodau y rhaid ei adael i *Dduw* i'w ddysgyblu.

SABBOTH, RHAGFYR 1AF—*(Y rhan olaf o'r Wers am* IONAWR 27AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 31).

Dammeg y gŵr cyfoethog.

ADN. 16: *Ac efe a draethodd wrthynt ddammeg, gan ddywedyd, Tir rhyw ŵr goludog a gnydiodd yn dda.* Darlunia ein Harglwydd yn y ddammeg hon ddyn wedi cyrhaedd i uchder llwyddiant bydol, a hyny trwy ffordd gyfreithlon. Fel y sylwa Awstin, nid trwy drais na thwyll y casglodd ei gyfoeth. Ei dir yn "cnydio yn dda:" bendith Duw a'i cyfoethogodd, yr hon a fuasai yn wir fendith pe buasai yn cael ei hiawn ddefnyddio. Ond pan gynnyddodd golud, rhoddodd ei galon arno. Am nas gall golud lanw y galon, nid oedd yn profi boddlonrwydd.

ADN. 17: *Ac efe a ymresymodd ynddo ei hun, gan ddywedyd, Beth a wnaf, am nad oes genyf le i gasglu fy ffrwythau iddo?* Dyma anfoddlonrwydd yn esgor ar ofal a phryder. Cynnyddai y pethau hyn gyda chynnydd y golud.

ADN. 18: *Ac efe a ddywedodd, Hyn a wnaf: Mi a dynaf i lawr fy ysguboriau,* &c. Yr oedd yr ysguboriau yn gyfredin yn gelloedd sychion, tanddaearol. Gallai ei fod yn bwriadu eu helaethu, ac hefyd adeiladu rhai mwy. Nid yw yn meddwl am y tlodion; *hunan* sydd yn llanw ei fryd.

ADN. 19: *A dywedaf wrth fy enaid, Fy enaid, y mae genyt dda lawer wedi eu rhoi i gadw dros lawer o flynyddoedd: gorphwys, bwyta, yf, bydd lawen.* Gwelwn yma fel y cynnydda effeithiau drwg cyfoeth heb ras. Anfoddlonrwydd i ddechreu, yna gofal a phryder, yna hunan-dwyll a gobeithion gau. Y camgymeriad mawr oedd gwneyd hunan-fwynhad yn amcan, a chymeryd daioni daearol yn foddion i gyrhaedd yr amcan. "Da" y byd hwn oedd ei ddaioni penaf. Y mae yn ei gynnyg i'w enaid. Fel y sylwa Meyer, nid yn unig "i *mi*, ond i fy *enaid*"—eisteddle y serchiadau, eisteddle chwant, neu gariad at fwynhâd. Cyfoeth yn cynnyrchu moethusrwydd.

ADN. 20: *Eithr Duw a ddywedodd wrtho, O ynfyd, y nos hon y gofynant dy enaid oddiwrthyt; ac eiddo pwy fydd y pethau a barotoaist?* "*Duw* a ddywedodd:" nid penderfyniad dwyfol yn unig yn ei achos, ond rhybudd uniongyrchol, di-droi-yn-ol; llais tufewnol i'w gydwybod, dystaw ond fel taran, yn gwneyd iddo deimlo nad oedd ganddo ond llai o oriau i fyw nag oedd efe wedi freuddwydio o flynyddoedd. Yr oedd ei ynfydrwydd yn bedwarplyg; anghofiai y Rhoddwr—"*fy* ffrwythau, *fy* ysguboriau," &c. Gafaelai yn dŷn yn y cwbl i'w fwynhad ei hunan—"yno y casglaf fy *holl* ffrwythau, &c." Dychymyga fod y pethau hyn yn ymborth i enaid: "Fy enaid—bwyta," &c. Anghofir angeu, yr hwn yr ydym yn agored iddo bob dydd: "dros lawer o flynyddoedd." "Y *gofynant* dy enaid." Pwy? Duw ei hun, medd rhai; neu angel marwolaeth, yr hwn a gafodd y comisiwn; neu yr ysbrydion drwg yn gyferbyniol i "a'i ddwyn gan yr angylion," Luc xvi. 22. Y mae awgrymiad difrifol ac ofnadwy yn y rhif luosog, heb ddyweyd *pwy*. Dywed eraill, ysbeilwyr a llofruddion, y rhai fe allai oedd ar y ffordd yn dyfod i'w dŷ y pryd hwnw, yn y nos, i'w ladd er mwyn ysbeilio ei gyfoeth. Nis gallai darlun mwy dychrynllyd gael ei osod o flaen meddwl y cybydd hwn, na bod ei eiddo *ef*, yr hwn a "barotoisai" â'r fath ofal, yn myned i eraill, ysbeilwyr fe allai, ac yntau ei hun yn cael ei gymeryd am byth oddiwrth ei gyfoeth trwy farwolaeth, trwy gael ei *ladd* o bosibl!

ADN. 21: *Felly y mae yr hwn sydd yn trysori iddo ei hun, ac nid yw gyfoethog tuag at Dduw.* "Felly y mae" yn ei dwyllo ei hunan, fel y gŵr hwn yn y ddammeg, i gael ei ddidwyllo fel yntau yn ddisymwth a brawychus, yn fuan neu yn hwyr. "Trysori iddo ei hun"—hunan-fwynhâd yn egwyddor bywyd. "Cyfoethog tuag at Dduw"—Duw ac nid hunan yn amcan bywyd; felly y cyfoeth yn gynnwysedig mewn pethau rhwng yr enaid a Duw—ei ffafr, ei ddelw,

ei gymdeithas a'i wasanaeth. Pethau Duw yw y gwir drysor *iddo ei hun*—i'w fywyd mewnol a gwirioneddol, ac yn wir feddiant iddo ei hun. Wrth geisio ei hunan, y mae dyn yn colli Duw, ac yn colli ei hunan. Wrth geisio Duw, y mae yn ei gael Ef, ac yn cael ei hunan ynddo byth.

Hanesion a Barnau Detholedig.

LLYTHYR Y PARCH. HENRY REES AT Y GYMDEITHASFA YN ABERDYFI, MAWRTH, 1867.

Nid oedd neb tebyg i Mr. Rees am ysgrifenu Llythyr. Cyhoeddasom un yn y Drysorfa yn ddiweddar, fel swp grawn yn engraifft o'r wlad dda odiaeth sydd yn ymagor o'n blaen yn ei Gofiant gan Dr. Thomas. Y mae genym yr hyfrydwch o anrhegu ein darllenwyr â hwn eto, a ysgrifenwyd ganddo, fel y gwelir, yn esgusawd am ei absennoldeb o Gymdeithasfa Aberdyfi yn nechreu y flwyddyn am yr hon yr etholwyd ef i fod yn Llywydd y Gymdeithasfa, ar ol y diweddar Dr. Parry, Bala. Gwelir gyda'r fath ddifrifwch ac ofnadwyaeth, er ei fod y dyn mwyaf sanctaidd a welsom (neu fe allai *am* hyny) yr ydoedd yn gallu sylweddoli cyfnewidiad mawr marwolaeth a dirgelwch y fuchedd dragywyddol. Diau y bydd y Llythyr hwn hefyd yn y Cofiant.

Liverpool, *Mawrth* 18*fed*, 1867.

At Ysgrifenydd y Gymdeithasfa.

Anwyl Gyfaill,—Yr wyf yn anfon hyn o linellau i hysbysu trwoch chwi i'r Gymdeithasfa fy mod yn teimlo yn rhy egwan a thyner, ar ol fy nghystudd diweddar, i feddwl am ddyfod trwy ddwyreinwynt oer a chaled mis Mawrth mor bell ag Aberdyfi.

Mae yr ddrwg genyf fy mod yn achlysur o'r gradd lleiaf o drafferth ac anghyfleusdra i'r cyfarfod; ond nis gallaf wrth hyny; yr wyf yn dechreu methu, ac nid oes dim amgen i'w ddysgwyl bellach. Mae yn rhaid fod yr einioes yn nesâu i'r beddrod, er mor anhawdd yw credu hyny. Mae y dirgelwch mawr ar ddyfod i'r golwg, y dynged dragywyddol a digyfnewid ar basio, a'r ysbryd yma i ymgymeryd yn fuan bellach â rhyw ddull newydd o hanfodi, yn yr hwn yr erys hyd ddydd y farn. Yr ydym wedi myned trwy lawer o gyfnewidiadau yn y byd hwn; ond mae y ddau fwyaf eto yn ol; ac i lawer o honom mae y nesaf i'r olaf gerllaw. Nyni a bregethem yn well yn ddiammheu pe gallem sylweddoli y pethau hyn.

Cofiwch fi at fy holl frodyr. Gall Mr. Parry, os byddwch yn dewis, barhâu yn y gadair dros y cyfarfod O'm rhan fy hun, yr wyf bron yn meddwl mai eich doethineb a fyddai ail ddewis Llywydd am y flwyddyn, rhywun ieuengach a chryfach, ac felly mwy sicr o fod yn bresennol ymhob Cymdeithasfa, ac yn eu holl gyfeisteddfodau o'r dechreu i'r diwedd.

Chwi a wnaech yn dda yn Aberdyfi pe gallech roi diwedd bythol ar geisio cyhoeddiadau trwy lythyrau, ynghyd a rhoddi cyhoeddiadau ymhell ymlaen ac i bell o ffordd yn unig am Sabbath (llygriad y *penny postage* a'r *railways*), a dychwelyd yn ol at yr hen ddull—y cyhoeddiadau am y Sabbothau yn y Sir i gael eu rhoi yn y Cyfarfod Misol, a'r cyhoeddiad i daith allan o honi yn y Sasiwn Chwarterol. Fe arbedai hyn lawer o draul a thrafferth.

* * * * *

Yr eiddoch yn garedig,

Henry Rees.

Barddoniaeth.

BYWYD.

Mae Bywyd tu hwnt i'r Athronydd
I'w ddirnad, a d'wedyd beth yw,
Tu hwnt i ddychymyg darfelydd,
'D oes neb yn ei ddeall ond Duw;
Wrth greu yr ymlusgiaid, bwystfilod,
Ehediaid, ac angel, a dyn,
Daeth bywyd o anadl y Duwdod
Fel ager i beiriant pob un.

Symudodd yr oll a'i weithrediad,
Ac heriodd lonyddwch pob bôd,
Rhoes fyn'd ar olwynion y cread—
Heb sefyll o hyd mae y rhôd;
Ymwthiodd i briddyn y ddaear,
A'i galon i guro a roed,
A nerthodd draed Adda yn feiddgar
I roddi 'r cam cyntaf erioed.

Y bywyd llysieuol y gwanwyn
Wna fynwent y gauaf, yn ardd,
A blodau amryliw, y flwyddyn
Gorona fel duwies yn hardd;
Gwna 'r coedydd i blygu gan aeron,
Y meusydd orchuddia âg ŷd,
Arllwysa win, mêl, a melusion
Yn frasder i gwpan y byd.

Mae 'r byd anifeilaidd gan fywyd
Yn fywiog filodfa i'r lôr,
Ymsymud fel arlan byw hefyd
Mae 'r pysgod yn eigion y môr;
Ond uwch yw y bywyd rhesymol
Yn ngraddfa bodolaeth y byw,—
Mae 'n ddolen gysylltu 'r materol
Ag ysbryd ar ddelw ei Ddiuw.

Mwy gwerthfawr yw bywyd nag arian,
Rhagorach na tlysau oi w edd,

Mae 'n treiddio fel awyr, neu drydan,
I bobman ond uffern, a'r bedd;
Y bywyd tragwyddol yw coron
Pob bywyd sy 'n bod ymhob byd,
Mae 'n llanw byd llydan nefolion,
'R un ydyw â'r Duwdod mewn hyd.

RHYSTYD DAVIES.

Cwmbach, Whitland.

PETR YN TORI CLUST MALCHUS.

IOAN xviii. 10.

(*Cyfeithiad o Hen Awdwr.*)

DA gwnei di, Petr, drin y cleddyf llym;
Da i ti—ac nid i'r Athraw Mawr.
Trwy dori clustiau, cym'ryd gofal wnai
Na bo un tyst o'r *gwadu* sydd gerllaw.

G.

ABERTH MOLIANT.—DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAUAF.

AR dy drugaredd, Arglwydd Dduw,
Yr ŷm yn byw 'n feunyddiol;
Estyni i drigolion byd
Eu bywyd yn wastadol.

Rhagluniaeth ddoeth—O! Nefol Dad,
Dadguddiad yw o'th galon;
Fe welir ynddi ymhob gwlad
Dy gariad yn gysuron.

Diolch a wnawn y flwyddyn hon,
Down ger dy fron yn lluoedd,—
Am frasder bendith ŷd a gwin,
Yn ddibrin i'r holl bobloedd.

Dyn ac anifail gedwi di,
O! Arglwydd cu, rhag cyni;
Dysgwyliant wrthyt yn eu blys,
Mae 'wyllys i'w digoni.

Canwn, addolwn, trwy fawr barch,
Gwnawn gyfarch ein *Jehofa*,—
Gweddus a hyfryd yw rhoi mawl,
A chanmawl y Gorucha'.

TRISANT.

Lerpwl.

ANERCHIAD I'R PARCH. JOHN HUGHES, D.D., AR EI YMADAWIAD A LIVERPOOL.

Y DOCTOR Hughes a'i fad actau,—dystaw,
Ynt destyn cywyddau;
Ac nis gellir clir, osod clau
Ragoriaeth y gwr â geiriau.

Athraw uniawn, ac athronydd—ydyw,
Hynodol areithydd;
Mawr ŵr yw,—i Gymru rhydd
Wir ddoniau cawr ddiweinydd.

Trwy ei ddullwedd trodd ei allu—a'i rym,
Yn wir ras i Gymru;
Par ei goethus ddawn pregethu,
Fôr o les i ddirfawr lu.

Dwg â'i siarad gysuron—i feddwl
Cyfaddas faeth calon;
Cyfrana fyg gyfrinion
O wiw-lân efengyl Ion.

Doctor a'i gynghor yn gall—yw, rhinwedd
Gyfrana i'r anghall:—
I weled dwg y meddwl dall
A'i eli da—goleu deall.

Nid dystaw aur yw ei dysteb,—nagê,
Ond gwaith a ffyddlondeb;
I'w wir nawdd ca rhai 'n er neb
Yn gyfan oesol gofeb.

Yn ras addas, boed hir oes iddo,—Duw
Fo 'n dawel nawdd drosto;
A phob rhinwedd hyd fedd a fo
Yn dynach, dynach am dano.

TRISANT.

Liverpool.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

YN Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Rhostryfan, Medi 16 a'r 17eg, agorwyd testyn y drafodaeth yn y cyfarfod cyntaf, sef "Gwaith y Sabboth," yn eang, eglur a chryf, gan y Parch. R. Jones (*Glan Alaw*), Brynyrefail, a rhoddwyd pleidlais unfrydol o ddiolch iddo. Gwnaed coffâd parchus am y diweddar Barch. W. Griffith, Dysgwylfa, un o'r gweinidogion ieuainc a ennillai nerth mewn defnyddioldeb y naill flwyddyn ar ol y llall, ac un y dysgwylid mwy fwy eto oddiwrtho. Penderfynwyd anfon cofnodiad o'r cyd ymdeimlad puraf a dyfnaf â'i anwyl briod, Mrs. Griffith, yn ei thrallod mawr, gan ddymuno nawdd y Nef iddi hi a'i bachgen bach. Penderfynwyd hefyd anfon dadganiad cyffelyb at deulu y diweddar Mr. J. Rowlands, yr hwn oedd flaenor ffyddlawn yn Glanadda; hefyd at Mrs. Jones, Bank, Bethesda, priod y Parch. J. Jones, F.R.G.S., yn ei galar am ei hanwyl chwaer, y ddiweddar Mrs. Jones, y Grange, Llundain, yr hon yw yr unig un yn awr sydd yn aros o blant y diweddar Barch. David Jones, Treborth. Dadganwyd cydymdeimlad hefyd â'r Parch. W. L. Jones, B.A., a'i fam, yn wyneb marwolaeth ei frawd, y Parch. T. J. Jones-Lewis, B.A. Cyflwynwyd bathodyn aur y Gymanfa Gyffredinol i Miss Roberts, Rehoboth, Llanberis, gydag anerchiad dyddorol a phriodol gan y Parch. R. Humphreys, Bontnewydd; a rhoed cynghorion tra chymhwys ac effeithiol iddi gan y Parch. Dr. Hughes.

Yn Nghyfarfod Misol Dwyrain Morganwg, a gynnaliwyd yn Trefforest, Medi 30ain, pasiwyd penderfyniad cryf yn erbyn gwaith rhai o'r côrau oedd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn cadw cyngherddau ar y Sabboth.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn Dyserth, Medi 26ain, gwnaed sylwadau coffadwriaethol am y diweddar Barch. R. Roberts, Dolgellau. Teimlai y cyfarfod ein bod fel Cyfundeb wedi colli yn ymadawiad Mr. Roberts

un a fu yn troi gydag anrhydedd yn ei gylchoedd uchaf, ac un a gadwodd i fyny urddas ac anrhydedd gweinidogaeth yr Efengyl yn yr holl gylchoedd y troai ynddynt, ac un a wnaeth wasanaeth mawr i'r Cyfundeb ac i'w wlad yn ystod yr oes a estynwyd iddo. Rhoddwyd ar yr Ysgrifenydd i anfon cydymdeimlad y cyfarfod â Mrs. Roberts yn ei phrofedigaeth, ac hefyd â Chyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Uchaf, a gynnaliwyd yn y Drefnewydd, Hydref 3ydd, dymunwyd ar i'r Ysgrifenydd anfon llythyrau i amlygu cydymdeimlad cynhes a diffuant â Mr. a Mrs. Davies, Broneirion, Llandinam, ac â'r Parch. J. Herbert, Drefnewydd, yn eu gwaeledd. Darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. Richard Hughes, B.A. (diweddar o Gaerdydd), a rhoddwyd derbyniad serchog a chalonog iddo i gylch y Cyfarfod Misol.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Benfro, a gynnaliwyd yn Bwlch-y-groes, Hydref 1 a'r 2il, rhoddwyd rhybudd y cynnygid y penderfyniad canlynol yn y Cyfarfod Misol nesaf: "Pan y byddo unrhyw fater wedi bod dan ymdriniaeth mewn Cyfarfod Misol, a phenderfyniad rheolaidd wedi ei wneyd arno—yn unfrydol neu drwy fwyafrif—na byddo hawl gan Gyfarfod Misol dilynol i droi y cyfryw benderfyniad yn ol na'i newid, heb fod rhybudd wedi ei roddi yn flaenorol, neu fod amgylchiadau wedi cyfodi nas gallesid eu rhagweled pan yn pasio y penderfyniad cyntaf."

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Conwy, a gynnaliwyd yn Penmachno, Hydref 9 a'r 10fed, darllenwyd llythyrau cyflwyniad y Parch. H. Barrow Williams, Wrexham, a'r Parch. T. M. Jones, Bagillt, o Gyfarfod Misol Sir Fflint, a rhoddwyd y derbyniad mwyaf croesawgar iddynt; llawenychwyd yn fawr am eu dyfodiad, a datganwyd y dymuniadau goreu ar eu rhan. Cynnaliwyd cyfarfod sefydliad y Parch. T. M. Jones, yn Penmachno, ynglŷn â'r Cyfarfod Misol.

CYNNADLEDD UNEDIG YR ACHOSION SEISONIG.

Cynnaliwyd y Gynnadledd hon yn y Capel Seisonig, Newfoundland Street, Aberystwyth, ar ddydd iau Llun, Mawrth 3 Mercher, Medi 23, 24, a'r 25ain, o dan lywyddiaeth y Prifathraw Edwards, D.D. Nos Lun, traddodwyd pregeth yn nghapel y Tabernacl, gan y Parch. John McNeill, Llundain, ar ddammeg y Pharisead a'r Publican. Boreu Mawrth, treuliwyd yr eisteddiad i ymdrin â'r mater penodedig, "Person Crist." Darllenwyd papyr ar "Fab y Dyn," gan y Parch. W. James, Aberdar; ac un arall ar "Fab Duw," gan y Parch. T. Roberts, Bethesda. Agorwyd trafodaeth bellach ar y mater gan y Parch. T. E. Roberts, M.A., Croesoswallt. Yn y prydnawn, yn y Tabernacl, traddodwyd "Pregeth y Gynnadledd" gan y Parch. John McNeill, ar hanes Dafydd a Goliath. Am 4 o'r gloch, cyfarfu yr holl gynnrychiolwyr a gweinidogion y dref, ac aelodau y Capel Seisonig, i gyd-yfed tê, yn yr *Old Assembly Rooms*. Arlwywyd y wledd hon, heb arbed unrhyw draul, gan John James, Ysw., U.H., Aberystwyth. Cafwyd anerchiadau priodol gan amryw o weinidogion gwahanol enwadau y dref ar ol tê, a chyflwynwyd diolchgarwch gwresog i Mr. a Mrs. James am eu caredigrwydd haelionus. Am 7 o'r gloch, cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn nghapel Seiloh, dan lywyddiaeth y Parch. William Powell, Penfro. Mater:—Dygiad i fyny yr ieuenctyd. Caed anerchiadau gan Mr. E. J. Baillie, F.C.S., Caer; y Parch. J. Puleston Jones, B.A., a'r Parch. J. McNeill.

Boreu dydd Mercher, cynnaliwyd Cyfarfod Gweddi, am saith o'r gloch, yn y capel Seisonig. Am wyth o'r gloch, eisteddodd tua dau gant a hanner wrth y byrddau, i gyfranogi o frecwest rhagorol a barotoisid gan y Parch. Llewelyn Edwards, M.A., Ardwyn, a Mrs. Edwards. Pasiwyd diolchgarwch cynhes i Mr. McNeill am ei ymweliad, gan ei fod yn gorfod ymadael ar ddiwedd y brecwest. Am ddeg o'r gloch, yn y capel Seisonig, gweinyddwyd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd, dan arweiniad y Prif-athraw Edwards, D.D. Dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. J. Calvin Thomas, Hoylake. Rhoddwyd yr anerchiad ar y dechreu gan y Parch. William Powell, Penfro. Rhenid yr elfenau gan y Parchn. y Prifathraw D. C. Davies, M.A., T. Levi, Dr. Parry, Ellis Edwards, M.A., W. James, Aberdar, a T. Roberts, Bethesda. Diweddwyd y cyfarfod gan y Parch. O. E. Williams, Builth.

Dechreuodd cyfarfod nesaf y Gynnadledd am 11 o'r gloch, yn nghapel Newfoundland Street. Cyn dechreu ar waith y cyfarfod, gwnaed coffâd teimladol am farwolaeth y Parch. Robert Roberts, Dolgellau, yr hyn a gymerasai le yn Aberystwyth, boreu Llun. Pasiwyd pleidlais unfrydol o gydymdeimlad y Gynnadledd â Mrs. Roberts a'i dwy ferch yn y brofedigaeth chwerw hon. Pwnc ymdriniaeth y cyfarfod hwn oedd "Sefyllfa bresennol y Ddadl o blaid Cristionogaeth." Agorwyd yr ymdrin-

iaeth gan Dr. Edwards; a darllenwyd papyrau (neu yn hytrach, traddodwyd areithiau—canys nid oedd papyr) ar y mater gan y Prifathraw Davies, M.A., Trefecca, a'r Proffeswr Ellis Edwards, M.A., Bala, Rhoddwyd anerchiad hefyd, yn cynnwys ffeithiau am lwyddiant gweddi ac ymdrechion personol gyda'r annychweledig, gan y Parch. John Pugh, Caerdydd.

Cynnaliwyd cyfarfod dilynol y Gynnadledd am ddau o'r gloch, yn yr un lle. Pwnc y cyfarfod hwn oedd "Y moddion goreu i wneyd yr Achosion Seisonig yn effeithiol." Darllenwyd papyr ar "Addoliad Cyhoeddus" gan y Parch. John Williams, Caer; ac ar "Y Fugeiliaeth" gan Mr. William Jones, Newport. Agorwyd yr ymddyddan ar y mater gan y Parch. T. M. Green, Caerfyrddin, yr hwn a ddilynwyd gan y Parchn. R. H. Morgan, M.A., Lewis Ellis, E. Griffith, Penarth; J. Pugh, Caerdydd; a J. Roberts, Waverton.

Yn olaf, cynnaliwyd Cyfarfod Cenadol nos Fercher, yn nghapel Seiloh, dan lywyddiaeth G. W. Taylor, Ysw., o Awstralia. Siaradwyd gan y Cadeirydd, y Parchn. Dr. Griffiths, Cassia, Ellis Edwards, M.A., John Pugh, a H. R. Davies, Ysw., M.A., Treborth.

Felly y terfynodd y Gynnadledd nodedig hon. Gallem ysgrifenu llawer o sylwadau arni, pe buasai gofod yn caniatâu; ond rhaid crynhoi i ychydig eiriau. Hon, fel y mae yn hysbys, oedd y gyntaf o'i bath a gynnaliwyd erioed. Yr oedd holl achosion Seisonig y Cyfundeb, yn Neheudir a Gogledd Cymru, a threfydd Lloegr, yn cael eu cynnrychioli oddieithr ychydig eglwysi oedd heb anfon; ac felly yr ydoedd yn fath o Gymanfa Gyffredinol yr Achosion Seisonig. Teimlid ei bod i fesur yn brawf newydd, yn anturiaeth. Ond nid oes ond un farn am y canlyniad. Trôdd allan y fwyaf llwyddiannus a fu eto o Gynnadleddau yr Achosion Seisonig, er mor dda oedd y lleill, ac yn un o'r Cyfarfodydd arbenig mwyaf llwyddiannus, ni a gredwn, a fu yn hanes ein Cyfundeb. Anfynych, dybygem, y teimlwyd y fath gyfuniad o oleuni a gwres yn yr un o'n Cymdeithasfaoedd yn y blynyddoedd diweddaf, er mor ragorol y maent yn arfer bod. Yr oedd grym a llewyrch yn ei nodweddu drwyddi, a mesur da o eneiniad oedd yn rhoddi naws hyfryd ar ysbrydoedd pawb. Un peth hynod ynddi oedd, fod y fath symbyliad i feddylgarwch, ac ar yr un pryd y fath wresogiad i ysbryd. Ond pan y maent o'r iawn ryw, y maent yn cynnyrchu eu gilydd. Cafwyd papyrau o nodwedd uchel ar yr *un* cwestiwn mawr ag y mae tynged Cristionogaeth yn fwy rhwym wrtho na'r holl gwestiynau eraill gyda'u gilydd—Person Crist. Yr hen gwestiwn—Pwy yw hwn? sydd i benderfynu pob cwestiwn pwysig. Yr oedd y papyrau yn uniongred. Ond nid uniongredodd anwybodaeth ydoedd. Meddyliwyd hwynt allan yn ngoleuni ymchwiliadau diweddar, a chwestiynau anhawdd yr oes. Traethodd y Prifathraw Davies, Trefecca, ar "Ystâd bresennol y Ddadl dros Gristionogaeth" gydag ŷni a grym, meddyliol a chorfforol, oedd yn cynneu cymeradwyaeth frwdfrydig y cynnulliad deallgar oedd o'i flaen. Derbyniwyd anerchiad rhagorol y Proffeswr E. Edwards, Bala, hefyd gyda chymeradwyaeth mawr.

Ond y mae'n debyg na fethem wrth ddyweyd mai y Parch. John McNeill, trwy ei bregethau, ei areithiau, a'i ysbryd, a roddodd y Gynnadledd ar dân. Nid uchder na dyfnder drychfeddyliau na dysgeidiaeth a barai hyn; ond toraeth anghyffredin o synwyr da, o'r fath fwyaf ymarferol, uwch ben y Bibl ac uwch ben y bobl—difrifwch yn ei gynhyrfu i ddyfnderoedd ei natur—a chyda hyny, ac yn hollol gyson â hyny, gwythïen anarferol o gyfoethog o arabedd a *humour* oedd yn rhoddi y gynnulleidfa fawr oedd ger ei fron yn hollol yn ei law, ac yn eu gwneyd fel tànau dan fysedd y telynor. At hyn, rhaid chwanegu *nerth* mawr mewn corff ac ysbryd, ac yn goron ar y cwbl *naturioldeb* perffaith. Nis gellir dychymygu am ddarn o natur mwy didwyll, na phellach oddiwrth bob mursendod. Y mae yn siarad hefyd *wrth* y bobl, mewn arddull boblogaidd, uniongyrchol, sydd yn *gafael* yn eu meddyliau a'u calonau ar unwaith. Y mae ganddo adnoddau helaeth; y mae yn darllen natur a llyfrau; yn meddwl, ac yn sylwi yn graff ar galon dyn ac ar ffyrdd dynion. *Railway Porter* ydoedd ychydig flynyddoedd yn ol. Ond bu am flynyddoedd o dan addysg golegawl ar ol hyny; eto nid yw yr addysg wedi anmharu dim ar ei wreiddioldeb, ond wedi chwanegu at ei adnoddau, ac at ei fedrusrwydd yntau i'w trin yn y modd goreu. Y mae yn ddyn drwyddo draw o rymusder anarferol. Nid ydym yn awr yn petruso dim am ei gymhwysder i fod yn olynydd i'r fath ŵr a Dr. Dykes. Caffaeliad rhyfeddol oedd ei gael i'r Gynnadledd, am yr hyn yr oeddys yn ddyledus i Principal Edwards, yr hwn a gymerodd y dyddordeb mwyaf ynddi o'r dechreu, ac i'r hwn yn ddiau yr oedd ei llwyddiant i fesur mawr iawn i'w briodoli. Dywedodd Mr. McNeill yn un o'i Bregêthau mai cymeryd ei berswadio a wnaeth gan

Dr. Edwards i ddyfod, ac ychwanegodd: —"*I could not refuse him. Who can refuse the broad browed, large-hearted Principal?*" Rhaid dyweyd fod caredigrwydd, ac hyd yn nod brwdfrydedd, cyfeillion Aberystwyth yn eu croesawiad o'r Gynnadledd uwchlaw pob canmoliaeth. Rhaid priodoli llwyddiant y Gynnadledd hefyd, i fesur mawr, i ofal, medrusrwydd, gweithgarwch a ffyddlondeb tri o frodyr oeddynt yn dwyn cysylltiad arbenig â'i threfniadau—y ddau Ysgrifenydd, y Parchn. E. Parry, M.A., Drefnewydd, ac E. Griffith, Penarth, Caerdydd; ac hefyd gweinidog gweithgar a medrus y capel lle y cynnelid hi—y Parch. J. G. Davies.

Dyma y tro cyntaf i Fethodistiaid Cymreig weled yr Achosion Seisonig, a'r tro cyntaf i'r Achosion Seisonig weled eu hunain. Synasant wrth yr olygfa a theimlasant eu nerth. Wrth weled capel mawr a phrydferth y Tabernacl yn orlawn o wrandawyr, a'r fath fyn'd rhyfeddol yn y pregethu, y gwrandо a'r canu (Seisonig), nis gallem lai na gofyn—gyda chariad gwresog at ein hen iaith anwyl, ac at yr adgofion cysegredig yn nglŷn â hi, ac eto gyda gobaith hyderus am barhâd crefydd a Methodistiaeth yn Nghymru wedi yr elo yr oes hon heibio—nis gallem lai na gofyn yn brudd ac yn obeithiol—*Ai dyma y ffurf fydd ar Fethodistiaeth y dyfodol?*

HANLEY.

Nos Iau, Medi 12fed, cynnaliwyd cyfarfod gan aelodau eglwys a chynnulleidfa y Methodistiaid yn y dref uchod, i anrhegu eu gweinidog, y Parch. James Richards, â *Timepiece* hardd a phâr o *Equestrian Statues*, ar ei ymadawiad i gymeryd gofal eglwys Llanfyllin. Siaradwyd gan amryw weinidogion a lleygwyr. Dygid tystiolaethau uchel i ragoriaethau Mr. Richards fel Cristion a gweinidog, ac amlygid teimladau serchog tuag ato, cydymdeimlad dwys âg ef yn y profedigaethau chwerwon a'i cyfarfu, a'r dymuniadau goreu am ei lwyddiant a'i gysur yn maes newydd ei lafur.

CROESOR.

Cynnaliwyd Cyfarfod ymadawol Miss Williams, ar ei mynediad allan yn genhades i Sylhet, yn y lle uchod, nos Fercher, Hydref 2il, dan lywyddiaeth y gweinidog, y Parch. D. O'Brien Owen. Traddodwyd anerchiadau yn amlygu y teimladau serchocaf at Miss Williams, a chyflwynwyd anrhegion iddi yn cynnwys o ddeugain i hanner cant o gyfrolau, a'r swm o £18 14s. 6c. mewn arian.

AMRYWION.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Capel Newydd, Llanelli, Sabboth a Llun, Medi 8 a'r 9fed. Pregethwyd gan y Parchn. H. Barrow Williams, a T. J. Morgan, Talyllychau.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn nghapel Jerusalem, Ystalyfera, Sabboth a Llun, Medi y 15 a'r 16eg. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. Rees, Bryntirion, a Thomas Howell Jones, Llansamlet.

Cynnaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cwmrhydyceirw, Treforris, Sabboth a Llun, Medi 15 a'r 16eg. Gwasanaethwyd gan y Parchn. William Thomas, Maesteg; Thomas H. Jones, Llansamlet, a Walter Davies, Plasmarl.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol Bolton, Sabboth, Medi 15fed. Gwasanaethwyd gan y Parch. Ellis Edwards, M.A., Bala.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol Zoar, Pontardawe, Sabboth a Llun, Medi 15 a'r 16eg. Gwasanaethwyd gan y Parchn. M. D. Jones, Mountain Ash, a D. Richards, Llanfynydd. Ynglŷn â'r Cyfarfod hwn, cynnaliwyd cyfarfod sefydlu y Parch. J. R. Morgan yn weinidog ar yr eglwys.

Cynnaliwyd Cylchwyl flynyddol Capel Seisonig Dolgellau, Sabboth, Medi 29ain. Pregethwyd gan Dr. Charles Edwards, Aberystwyth. Anfonodd D. Davies, Ysw., Llandinam, *cheque* am £10 tuag at leihau dyled y capel.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol yr Eglwys undebol Gymreig yn Stockport, nos Sadwrn a'r Sabboth, Medi 21 a'r 22ain. Pregethwyd gan y Parch. O. M. Edwards, B.A., Rhydychain.

Cynnaliwyd cyfarfod yn Llanwddyn, nos Lun, Medi 30ain, i anrhegu y Parch. E. J. Williams âg awrlais hardd, anerchiad, a phwrs o aur, ar ei ymadawiad â'r lle uchod. Traddodwyd anerchiadau gwresog, yn datgan barn uchel y cyfeillion am Mr. Williams, a'u teimladau caredig tuag ato.

Cynnaliwyd cyfarfod yn Llanbedrpont-Stephan dydd Mercher, Hydref 2il, ar yr achlysur o ymadawiad y Parch. D. R. Williams i ymgymeryd â bugeiliaeth eglwys Cruglas, Abertawe. Anrhegwyd Mr. a Mrs. Williams â lliaws o gyfrolau gwerthfawr (15 mewn nifer) gan aelodau dosbarth Biblaidd y naill a'r llall. Anerchwyd y cyfarfod gan amryw. Datganid edmygedd mawr o gymeriad a

llafur Mr. Williams, a gofid dwys am ei ymadawiad.

Cynnaliwyd cyfarfod nos Iau, Medi 26ain, yn Porth, ar ymadawiad y Parch. H. P. James i gymeryd gofal yr eglwys yn Caerphili. Caed anerchiadau gan amryw, yn datgan y teimladau serchocaf at Mr. James, a'r dymuniadau goreu ar ei ran.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol Salem, Vardre Clydach, Sabboth a Llun, Hydref 6 a'r 7fed. Gwasanaethwyd gan y Parchn. W. D. Morris, Cwmaman, a W. Prytherch, Goppa.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol capel Wilton Square, Llundain, Hydref 5, 6, a'r 7fed. Pregethwyd gan y Parchn. Edward Matthews, Bridgend, a J. Puleston Jones, B.A., Bangor. Traddododd Mr. Jones, y nos Fercher ganlynol, ei ddarlith ar "Gymraeg Cymreig," Richard Roberts, Ysw., B.A., yn y gadair.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol Siloam, Gyfeillon, nos Sadwrn a'r Sabboth, Hydref 12 a'r 13eg. Pregethwyd gan y Parchn. James Donne, Llandudno; T. J. Edwards, Penrhiwceiber, a R. Probert (A.).

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol capel Warren Road, Rhyl, Medi 28, 29, a'r 30ain. Pregethwyd gan y Parchn. S. A. Frazer, Rhoscolyn; Abraham Roberts, Liverpool; a Thomas Pierce *(Mordaf)*, Abererch.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol yr Eglwys Seisonig yn Gwersyllt, ger Gwrecsam, Sabboth a Llun, Medi 29 a 30ain. Pregethwyd gan y Parchn. E. Parry, M.A., Drefnewydd; G. Ellis, M.A., Bootle; W. Foulkes, Llangollen, a G. Parry, D.D., Aberystwyth.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol Capel y Docks, Caerdydd, Sabboth a Llun, Hydref 6 a'r 7fed. Pregethwyd gan y Parchn. W. Evans, M.A., Pembroke Dock, a G. Parry, D.D., Aberystwyth.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol Capel Ebenezer, Newport, Sabboth, Hydref 13eg. Gwasanaethwyd gan y Parch. G. Parry, D.D., Aberystwyth.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

Y PARCH. ROBERT ROBERTS, DOLGELLAU.

Am hanner awr wedi naw o'r gloch, bore Llun, Medi y 23ain, bu farw y Parch. Robert Roberts, Dolgellau, yn 71 mlwydd oed, yn Aberystwyth, tra yn y dref hono gyda'i deulu, ar ymweliad am ychydig seibiant ac adnewyddiad iechyd. Brodor oedd Mr. Roberts o ardal Prion, ger Dinbych, ac yno y dechreuodd bregethu. Bu yn efrydydd diwyd a llwyddiannus am rai blynyddoedd yn Athrofa y Bala. Tua'r flwyddyn 1855 neu 1856, symudodd i Lanrwst i ymgymeryd â gofal bugeiliol yr eglwys yn nghapel Seion, ac un neu ddwy o'r eglwysi cyfagos yn y wlad. Wedi llafurio yno yn dra ffyddlawn a chymeradwy am tua phump neu chwe' blynedd, symudodd i fyw i Gonwy. Yn lled fuan ar ol hyny, symudodd i drigiannu i Abergele, trwy ymbriodi â Miss Hughes, unig ferch y diweddar Barch. Hugh Hughes, Abergele. Ymhen ychydig flynyddoedd wedi hyny, tua'r flwyddyn 1874, derbyniodd alwad o Ddolgellau, i ymgymeryd â bugeiliaeth Salem a Bethel. Ac yno y treuliodd weddill ei oes, sef tua phymtheng mlynedd, yn llafurio gydag ymroddiad a chymeradwyaeth mawr.

Yr oedd Mr. Roberts yn un o weinidogion parchusaf y Cyfundeb. Meddai lawer o'r peth prin hwnw ag a barai i bawb deimlo ei fod yn un hawdd nesâu ato, ac yn llawn mor anhawdd gwneyd yn rhy hyf arno. Yr oedd ynddo gyfuniad nodedig o urddas personol a hunan-barch ar y naill law, a helaethrwydd o hynawsedd, sirioldeb a charedigrwydd ar y llaw arall. Yr oedd efe yn wir foneddwr. Meddai syniad uchel am yr hyn oedd yn anrhydeddus, a gwrthdarawiad cryf i bob peth isel ac annheilwng. Credwn ei fod yn gyfaill o'r ymddiried llwyraf. Yr oedd yn un o'r dynion mwyaf cywir a dihoced, o egwyddorion cadarn ac argyhoeddiadau dyfnion; dywedai y gwir yn eglur a chryf; ac yr oedd y gonestrwydd hwn yn cael ei fantoli yr un pryd gan arafwch, doethineb a thynerwch mawr. Yr oedd ei grefyddolder yn ddwfn, a difrifwch ei ysbryd yn amlwg i bawb. Yr oedd ei gymeriad yn bur, ac hefyd yn brydferth a llednais; ac eto ymhell oddiwrth bob rhodres ffug-grefyddol. Yr oedd yn ddifrifol ac yn siriol, ac yn gydymaith hynod ddyddan.

Yr oedd ei weinidogaeth yn ddifrifol ac ymarferol, bob amser yn gyfeiriol at y gydwybod. Cyflwynai y gwirionedd yn fynych gyda newydd-deb a nerth, fel un wedi ei weled a'i deimlo drosto ei hunan, ac nid yn ei ailadrodd ar ol rhai eraill. Byddai ganddo gyffyrddiadau hynod o dyner a thoddedig bryd arall, yn ol natur y gwirionedd yr ymdrinid âg ef.

Yr oedd iddo le ar ei ben ei hun yn y Cyfundeb. Astudiodd bob ffurf o lywodraeth eglwysig, a neilluolion ei Gyfun-

deb ei hunan, yn ei ragoriaethau a'i ddiffygion, gyda mwy o lwyredd fe allai na neb o'i frodyr. Yn yr ystyr hon, yr oedd yn *ecclesiastic* mawr. Yr oedd trefniadau a chyfansoddiad gwahanol Gyfundebau crefyddol yn hoff bwnc ei oes, fel y dengys yr unig lyfr a gyhoeddodd (hyd yr ydym yn cofio)—y gyfrol brydferth, "Elfenau Methodistiaeth." Ac yr oedd hyd y diwedd yn llawn o ysbryd y gwir ddiwygiwr. Llanwodd y cylchoedd uchaf yn y Cyfundeb yn effeithiol ac anrhydeddus. Yr oedd ffyddlondeb i waith yr Arglwydd fel seren arweiniol ei fywyd, yn unol â rhai o'r geiriau diweddaf a ddywedodd.

Cafodd gladdedigaeth yn gweddu i'r lle anrhydeddus a lanwasai yn ei fywyd. Canlynwyd ei weddillion i'r capel yn Dolgellau, ac oddiyno i'r gladdfa, gan orymdaith fawr o weinidogion, blaenoriaid a llu o gyfeillion, o wahanol barthau. Arweiniwyd y gwasanaeth yn y capel gan Mr. Owen Owens, Penrhyn, Llywydd Cyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd. Darllenodd y Parch. William James, B.A., Manchester, ranau o'r Ysgrythyr, a gweddïodd y Parch. David Jones, Garegddu. Yna, rhoddodd y Parch. Dr. Hughes, Caernarfon, anerchiad rhagorol ar nodweddion cymeriad a gwaith yr ymadawedig. Terfynwyd y gwasanaeth trwy weddi gan y Parch. Thomas Owen, Portmadoc. Wrth y bedd, darllenwyd rhanau o'r Ysgrythyr gan y Parch. Owen Jones, B.A., Liverpool, a gweddïodd y Parch. David Griffith (A)., Dolgellau. Am saith o'r gloch, yn nghapel Salem, pregethwyd gan y Parchn. John Roberts, Tai Hen, a Griffith Parry, D.D., Aberystwyth. Yr oedd y pulpud a'r sêt fawr wedi ei gorchuddio â brethyn du. Hefyd, traddodwyd pregeth angladdol yn nghapel Salem y prydnawn Sabboth canlynol gan y Prifathraw Edwards, D.D., Aberystwyth. Bydded nawdd y Nef dros ei anwyl briod a'i ddwy ferch!

Y PARCH. OWEN JONES, LLANDUDNO.

Nos Iau, Hydref 10fed, bu farw y Parch. Owen Jones, Llandudno. Yr oedd wedi ei eni yn 1806, ac felly yn 83 mlwydd oed. Brodor oedd Mr. Jones o Sir Fôn. Aeth yn ddyn ieuanc i'r Wyddgrug, tua'r un adeg a'r diweddar Barch. Roger Edwards, ac mewn cyd-weithrediad âg ef, yr ydym yn tybied am ryw dymmor o leiaf, i olygu a chyhoeddi "Cronicl yr Oes," ac i olygu cyfieithu a dwyn allan amryw lyfrau Cymreig. Rywbryd, tua'r blynyddoedd 1845—50, derbyniodd alwad i weinidogaethu i eglwysi Manchester. Bu yno yn pregethu ac yn cyflawni gwaith bugeiliol, hefyd yn cyfieithu ac yn ysgrifenu, am tua phymtheng mlynedd. Wedi rhoddi i fyny ofal gweinidogaethol yr Eglwysi yn Manchester, symudodd i fyw i Llandudno; a bu yno am rai blynyddoedd yn fugail yr eglwys; ac yn gwasanaethu yr achos yn ffyddlawn, ar ol ymryddhau o'r cysylltiad swyddol fel bugail, am flynyddoedd lawer, ac hyd derfyn ei oes. Treuliodd, dybygem, o bump i ddeng mlynedd ar hugain—sef y cyfnod olaf o'i oes—yn Llandudno. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaeth lawer iawn o waith llenyddol mewn cyfieithu ac ysgrifenu i rai o gyhoeddwyr mawr Ysgotland.

Treuliodd Mr. Jones fywyd hynod o lafurus. Cafodd ei fendithio â chyfansoddiad corfforol pwrpasol at fyned trwy lawer o waith—cadarn, cyd-nerth, iach, llawn yni, a gwydnwch, a bywiogrwydd. Ymhyfrydai mewn gwaith llenyddol, yn enwedig cyfieithu, a chasglu defnyddiau o wahanol awduron Seisonig, eu tylino i'w gilydd a'u cyd-dymheru yn ei briodddull neilltuol ei hun. Nid llawer o ormodiaeth fyddai dyweyd fod yr ysgrifbin yn ei law o'i gryd i'w fedd. Meddai chwaeth gref at hynafiaethau, at yr hyn y buom yn synu lawer gwaith, gan y buasem yn tybied y buasai efrydiau hynafiaethol yn anghydnaws â rhai o deithi amlycaf ei feddwl. Casglodd lawer iawn o wybodaeth o hynafiaethau Cymru, a chyhoeddodd waith pwysig ar Gymru, math o Eiriadur Parthedegol, mewn dwy gyfrol. Hwn, ynghyd a'r "Esboniad Beirniadol" ar y Bibl, a gyhoeddodd tua deugain mlynedd yn ol, neu fwy, oeddynt ei brif weithiau. Dywedir rhwng cyfieithu, casglu, ysgrifenu, neu olygu, ei fod wedi dwyn allan tua deugain o lyfrau. Treuliodd oes fwy llafurus na llwyddiannus, o safon fasnachol.

Hawdd yw credu fod galluoedd, gwybodaeth a dawn Mr. Jones, ei fedr llenyddol, a'i "bin ysgrifenydd buan," yn ei godi i sylw a nôd lled fawr, yn nghychwyniad ei yrfa gyhoeddus, pan oedd y cyfryw ddoniau yn llawer prinach nag ydynt yn awr. A chyfiawnhaodd addewid ei ieuenctyd i raddau helaeth. Treuliodd oes lafurus iawn a defnyddiol, a chyrhaeddodd fri ac enwogrwydd ymhlith ei genedl, awdurol, fe allai, yn fwy na gweinidogaethol, a barhâ am amser maith.

Yr oedd Mr. Jones wedi darllen llawer, ac wedi casglu gwybodaeth gyffredinol helaeth ac amrywiol. Yr oedd yn ŵr ymadroddus, hylithr ei barabl, yn meddu cyflawnder diball o iaith, parod ei ddawn,

bywiog a chyflym ei feddwl, pybyr a gwrol ei ysbryd. Yr oedd yn Gristion cywir, ac yn bregethwr buddiol, o draddodiad grymus, dwys a difrifol. Er nad y doniau i arwain a llywodraethu oedd ei rai mwyaf arbenig, fe allai, eto i gyd, a'i gymeryd oll yn oll, credwn nad oes yr un engraifft yn ein Cyfundeb o weinidog o'i alluoedd, ei ddoniau a'i lafur ef, wedi ei esgeuluso mor llwyr, fel ag i beidio cael y lle a deilyngai. Bu ar hyd ei oes bron yn ddyeithr i'r Gymdeithasfa. Nid ydym yn gwybod iddo erioed gael ei benodi yn Llywydd y Gymdeithasfa, nac i weinyddu yn y gwasanaeth Ordeinio. Cafodd ei fendithio âg iechyd da i lafurio ar hyd ei oes faith, hyd o fewn ychydig i'r diwedd; mwynhaodd fywyd ei hunan mewn tymher siriol a gobeithiol bob amser, ac yr oedd yn gydymaith hynod ddyddanus i eraill. Mwynhaodd yn helaeth o dangnefedd yr efengyl yn ei lesgedd, a diammheu ei fod wedi myned oddiwrth ei waith i fwynhau gwobr y "gwas da a ffyddlawn."

Y PARCH. JOHN PRITCHARD, AMLWCH.

Gyda syndod a phrudd-der mawr yr ydym newydd dderbyn, ar fin rhoddi y Rhifyn hwn yn y wasg, y newydd annysgwyliadwy am farwolaeth y gweinidog enwog hwn, oedd mor adnabyddus a phoblogaidd, er ys deugain mlynedd bellach, trwy holl Gymru, a threfi Lloegr lle y mae Methodistiaid Cymreig. Yr oedd Mr. Pritchard yn pregethu yn Aberystwyth nos Fawrth, Hydref 8fed, ac oddiyno aeth i Gymdeithasfa y Borth, lle y pregethodd ddwy waith neu dair. Pregethodd yn Abermaw nos Wener, wrth ddychwelyd, ac aeth ddydd Sadwrn i'w gyhoeddiad Sabboth i Langoed, ger Beaumaris. Pregethodd ryw gymaint boreu Sabboth, ond nis gallodd wneyd ychwaneg. Ymddengys ei fod wedi cael anwyd trwm, yr hwn a drôdd, yn ol rhai o'r papyrau newydd, yn *inflammation of the lungs;* ond yn ol eraill yn ymosodiad o'r parlys. Bu farw yn Llangoed, nos Wener, Hydref 18fed, yn 68 mlwydd oed, wedi bod yn pregethu am oddeutu pedair neu bum' mlynedd a deugain. Cymerwyd ef ymaith cyn gorphen blwyddyn ei lywyddiaeth yn Nghymdeithasfa y Gogledd, i gymeryd ei le a'i ran yn "nghymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd." Hyderwn y ceir Cofiant teilwng cyn hir iddo ef, a'r gweinidogion ymadawedig eraill ag y mae genym y gorchwyl pruddaidd o gofnodi eu marwolaeth yn y Rhifyn hwn.

Nodiadau Misol.

CYNNULLIADAU MIS HYDREF.

Cynnaliwyd tri chynnulliad o bwys neillduol yn ystod mis Hydref:—Cynnulliad Eglwysig *(Church Congress)* yn Nghaerdydd; Cyfarfodydd yr Undeb Cynnulleidfaol yn Hull; a Chyfarfodydd Undeb y Bedyddwyr yn Birmingham. Cynnaliwyd hefyd gyfarfod arall hollol ar ei ben ei hun, a mwy pwysig na'r cwbl, o bosibl, yn ei effeithiau ar y Weinidogaeth Ymneillduol yn Mhrydain yn y blynyddoedd dyfodol—Agoriad Coleg Duwinyddol Mansfield yn Rhydychain, yr hwn sydd dan lywyddiaeth y Prifathraw Fairbairn, D.D. Carasem yn fawr wneyd sylwadau ar y pethau mwyaf pwysig yn yr oll o'r Cyfarfodydd uchod; ond ni chaniatâ ein gofod yn y Rhifyn hwn. Ac yn hytrach na gollwng Cyfarfodydd mor bwysig gyda dim ond ychydig eiriau, gwell fydd gan ein darllenwyr, ni a gredwn, aros am *Erthygl* arnynt gyda'u gilydd yn y Rhifyn nesaf o'r Drysorfa.

Cofnodau Cymanfaol.

CYMDEITHASFA YSTRAD, RHONDDA.

Awst 12, 13, 14, a'r 15fed, 1889.

(Parhâd o tu dal. 395.)

Dydd Mercher.

Am 8 *o'r gloch, Cyfarfod y Gweinidogion â ymddyddan â'r Brodyr i'w hordeinio.*

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch J. Gwynoro Davies, Abermaw.

Ymddyddanwyd â'r ymgeiswyr gan amryw weinidogion.

Yn ol penderfyniad a welir yn Adroddiad y Pwyllgor Dirwestol—(gweler cyfarfod 1 o'r gloch, pen. XIX.)—gofynodd y Parch. D. Edwards, Casnewydd, iddynt, a oeddynt yn llwyrymwrthodwyr oddiwrth y diodydd meddwol? ac atebodd pob un o honynt yn groyw ei fod.

Gan fod y cyhoedd wedi dyfod i mewn, dechreuwyd y Cyfarfod Ordeinio.

Am 8 *o'r gloch, Cyfarfod y Blaenoriaid, a Chyfarfod Misol Dwyrain Morganwg am* 9 *o'r gloch.*

Am 10 *o'r gloch, Cyfarfod yr Ordeinio.*

Ar ol canu emyn, dechreuwyd trwy weddi gan y Parch. Isaac Jones, Dinbych. Darllenwyd y rhanau arferol o'r Ysgrythyr, a gweddïwyd gan y Parch. W. Jones, Pontsaeson.

Galwyd enwau y brodyr oedd i'w neilldio i gyflawn waith y weinidogaeth gan yr Ysgrifenydd, yn y drefn ganlynol:—Gogledd Aberteifi:—Mr. Abraham Oliver. Dehau Aberteifi:—Mri. David Lloyd, Salem; John Thomas Evans, Aberaeron; a Thomas Evans, Tanygroes. Sir Benfro:—Mr. Peter Morse, Pendine. Sir Gaerfyrddin:—Mri. W. P. Jones, Llanddeusant; T. R. Saunders, Llanelli. Gorllewin Morganwg:—Mri. Benjamin Morris, gynt o Landwr, yn awr yn Hall, Sir Benfro; Benjamin T. Jones, gynt o Briton Ferry, yn awr yn Nghaerdydd; a John Morgan, Abercynffig. Dwyrain Morganwg:—Mri. Walter Daniel, Penmark; Lewis Lewis, Heolfach; David Morgan, Fochriw; ac Evan C. Evans, Trefforest. Sir Fynwy:—Mri. W. Jones, Varteg; T. W. Jones, Cendl; Morgan Davies, Risca; a B. Ceitho Davies, Nazareth. Sir Frycheiniog:—Mr. D. Davies, Defynog. Henaduriaeth:—Mri. J. Jenkins, M. J. Mills, Mountain Ash, ac E. Rowlands, Gower,—22 mewn nifer.

Gofynwyd am reoleidd-dra eu dewisiad gan y Llywydd, ac atebwyd yn gadarnhäol gan Mr. M. Edwards, Aberaman.

Ar ol canu emyn, traethwyd ar Natur Eglwys gan y Parch. T. E. Thomas, Llanymddyfri.

Gofynwyd y cwestiynau arferol o'r *Cyffes Ffydd* gan y Parch. W. Powell, Penfro.

Gofynwyd i Aelodau y Gymdeithasfa os oeddent yn galw y brodyr hyn i weinyddu yr Ordinhadau, Bedydd a Swper yr Arglwydd, yn ein plith, ac atebwyd yn gadarnhäol trwy godiad dehculaw.

Gofynwyd i bob un o'r brodyr a oeddent yn derbyn yr alwad hon, ac atebodd pob un yn gadarnhäol ei fod, a darfu i T. R. Saunders, Llanelli, ddadgan dymuniad, ar ei ran ei hun a'i frodyr, am ran yn ngweddïau yr eglwysi drostynt yn y gwaith yr oeddynt heddyw yn ymgymeryd âg ef.

Ar ol canu emyn drachefn, traddodwyd y Cynghor gan y Parch. D. C. Davies, M.A., Llywydd Athrofa Trefecca, a therfynwyd trwy weddi gan y Parch. O. Thomas, D.D., Iverpool.

Am 1 *o'r gloch, Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithasfa.*

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. W. Jones, Canton.

XVI. *Trefnu lle ac amser y Gymdeithasfa nesaf.*—Penderfynwyd fod y Gymdeithasfa nesaf i fod yn y Borth, Gogledd Aberteifi, Hydref 8, 9, a'r 10fed. Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa i gyfarfod am 6 o'r gloch dydd Mawrth yr 8fed.

XVII. *Adroddiad Cyfarfod y Blaenoriaid.*

Cadeirydd, Mr. W. Griffiths, Rock. Dechreuwyd y cyfarfod gan Mr. Howell, Pencoed.

Cyflwynwyd y mater penodedig, "Breiniaeth Crist," i sylw y cyfarfod gan y Cadeirydd. Cafwyd ymdriniaeth helaeth a chynhes iawn ar y pwnc gan y brodyr canlynol:—Yr Ysgrifenydd, Mri Phillips, Abertawe; Evans, Tredegar, Rogers, Llwydcoed; Jenkins, Trecastell; Nicholas, Pontfaen; Morgan, Pant; Evans, Hirwain; Lewis, Nazareth, Llwynhendy; S. N. Jones, Abertilleri; Howell, Pencoed, a Lloyd, Barry. Sylwyd, ymhlith pethau eraill, ar Freniniaeth Crist fel y mae a fyno â'r swydd ddiaconaidd: fod ei freniniaeth Ef yn galondid ac yn nerth yn ngwyneb ein gwendid a'n hanhawsderau ni; Crist yn unig sydd i fod yn Frenin; goruchwylwyr ydyw'r swyddogion, yn weinidogion ac yn flaenoriaid; eto y mae'r goruchwylwyr i gadw llywodraeth yn yr eglwys yn enw'r Brenin, ond rhaid i hyny gael ei wneyd yn ysbryd y Brenin, ac yn ysbryd y Deyrnas; tuag at hyn y mae yn rhaid i Grist lywodraethu yn nghalonau ei oruchwylwyr a'i ddeiliaid; fod Crist wedi ennill y Freniniaeth, ac y mae'r goron ar ei ben; mai nid teyrnas gyfyng—yn ol y syniad luddewaidd—ydyw teyrnas Crist i fod, ond y mae ei Freniniaeth i ymledaenu dros wyneb yr holl ddaear; mai ein dyledswydd arbenig fel swyddogion ydyw gwneyd yr oll a allom i helaethu y Deyrnas yn ein cylchoedd ein hunain; fod Breiniaeth yn golygu byddin, ac felly yr ydym ni i fod yn filwyr ysbrydol ac yn filwyr gwirioneddol yn myddin Crist.—Penderfynwyd fod sylwadau pellach ar yr ymdriniaeth yn y cyfarfod i gael eu gwneyd yn nghyfarfod cyffredinol y Gymdeithasfa gan Mr. Lewis, Nazareth, Llwynhendy, a Mr. John Lloyd, Barry. Penderfynwyd fod yr un mater i barhau dan sylw yn y Gymdeithasfa nesaf —i'w agor gan Mr. Abraham James, Borth.

Blaenoriaid Ymadawedig.—Gwnaed sylwadau coffhäol cynhes am y diweddar Mr. Philip John, Penybont, gan Mr. Phillips, Abertawe. Coffäwyd hefyd yn yr un modd am Mr. Abraham Williams, Maesteg, gan Mr. Nicholas, Pontfaen, fel blaenor gweithgar a ffyddlawn iawn.

Penderfynwyd fod cydymdeimlad cynhes y cyfarfod i gael ei anfon gan yr ysgrifenydd at weddwon a theuluoedd y ddau frawd ymadawedig. Penderfynwyd ymhellach fod llythyr o gydymdeimlad i gael ei anfon yn arbenig at ferch y diweddar Mr. John, yr hon sydd yn genades yn Sylhet.

Penderfynwyd fod y Llyfr Cofnodion newydd i'w dalu am dano gan Drysorydd y Gymdeithasfa.

Penderfynwyd fod Mr. Griffiths, Rock, i barhau yn Gadeirydd dros y flwyddyn nesaf; a bod blwyddyn yr Ysgrifenydd i ddechreu gyda'r cyfarfod presennol.

Terfynwyd y cyfarfod gan Mr. Hezeciah Thomas, Llansamlet.—W. Jones, *Ysgrifenydd.*

XVIII. Derbyniwyd Adroddiad Archwilwyr Cyfrifon Trysorydd y Genadaeth Gartrefol. Penderfynwyd yn unfrydol,—Fod diolchgarwch gwresocaf y Gymdeithasfa i gael ei gyflwyno i Mr. D. C. Roberts, y trysorydd, am ei wasanaeth cysou a thra gwerthfawr yn y cysylltiad hwn.

XIX. *Adroddiad y Pwyllgor Dirwestol.*

Penderfynwyd yn unfrydol:—1. Fod y Pwyllgor yn dymuno dadgan eu llawenydd fod gan rai o'r Cyfarfodydd Misol Lyfr Dirwestol ar gyfer swyddogion eu cylch, a dymunir ar y Cyfarfodydd Misol eraill i feddu y cyfryw lyfr yn ddioed.—2. Fod sylw swydd-

ogion newyddion, wrth gael eu derbyn yn aelodau o'r Cyfarfodydd Misol, i gael ei alw at y Llyfr Dirwestol, gan ddymuno arnynt ysgrifenu eu henwau arno.—3. Fod annogaeth gref yn cael ei rhoddi i'r eglwysi i beidio dewis neb yn flaenor eglwysig, ac i'r Cyfarfodydd Misol beidio derbyn neb yn bregethwr, heb ei fod yn llwyr-ymattaliwr oddiwrth ddiodydd meddwol.—4. Fod yr aunogaeth fwyaf taer yn cael ei rhoddi i'n haelodau eglwysig i beidio cymeryd cyfranau yn y *Limited Brewery Companies*, nac mewn unrhyw gwmpeini yn ymwneyd â'r fasnach feddwol; nac ychwaith i rentu tai o'r eiddynt i fod yn dafarndai.—5. Fod Ysgrifenydd y Gymdeithasfa i adgofio y cyfeillion lle y cynnelir Cymdeithasfa o benderfyniad sydd eisoes wedi ei basio—fod Cyfarfod Dirwestol i gael ei gynnal ynglŷn â'r Gymdeithasfa.—6. Fod y Parchedigion Thomas Rees, Merthyr, a Thomas Davies, Abertawe, i gynnrychioli y Gymdeithasfa yn Nghyfarfodydd Blynyddol Cymdeithas Ddirwestol Deheudir Cymru, sydd i gael eu cynnal yn Aberafon —7. Fod y Parch. David Edwards i gael ei ail ethol yn Llywydd y Pwyllgor Dirwestol, a'r Parch. Joseph Evans, Abertawe, i fod yn gyd-ysgrifenydd â'r Parch. John Pugh, Caerdydd.—8. Fod cais i gael ei anfon at y Cyfarfodydd Misol i nodi un o'r cynnrychiolwyr i Gymdeithasfa Awst bob blwyddyn i fod yn aelod o'r Pwyllgor hwn —D. Edwards, *Cadeirydd;* Joseph Evans, *Ysgrifenydd.*

XX. *Adroddiad Cyfeisteddfod Gweithiol y Genadaeth Gartrefol.*—Darllenwyd a chadarnhäwyd yr Adroddiad canlynol :—

Cadeirydd :—T. Phillips, Ysw., U.H., Abertawe.

1. Wedi galw enwau aelodau y Pwyllgor, ac i'r Trysorydd Cyffredinol roddi Adroddiad o sefyllfa arianol y Gymdeithas, penderfynwyd fod yr holl leoedd y gostyngwyd iddynt y *grant* yn nghyfeisteddfod Rhymni, Awst diweddaf, i dderbyn eleni yr un symiau a'r llynedd, ac ar yr un ammodau, gyda'r eithriad o'r manau yr awgrymid ychydig gyfnewidiad. Penderfynwyd hefyd fod y lleoedd a dderbyniwyd y llynedd am y waith gyntaf dan nawdd y Genadaeth, i dderbyn eleni fel o'r blaen. Y symiau a addawyd i'r gwahanol leoedd sydd fel y canlyn :—Abergavenny, £15; Abertilleri, £15; Brilley, &c., £24; Begelley, &c., £20; Bridgend, £20; Beaufort Hill, £8 15s.; Brynmawr, £8 15s.; Blaenau, £10; Bargoed, £12; Blaenrhondda, £12; Burnett's Hill, &c., £20; Bryncethin, £5; Cwmcorwg, £10; Dowlais, £12 10s.; Ebbw Vale, £12 10s.; Earlswood, £10; Gilfachgoch, £25; Hay, £15; Llantrisant, £7 10s.; Llandysul, £20; Waun Ifor, £10; Llangenech, £7 10s.; Middlesborough, &c., £25; Mountain Ash, £25; New Radnor, &c, £20; Mount Pleasant, £10; Neath, £27 10s., ond tra heb weinidog, £10; New Milford, £7 10s.; North Risca, £25; Pandy, £10; Pontypool, £20; Porthcawl, £10; Penygroes, £7 10s.; Saundersfoot, £5; Tynewydd, £15; Trimsaran, £7 10s.; Talybont, £7 10s.; Plasmarl, £7 10s.; Llysyfronydd, £10; Y Fro, £20; Ysbytty, £15; i gael gweinidogaeth fwy cyflawn yn rhandir Castellmartin, £7 10s.; Abergwynfi, £10; Blaengarw, £10; Carmel, £7 10s.; Cadoxton, £15; Dinas, £7 10s.; Hall, £7 10s.; Ystalyfera, £7 10s.; Siloh, Llanelli, £25; y Capel Coffadwriaethol, Llanymddyfri, tra yn ei sefyllfa bresennol, £10. Wedi deall gyda llawenydd fod eglwys ieuanc Gilead, Nantymoel, wedi dyfod yn ddigon gwrol o'i gwirfodd i gerdded ei hunan, cymerwyd y lleoedd canlynol i ystyriaeth am y waith gyntaf, ac addawyd y symiau canlynol iddynt :—Babell (Mynwy), £7 10s., ar yr ammod fod i'r achos gael ei droi yn Saesoneg; Pontygof, £15 ar yr un ammod, ac awgrymwyd dymuniad ar i Gyfarfod Misol Mynwy a'r Henaduriaeth i gydymgynghori gyda golwg ar ymuniad Mount Pleasant a Phontygof; Brynaman, £10, i gynnorthwyo i gael bugail; Merthyr Vale, £20, i'r un pwrpas; Manselton, £10; Graig, Pontypridd, £20, i gynnorthwyo i gynnal Cenadwr; Nazareth (Mynwy), £10; Sirhowy, £5, yn ddiammodol Y *grants* i'r lleoedd diweddaf i gychwyn o ddechre Ionawr nesaf.—2. Cafwyd sylw ar ddyled y Genadaeth, a phenderfynwyd fod i £300 neu £400 i gael eu talu ar unwaith, a bod yr Ysgrifenydd i ymdrechu yn y blaen i gael y gweddill o'r £500 i law trwy appelio o hono eto at y brodyr ffyddlawn sydd yn caru Iesu Grist a'i achos, fel y byddo i'r Gymdeithas gael gwaredigaeth o'r baich hwn am byth. Cyhoeddir yn y diwedd enwau y ffyddloniaid hefyd mewn Adroddiad arbenig.—3. Cyflwyno diolch cynhes y Cyfeisteddfod i'r Cadeirydd am lywyddu mor ddeheuig —Thomas Phillips, *Cadeirydd;* D. Thorne Evans, *Ysgrifenydd.*

XXI. *Brodyr Methedig ac Amadawedig.* —Penderfynwyd,—Fod yr Ysgrifenydd i anfon llythyr yn cyflwyno cofion mwyaf cynhes a charedig y Gymdeithasfa i'r hybarch dad, y Parch. W. Evans, Tonyrefail. Hefyd ein cydymdeimlad mwyaf dwys a thyner at ein hanwyl frawd, y Parch. D. James, gynt o Laneurwg, yn awr o Canton, Caerdydd, yn ei faith gystudd a'i wendid. Ein bod hefyd yn anfon ein cydymdeimlad at blant ein hanwyl frawd ymadawedig, y Parch. T. Lamb, Abergwaun. Anfonwyd ein cofion ato o'r Gymdeithasfa ddiweddaf, ac yn fuan iawn ar ol derbyn y llythyr hwnw bu farw, wedi cyrhaedd oedran teg, ac wedi treulio bywyd difwlch yn ngwasanaeth ei Arglwydd.

XXII. *Hanes yr Achos.*—1. O fewn cylch y Cyfarfod Misol, gan y Parch. W. Lewis, Pontypridd. 2. Yr Henaduriaeth, gan y Parch. J. Evans, Abertawe.

Ystadegau Eglwysi Dwyrain Morganwg am 1888.—Gweinidogion, 57; Pregethwyr, 24; Eglwysi, 99; Capelau a Lleoedd Pregethu, 102; Blaenoriaid, 441; Cymunwyr, 10,615; Gwrandawyr, 26,574. Ysgol Sabbothol :—Athrawon, 2027; Ysgolheigion, 14,690; Cyfanswm, 16,717. Cynnydd ar 1887 :—Eglwysi, 2; Cymunwyr, 458; Gwrandawyr, 1066; Ysgolheigion, 369. Cynnydd ar y flwyddyn 1878 :—Eglwysi, 14; Blaenoriaid, 139; Cymunwyr, 3102; Gwrandawyr, 5258; Athrawon, 299; Ysgolheigion, 3751.

Ystadegau Arianol am 1888 —At y Weinidogaeth, £7765 12s. 7¾c.; Dyled y Capelau, £4424 7s. 3½c.; Y Cenadaethau, £364 9s. 6c.; Lleoedd Gweiniaid, £183 12s. 7¾c.; Cyfanswm y Casgliadau, £17,724 6s. 5c.; Cynnydd ar 1887, £825 9s. 7¾c.; Swm arosol dyled y Capelau, £45,612 4s. 7c.; Cyfartaledd ar gyfer pob aelod, £4 5s. 11¾c.; Cyfartaledd ar gyfer pob gwrandawr, £1 14s. 4c. Cynnydd ar y flwyddyn 1878 :—At y Weinidogaeth, £1932 5s. 7c.; At ddyled y Capelau, £3277 9s. 9c.; At y Cenadaethau. £139 15s. 6½c.; Cynnydd yn y Cyfanswm, £6039 4s. 9c.; Cyfartaledd ar gyfer pob aelod yn 1878, £1 11s. 1½c.; Cyfartaledd ar gyfer pob aelod yn 1888, £1 13s. 4½c.; Cynnydd ar gyfartaledd o 2s. 3½c. yr aelod.

Undeb yr Ysgolion Sabbothol.—Sefydlwyd yn y flwyddyn 1879. Nifer ymgeiswyr llwyddiannus yr Arholiad cyntaf, 1880, 66; Nifer ymgeiswyr llwyddiannus yr Arholiad diweddaf, 1889, 598; Nifer y Tystysgrifau wedi eu cyflwyno o adeg ei sefydliad, 3364.

Hanes yr Achos yn yr Henaduriaeth.—Rhoddwyd hanes tra chalonogol o'r Henaduriaeth—Mynwy, Morganwg, a Chaerfyrddin, gan y Parch. Joseph Evans, Abertawe. Nid oedd ond saith eglwys yn perthyn i'r Henaduriaeth pan ei ffurfiwyd hi bum' mlynedd ar hugain yn ol, ond yn awr y mae ganddi un ar hugain, ac o'r rhai hyn y mae deuddeg a gafodd eu dechreuad yn uniongyrchol trwy lafur ac ymroddiad yr Henaduriaeth ei hun. Mae'r aelodau wedi cynnyddu o 450 i 1669, ac wedi cynnyddu o fewn yr ugain mlynedd diweddaf 1185, sef yn ol 145 y cant; ac yn hyn y mae'r Henaduriaeth wedi cynnyddu mewn cyfartaledd yn fwy nag un Henaduriaeth na Chyfarfod Misol arall, oddigerth Llundain; ac wedi ychwanegu yn ei chasgliadau o £1865 i £4107, sef yn ol 120 y cant, yr hyn sydd hefyd yn fwy o gynnydd mewn cyfartaledd na chasgliadau un o'r Henaduriaethau neu un o'r Cyfarfodydd Misol eraill, oddigerth Lancashire a Manchester. Yn ei chasgliadau at y weinidogaeth, y mae hi wedi bod ar y blaen ar bob cylch arall, De a Gogledd, bron ar hyd y blynyddoedd. Bychain a gweiniaid yw yr eglwysi gyda'r eithriad o dair neu bedair. Nid oes ond pedair yn rhifo dros 100 o aelodau, ac nid oes ond dwy yn rhifo dros 150; ond y maent yn llafurus ac yn haelionus. Dichon fod cryn lawer o'r llwyddiant sydd wedi hynodi yr eglwysi hyn, i'w briodoli i fesur helaeth, dan fendith y Nefoedd, i'r ffaith eu bod hwy oll dan ofal bugeiliol. Mae pump o honynt, ar hyn o bryd, heb weinidogion, ond y maent yn chwilio am rai. Mae'r Henaduriaeth yn llawn zel dros y Cyfundeb, a'i hunig amcan yw helaethu terfynau teyrnas yr Iesu yn nghylch ein Cyfundeb yn yr iaith Seisonig. Mae llawer o'r brodyr fu gyda ni ar y cychwyn wedi myned i'r nefoedd neu i gylchoedd eraill i lafurio, ond y mae yr un zel a brwdfrydedd cyfundebol yn meddiannu ein brodyr ieuainc sydd yn ymuno â ni o bryd i bryd.

XXIII.—*Araeth Genadol gan y Parch. Dr. Griffiths, Khasia.*—Cafwyd araeth dra rhagorol gan y Cenadwr ar anhawsderau a llwyddiant y gwaith cenadol ar Fryniau Khasia—sefyllfa isel y brodorion yn foesol a chrefyddol, ac engreifftiau rhyfedd o nerth a dylanwad yr Efengyl yn eu darostwng, yn eu gwareiddio, ac yn eu crefyddoli. Ar ddiwedd yr anerchiad, penderfynwyd,—1. Ein bod yn mawr lawenhau wrth dderbyn yr Adroddiadau ffafriol am sefyllfa y gwaith ar ein meusydd cenadol, am yr ychwanegiad at nifer y dychweledigion, ac am yr arwyddion o'u cynnydd mewn gwybodaeth, gweithgarwch a gras. Ein bod hefyd yn dwfn gydymdeimlo â'r holl amcanion ymarferol a ddadgenir gan y Gymanfa Gyffredinol i osod arbenigrwydd ar flwyddyn Jiwbili y Genadaeth drwy—(1) Osod y Sefydliad Duwinyddol ar Fryniau Khasia i addysgu y pregethwyr brodorol ar seiliau cedyrn; (2) Eangu cylch ein gweithrediadau yn Sylhet, gwlad fawr ag yr ymddengys fod ei hefengyleiddiad yn cael ei ymddiried i ni gan Ragluniaeth Duw, ac yn llawenhau wrth glywed fod Cenades arall, Miss Williams, Croesor, yn myned allan i'r maes eang hwnw; (3) Helaethiad a llwyddiant y Genadaeth Feddygol yn Mawphlang a Jaintia, o dan ofal Dr. Griffiths a Dr. Hughes; (4) Cael cyfrol yn cynnwys hanes y Genadaeth o'i cychwyniad hyd flwyddyn y Jiwbili, gan y Parch. J. Thomas, M.A., Ysgrifenydd y Genadaeth.—2. Ein bod yn annog ein Cyfarfodydd Misol a'n heglwysi i haelfrydedd mewn cyfranu at Drysorfa y Jiwbili, er cyrhaedd yr amcanion hyn, ac ar fod iddynt benodi Ysgrifenyddion a Thrysoryddion lleol i'r Drysorfa arbenig hon.—3. Ein bod, fel Cymdeithasfa, yn rhoddi derbyniad croesawgar i'r Parch. Dr. G. Griffiths a'i briod, ac yn llawenhau yn ddirfawr wrth ei glywed ef yn son am nerth yr Efengyl ar galonau y Khassiad, ac yn dymuno cydnabod yr Arweiniad Dwyfol a estynwyd iddynt yn y gorchwyl pwysig ac anhawdd o sefydlu a dwyn ymlaen ein Cenadaeth Feddygol yn Khasia, ac yn dymuno nawdd y Nefoedd drostynt hwy a'r teulu ar eu hol deithiau ac ar ol dychwelyd yn ol i faes eu llafur, a bendith y Goruchaf Dduw ar eu hymdrechion i lesoli dynoliaeth ac i ennill eneidiau lawer at y Gwaredwr.—4. Ein bod yn anfon ein cofion caredicaf a'n cydymdeimlad dyfnaf at Miss S. A. John, ein cenades yn Sylhet, ar yr achlysur galarus o farwolaeth ei hanwyl dad, ac yn gobeithio y bydd iddi gael llawer o wedd wyneb Duw yn ei hunigedd a'i thrallod.

Diweddwyd trwy weddi gan y Parch. D. Saunders, D.D.

Am 3 o'r gloch, Cyfeisteddfod Cyffredinol y Gymdeithasfa—parhâd.

XXIV. *Adroddiad Cyfwyllgor Trefecca :—*

The Committee met at Trevecca at 3 p.m., June 19th, 1889, and after the Rev. W. J. Williams, Hirwain, had led the devotions of the Meeting, T. Phillips, Esq., J.P., Swansea, was called upon to preside.

1. The Principal announced that the Rev. Ellis Edwards, M.A., Bala, not being able to be present at the Examination of Candidates, they had sent to the Rev. T. M. Green, Carmarthen, to ask him to come and assist the Rev. D. Charles Edwards, M.A., Merthyr, with this work, which the Committee approved of.

2. The Rev. D. C. Edwards, M.A., reported that nine candidates had obtained the necessary half-marks, and that these nine were passed subject to a satisfactory Medical Examination by Dr. W. Howells, Talgarth. The following is the order in which they passed:—Maximum of marks, 385.

J. D. Lloyd, Tredegar	344
E. D. Jones, Blaencefn.....	318
Henry Rees, Blaina	315
J. T. Job, Ammanford	291
David Evans, Cwmbach	276
S. Evans, Cwmdwyfran	250
J. R. Williams, Morriston	238
E H. Evans, Newport	237
Albert Bancroft, Saundersfoot	193

On the recommendation of the Examiners, it was unanimously passed that henceforward each candidate for admission must first obtain half-marks in each subject examined in.

3. The Rev. D. C. Edwards, M.A., Merthyr, read his report of the Examination of the Students, together with that of the Rev. Ellis Edwards, M.A., Bala. The report was of a gratifying character, evincing much diligence on the part of most of the Students, and much painstaking labour on the part of the Professors.

4. Four of the Students, not having reached half-marks in the course of the examination, are to receive only £6 grant for the year instead of £7.

5. A vote of sympathy was passed with one of the Students,—Mr. Eliezer Richards, who has long been invalided, and unable to pursue his studies. A vote of condolence was also passed with the family of the late Mr. W. E. Harries, Pontardulais, one of our most promising young Students, who died during the last Session, and the Secretary was requested to convey these votes to the proper parties. [In accordance with the above, letters were sent to Mr. Eliezer Richards, and to the family of the late Mr. W. E. Harries.]

6. The following Students, having completed their course, are now leaving the Institution, and the Committee were pleased to find that they had each received calls to the pastorate of Churches, viz.: Messrs. W. Williams, W. J. Jones, Thomas Jones, and E. G. Davies. An application was received from the English Church, Park Place, Tredegar, through the Monmouthshire Monthly Meeting, requesting the Committee to permit Mr. O. D. Jones to leave now at the end of his third year, in order that he might undertake the pastorate of their Church. After a prolonged discussion, a majority of the Committee decided to accede to their request under the very exceptional circumstances of this case.

7. The following resolution was then unanimously passed,—That the Association should be urged to pass a resolution to strengthen the hands of the Committee to refuse all such applications henceforward.

8. The Rev. T. M. Green was asked to give a short address on the morrow to the students who were leaving.

9. That the Rev. Rees Davies, and Messrs. J. Phillips, Talgarth, and Jones, Hay, in conjunction with the Professors, be appointed a House Committee, whose duties, among other things, shall be to arrange with the students in reference to lodgings.

10. It was decided that the Subjects of the Entrance Examination should be inserted in the Report submitted to the Association, and afterwards be printed in the Diary; and the Subjects for 1890 are as follows:—1. Principia Latina, Part I—the whole book. 2. Smith's Initia Græca, Part I, first 54 Exercises. 3. Rowland's Welsh Grammar, or Euclid, Book I, for those who do not understand Welsh. 4. Morrell's English Grammar, with Exercises and Analysis. 5. English History—Edith Thomson (published by Macmillan). 6. Cornwall's Geography. 7. English Essay. 8. Welsh Essay. 9. Arithmetic.—Each Candidate must obtain Half Marks in each separate subject.

11. That the Association be asked to appoint an Examiner in the place of the Rev. Ellis Edwards, M.A., whose term of appointment has now expired; but the Committee wish to express their opinion that all such appointments should be made after this year by the Committee at their Midsummer Meeting.

12. That the Rev. Joseph Evans be appointed to deliver the Address to the Students next year.

13. That the Revs. D. C. Edwards, M.A., T. M. Green, Joseph Evans, the Professors and the Secretary, be appointed to draw up a definite scheme in reference to prizes.

14. That the Secretary make applications to those gentlemen who have recently left the Connexion to refund the money spent upon their education at Trevecca, in accordance with the agreement signed by them on their entrance to the College as Students.

15. Bills to the amount of £47 7s. 9d. were passed and ordered to be paid.

16. Messrs. D. Evans, J.P., Bodringallt, and D. Lloyd, Aberystwith, were appointed to audit the accounts for 1888 and 1889, and their report will be found appended to the Balance Sheet.

17. The Treasurer—Edward Davies, Esq., J.P.—gave a detailed report as to the state of the Fund, which was received with great satisfaction, and a hearty vote of thanks was accorded him for his valuable services as Treasurer. Thanks were also passed to Mr. Roger Edwards, Bwlch, for his unwearied services as Local Treasurer.

18. That the attention of the Association be called to the fact that the Jubilee of the College would take place in 1892, and that an effort should be made to increase the Funds of the College—say £4000 to £5000—in that year to meet the increased expenditure, which will arise through the strengthening of the Staff of the College by the appointment of a third Tutor, which has now been decided upon, and that in the meanwhile each Monthly Meeting and Presbytery be asked to make an annual collection averaging from 4s. to 5s. per church as a temporary expedient, which sum would amount to about £100 per year.

19. In order to avoid as far as possible the annual outlay connected with the repairs of the College Property, the local Building Committee, in conjunction with the Treasurer, requested Mr. Phillips, Architect, Cardiff, to examine the Building, and report to the Midsummer Committee. This report was presented, and the Rev. W. John, Bridgend, and Messrs. Davies, Aberavon; Evans, Bodringallt, and the Treasurer, were appointed to examine the same, and their report, which is as follows, was accepted:—That the suggestions made by Mr. Phillips, Architect, Cardiff, for improving the Building be adopted, with the exception that Lias lime be employed instead of Cement, and that he be asked to prepare specifications for the work requiring to be done, and that tenders be advertised for. The Rev. W. John, and Messrs. Davies, Aberavon; Phillips, Talgarth, and the Treasurer, be a Committee to open the tenders and accept the one which they may deem most satisfactory.

20. That the thanks of the Committee be given to Dr. W. Howells, and Mr. Edward Howells, for their late father's Portrait, and some of his books; and also to the Rev. Thomas Rees, Cefn, for his published volume of Welsh Sermons.

21. The Christmas Committee was appointed to be held December 18th, at 11 a.m. The Midsummer Examination (1890) to commence June 9th, at 5 p.m.; that of Candidates, June 16th, at 5 p.m., and the Committee, June 18th, at 3 p.m.

22. That this Committee is strongly of the opinion that Monmouthshire ought to be included in the scope of the Intermediate Education Bill now before Parliament, and that a copy of this resolution be forwarded to the Marquis of Salisbury, the Vice-President of the Council of Education (Sir W. Hart Dyke), and Mr. Stuart Rendel, M.P. [A copy of the above was forwarded to the three gentlemen named, and replies received from each party.]

On Thursday morning, at 10 a.m., the meeting was of a public character.

After an Introductory Service, led by the Rev. W. Evans, M.A., the Rev. D. C. Edwards, M.A., read the reports of the Examination in the presence of the Students, after which, prizes to the amount of £60 were distributed among the most deserving of the Students.

The Candidates were presented to the Committee and informed that they were accepted

subject to a satisfactory certificate from the College Doctor, and to a written agreement on their part to submit to the Rules and Regulations of the College, and to refund any money spent on their education at Trevecca, if they ceased to serve the Connexion within 12 years of their College course This agreement to be signed by them on their entrance.

The next Session was announced to commence on Wednesday, September 4th.

The Rev. T. M. Green then addressed a few words of earnest counsel to the five Students who were leaving the College, after which the Rev. Thomas Rees, Cefn, gave an elaborate address on Preaching, for which he was heartily thanked, and a request was made that it should be printed. Votes of thanks were also passed to the Examiners—the Rev. Ellis Edwards, M.A., D. C. Edwards, M.A., and T. M Green, and the Chairman, who closed the meeting by prayer.

The Trevecca Report as printed was accepted with the following additions and modifications:—

Resolution bearing upon resolution 7,—That in order to strengthen the hands of the Committee, the Association expresses its strong disapproval of the action of those churches that tempt the Students to shorten their course at Trevecca in order to become pastors, and that all such applications should be refused unless three-fourths of the Committee think otherwise.

Resolution bearing upon resolution 18,—That this resolution be further discussed.

Resolution bearing upon resolution 19,—The tenders for the repairs being so much higher than we expected, we recommend that temporary repairs alone be now carried out, and that the general question be postponed until the Spring Association.—D. Evans, *Secretary*.

Dydd Iau.

Am 8 o'r gloch, Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithasfa—parhad

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. J. Griffiths, Cilgerran.

XV. Darllen a chadarnhau penderfyniadau y Cyfeisteddfod.—Penderfynwyd rod yr holl Adroddiad i gael ei dderbyn a'i gadarnhau gyda'r eithriad o benderfyniad Cyfarfod y Cynnrychiolwyr ar y Trydydd Athraw, sef Pen. xiii., Adran olaf, sef fod y Parch. J. Davies, B.A., Dowlais, wedi ei ethol i'r swydd o Drydydd Athraw yr Athrofa. Yna bu cryn ymddyddan ar y priodoldeb i Gyfarfod Cyffredinol y Gymdeithasfa droi yn ol etholiad o eiddo Cyfarfod y Cynnrychiolwyr i'r Gymdeithasfa, gan y tybiai amryw (1) mai y Cynnrychiolwyr sydd yn cyfansoddi y "Gymdeithasfa" i bob pwrpas ymarferol ynglŷn â phob etholiad: (2) nad oedd yn arferol i droi yn ol, yn y cyfarfod y boreu olaf, benderfyniad pwysig a ddadleuwyd ac a gymeradwywyd yn flaenorol; (3) ac hefyd bod llawer, os nad y rhan fwyaf, o'r rhai gymerasant ran yn yr ymdrafodaeth wedi myned gartref o dan yr argraff fod y mater wedi ei benderfynu yn hollol. Yna pasiwyd,—Fod y penderfyniad ar etholiad y Trydydd Athraw yn cael ei dderbyn a'i gadarnhau.

Cynnygiwyd y gwelliant canlynol:—Gan fod yr Is-bwyllgor a ddewiswyd gan y Gymdeithasfa "i ethol person neu bersonau i'w cyflwyno i'r Gymdeithasfa," a Chyfarfod Cynnrychiolwyr y Siroedd i'r Gymdeithasfa hon wedi methu cydweled ar yr un person i'w gynnyg i'r Gymdeithasfa fel Trydydd Athraw Athrofa Trefecca, ein bod yn gohirio cadarnhau penderfyniad y naill a'r llall hyd Gymdeithasfa y Gwanwyn, er mwyn rhoddi cyfle i'r wlad i roddi barn addfed ar y dewisiad.

Rhoddwyd y gwelliant hwn a'r penderfyniad gwreiddiol i fara y cyfarfod, a chafwyd mwyafrif o 19 dros y gwelliant.

A ganlyn sydd yn grynodeb o'r gweithrediadau mewn perthynas i'r mater hwn.

1. *Yr Is bwyllgor.*—Pleidleisiodd yr aelodau trwy y tugel ar y pump enw a osodwyd ger eu bron, a dadganwyd mai Mr. E. Howells, M.A., a gawsai y mwyafrif, sef wyth pleidlais, tra nad oedd y nesaf ato wedi cael ond pump. Ar hyn cynnygiwyd ar fod i Mr. Howell gael ei gyflwyno i'r Gymdeithasfa trwy bleidlais *unol* yr Isbwyllgor; pleidleisiwyd ar hyny, a chafwyd fod dros y cynnygiad ddeg pleidlais o'r tri ar ddeg presennol; yna penderfynwyd fod Mr. Howells i gael ei gyflwyno i'r Gymdeithasfa fel wedi ei ddewis gan yr Isbwyllgor yn Drydydd Athraw Trefecca, trwy ddewisiad y *mwyafrif*.

2. *Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa a Chyfarfod y Cynnrychiolwyr a'r Cyn-lywyddion.*—Yn Nghyfeisteddfod y Gymdeithasfa, penderfynwyd,—Fod y ddau uchaf i gael eu cyflwyno i bleidlais y Cynnrychiolwyr a'r Cyn-lywyddion. Gwnaed hyny, a phleidleisiwyd ar y ddau uchaf, a dadganwyd fod y Parch. J. Davies, B.A., wedi cael dwy ar hugain o bleidleisiau, tra nad oedd Mr. E. Howells, M.A., wedi cael ond pedair ar ddeg o bleidleisiau.

3. *Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithasfa boreu dydd Iau am wyth o'r gloch.*—Dros gadarnhau penderfyniad y Cynnrychiolwyr a'r Cyn-lywyddion, sef etholiad y Parch. J. Davies, B.A., yn Drydydd Athraw yr Athrofa, pleidleisiodd naw a deugain. Dros ohirio cadarnhau yr etholiad gan y Cynnrychiolwyr a'r Cyn-lywyddion, ac hefyd gohirio cadarnhau y dewisiad gan yr Isbwyllgor, pleidleisiodd wyth a thriugain.

W. James, *Ysgrifenydd*.

CYMDEITHASFA BANGOR,

Awst 27, 28, 29, 1889.

Llywydd:—Y Parch. John Pritchard, Amlwch.

Dydd Mawrth, Awst 27ain.

Am 2 o'r gloch, Cyfeisteddfod Cyffredinol y Gymdeithasfa.

I. Galwyd enwau y Cynnrychiolwyr.

II. Derbyniwyd Cenadwriaethau.

III. *Y Gronfa Fenthyciol.* — Derbyniwyd enwau y personau canlynol i fod yn aelodau ar Bwyllgor y Gronfa Fenthyciol:—Dros Fôn:—. Lleyn ac Eifionydd:—.

Arfon :—Mr. John E. Roberts, Bangor. Dyffryn Conwy : — Y Parch. R. O. Williams a Mr. John Roberts, Colwyn Bay. Dyffryn Clwyd :—Y Parch. B. Hughes, a Mr. Ezra Roberts, Rhuthyn. Fflint :—Y Parch. J. P. Davies, M.A., a Mr. David Roberts, Treffynnon. Dwyrain Meirionydd :—Mr. Owen Lloyd, Corwen. Gorllewin Meirionydd :—Y Parch. T. J. Wheldon, B.A., a Mr. J. Parry Jones, Blaenau Ffestiniog. Trefaldwyn Uchaf :— Meistri David Evans, Cemmes; Edward Jones, Llanidloes; a David Jones, Machynlleth. Trefaldwyn Isaf :—. Henaduriaeth Trefaldwyn :—Mr. T. Rowlands, Drefnewydd. Henaduriaeth Lancashire :—Y Parch. John Williams, Caer; a Mr. William Evans, U.H., Bootle. Liverpool :—Mri. John Williams, Moss Bank; a John Williams, The Elms. Manchester :—Y Parch. William James, B.A., a Mr. John Davies, Pendleton. Llundain :—Y Parch. Ellis James Jones, M.A. Cynnullydd,—Mr. John Davies, Pendleton. Galwyd sylw at y rheol yr hon sydd yn gofyn i bob Cyfarfod Misol a Henaduriaeth ddewis gweinidog a blaenor. Dymunwyd ar i'r Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaeth sydd wedi dewis yn amgen i'r rheol uchod gyd ffurfio â'r rheol, ac i anfon enwau y cynnrychiolwyr i ofal Mr. John Davies, 4, Lord Street, Broughton, Manchester, mor fuan ag y geilir, fel y byddo gan y Pwyllgor Adroddiad i'w gyflwyno i'r Gymdeithasfa nesaf.

IV. *Adran Cagbarotöawl yn y Bala.*— Ar ol peth ymddyddan ar genadwri o Leyn ac Eifionydd mewn perthynas i hyn, penderfynwyd fod sylw ar y mater hwn yn cael ei oedi hyd y Gymdeithasfa nesaf.

V. *Undeb rhwng Ymneilldwyr.*—Eglurwyd ystyr y genadwri gan gynnrychiolwyr Trefaldwyn Isaf, ac ar ol ymddyddan hynod o dda ar y pwnc, pasiwyd y penderfyniad canlynol yn unfrydol,—Ein bod yn llawenhau yn fawr ymhob amcan a fyddo yn gwasanaethu i ddwyn undeb agosach rhwng Cristionogion ein gwlad â'u gilydd; a phan y gwelwn ein cyfleusdra, y byddwn yn barod iawn i roddi pob cefnogaeth i unrhyw symudiad i ddwyn oddiamgylch ddealltwriaeth mwy llwyr rhwng holl gref-yddwyr Cymru.

VI. *Gwaddoliadau.*—Eglurwyd cenadwri o Ddyffryn Clwyd. Hysbyswyd gan Mr. Edward Griffith, U.H., Dolgellau, fod y pwnc hwn wedi bod dan sylw yn Mhwyllgor y Gwaddoliadau, yr hwn sydd wedi cynnyg eisoes rywbeth tebyg i ystyr y genadwri. Dywedai eu bod yn dysgwyl gallu cyflwyno adroddiad yn y Gymdeithasfa nesaf. Erfyniwyd hefyd ar y Cyfarfodydd Misol sydd heb ateb y gofyniadau a anfonwyd atynt i wneyd hyny yn ddioed.

VII. *Cynnrychiolaeth yn y Gymanfa Gyffredinol.*—Wedi peth ymddyddan ar hyn, penderfynwyd ein bod yn oedi sylw pellach ar y mater.

VIII. *Achos Criccieth.*—Hysbyswyd gan un o'r cenadon a anfonwyd i Criccieth o'r Gymdeithasfa ddiweddaf, eu bod wedi ymweled â'r lle, ac fod yr achos oedd yn aros heb ei benderfynu wedi ei ddwyn i derfyniad boddhaol yn awr.—Mewn perthynas i'r cais am gael adeiladu capel newydd, penderfynwyd,—Fod y pwyllgor a fu yn eistedd ar yr achos yn Nghricciethi o'r blaen i gymeryd y mater hwn hefyd i ystyriaeth, ac i ddwyn adroddiad arno i'r Gymdeithasfa nesaf. Penodwyd Mr. Edward Griffith, U.H., Dolgellau, yn aelod ar y pwyllgor yma yn lle y diweddar Mr. Richard Jones, Bala. Ar ddymuniad cyfeillion y Capel Mawr yn Criccieth, rhoddwyd caniatâd y Gymdeithasfa i Mr. Robyns Owen, Pwllheli, i hysbysu iddynt enwau ymddiriedolwyr y Capel Mawr.

IX. *Diarddel Gweinidog.*—Ar ol gwrando gyda gofid ar genadwri o Gyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd, penderfynwyd ei chadarnhau, a'n bod fel Cymdeithasfa gyda galar yn ymwrthod â Mr. J. J. Hughes, Llidiardau, fel gweinidog a phregethwr yn ein mysg, a'n bod yn ystyried hefyd na ddylid ei oddef fel aelod eglwysig.

X. *Cofion.*—Penodwyd y Parch. Owen Thomas, D.D., i ymweled â'r Parch. Hugh Roberts, a'r Parch. John Pritchard i ymweled â'r Parch. T. J. Jones-Lewis, B.A., yn eu gwendid mawr, ac i ddatgan iddynt gydymdeimlad dwys y Gymdeithasfa â hwy, ac i gyflwyno iddynt ein cofion cynhes. Penderfynwyd hefyd fod cofion y Gymdeithasfa yn cael eu hanfon at y Parchn. Owen Jones, Llandudno, a William Griffith, Dysgwylfa, yn eu hafiechyd a'u llesgedd mawr.

XI. *Cau y Tafarndai ar y Sabbath.*— Penodwyd y Parch. Daniel Rowlands, M.A., a Mr. Thomas Lewis, A.S., i gyflwyno y penderfyniad isod i'r Ddirprwyaeth Frenhinol ar eu hymweliad â Bangor.

Fod Gweinidogion a Blaenoriaid Methodistiaid Calfinaidd Gogledd Cymru a'r trefydd Seisonig cyfagos, cynnulledig yn eu Cymdeithasfa Chwarterol yn ninas Bangor, Awst 27, 23, a'r 29ain,—y Parch. John Pritchard, Amlwch, yn y gadair,—yn dymuno datgan i'r Ddirprwyaeth Frenhinol a benodwyd i chwilio i weithrediad Deddf Cau Tafarnau ar y Sabboth yn Nghymru,—

1. Eu bod yn cynnrychioli 729 o eglwysi, a thua 167,000 o aelodau a gwrandawyr.

2. Eu bod bob amser wedi ymdrechu argraffu ar feddyliau eu cydwladwyr bwysfawredd sobrwydd, ac wrth ganfod y fath ddrygau yn codi o yfed ar y Sabboth, llafuriasant yn ddyfal er ceisio ffurfio a chryfhau y teimlad yn y wlad a alwodd o'r diwedd, a chyda y fath nerth anwrthwynebol, am gau yr holl dafarnau yn Nghymru am yr oll o ddydd yr Arglwydd.

3. Eu bod wedi sylwi gyda dwfn ddiolchgarwch mor falch y teimlai eu cydwladwyr o'r Ddeddf, mor ffyddlawn y mae y mwyafrif anferth o honynt wedi ei chadw, a'r fath ddirfawr les y mae wedi wneyd i'r wlad.

4. Eu bod hefyd wedi sylwi, a chyda dwfn ofid, ar y camddefnydd dybryd a wnaed mewn rhai o'n hardaloedd o adran y *bona fide traveller*, a'r llacrwydd mewn ffyrdd eraill a ddangoswyd i gryn raddau yn ngweinyddiad yr Act.

5. Eu bod yn llawenhau yn y gobaith mai canlyniad yr ymchwiliad presennol fydd, naill ai gwneyd i ffordd yn hollol âg adran y *bona fide traveller*, neu ei hamddiffyn yn y fath fodd ag i wneyd yn anmhosibl yn y dyfodol

y camddefnydd o honi gan ddynion afreolus sydd wedi ffynu yn gymaint yn yr amser a aeth heibio; a hyderant y bydd y Ddeddf i Gau ar y Sabboth, mewn ffyrdd eraill hefyd, yn cael ei gweinyddu yn Nghymru yn yr un dull anmhleidiol â chyfreithiau eraill y deyrnas, gan y teimlant yn gwbl sicr y bydd y teimlad cyhoeddus ymysg eu cydwladwyr yn anrhydeddu ac yn cyfnerthu pob ymdrech o eiddo rhai mewn awdurdod er amddiffyn sobrwydd a threfn.

Terfynwyd trwy weddi gan y Llywydd.

Am 6 o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.

Dechreuwyd gan y Parch. William Williams, Birmingham.

XII. *Gymdeithasfa nesaf.*—Hysbyswyd fod y Gymdeithasfa nesaf i gael ei chynnal yn Llanfair Careinion, Rhagfyr 11, 12, a'r 13eg, dyddiau Mercher, Iau, a Gwener. Cyfeisteddfod Cyffredinol y Gymdeithasfa i gyfarfod am ddau o'r gloch, dydd Mercher, Rhagfyr 11eg.

XIII. *Cadarnhâu.*—Darllenwyd a chadarnhäwyd cofnodau y Cyfeisteddfod Cyffredinol.

XIV. *Cymanfa Ddirwestol Gwynedd.*—Hysbyswyd fod y Gymanfa hon i gael ei chynnal yn Machynlleth yn niwedd Hydref, a'n bod yn penodi y Parchn. Thomas Owen, Portmadog, ac Evan Roberts, Dyffryn; Mri. Thomas Lewis, A.S., ac Edward Griffith, U.H., Dolgellau, i'n cynnrychioli fel Cymdeithasfa yn y Gymanfa.

XV. *Arholiad Cymdeithasfaol.*—Hysbyswyd fod yr Arholiad hwn i gael ei gynnal yn Nolgellau, Hydref 21, 22 a'r 23ain. Gadewid pob trefniadau pellach yn ngofal y personau canlynol fel pwyllgor lleol:—Mri. Edward Griffith, U.H., Richard Williams, Meyrick Jones, a Dr. Edward Jones, U.H. Dymunid ar Ysgrifenyddion y gwahanol Gyfarfodydd Misol i anfon yn brydlawn i Mr. Edward Griffith, U.H., enwau yr ymgeiswyr fydd yn ymddangos yn yr Arholiad.

XVI. *Gynnadledd Seisonig Unedig.*—Hysbyswyd fod y Gynnadledd hon i gael ei chynnal eleni yn Aberystwyth, Medi 23, 24 a'r 25ain, dyddiau Llun, Mawrth a Mercher. Annogwyd ar fod holl gyfeillion yr Achosion Seisonig yn ymdrechu bod yn bresennol.

Penodwyd y Llywydd, y Trysorydd, a'r Ysgrifenydd i gynnrychioli y Gymdeithasfa yn y Gynnadledd.

XVII. *Athrofa'r Bala.*—Darllenwyd a chymeradwywyd yr Adroddiad dilynol:—

Cyfarfu y Cyfeisteddfod Cyffredinol yn y Coleg, y Bala, nos Fawrth a bore Mercher, Gorphenaf 2 a'r 3ydd, 1889. Llywydd,—Richard Davies, Ysw., U.H.

1. Darllenwyd a chadarnhäwyd Cofnodion y Cyfeisteddfod diweddaf.

2. Hysbyswyd gan y Llywydd am yr hyn a wnaethpwyd ganddo ef fel Trysorydd gyda golwg ar ostyngiadau yn y *mortgages* ar y tai yn Liverpool yn ol awgrymiadau yr archwilwyr, Mri. John Williams, Moss Bank, a David Hughes. Dywedai Mr. Davies pa mor anhawdd oedd iddo ef o Menai Bridge i gyflawni yn foddhäol yr oll ag oedd yn anghenrheidiol er arolygiaeth effeithiol ar yr eiddo hwn; ac ar gais y Trysorydd Cyffredinol, penodwyd Mr. J. Herbert Roberts, M.A., yn Drysorydd Cynnorthwyol i weithredu yn Liverpool, ac i ymgynghori â'r personau dilynol mewn pob amgylchiad o anhawsder, sef y Parch. Owen Jones, B.A., Mri. J. Harrison Jones, J. Herbert Lewis, M.A., John Williams, Moss Bank, David Hughes, U.H., a John Griffith, Egremont.

Cydolygwyd fod awdurdod yn cael ei roddi i'r personau a enwyd uchod, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd Cyffredinol, i benderfynu pa fodd i weithredu mewn perthynas â'r gostyngiad yn y *mortgages* neu ostyngiad yn y llogau.

3. Penderfynwyd fod *investment* £3500 o arian y Gronfa yn cael ei ymddiried i'r personau a enwyd uchod mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd Cyffredinol.

4. Penderfynwyd fod Archwilwyr y cyfrifon a'r *safe* i endorsio y *mortgage deeds* gyda swm y gostyngiad a wnaed yn y *mortgages*, sef y swm a dderbyniwyd gan y Trysorydd Cyffredinol yn unol âg awgrymiadau yr Archwilwyr yn Liverpool.

5. Hysbyswyd gan Dr. R. Hughes, Bala, fod iechyd y Parch. Hugh Williams, M.A., wedi ei anmharu i fesur. Penderfynwyd ein bod fel Cyfeisteddfod yn dadgan ein cydymdeimlad â Mr. Williams, a'n gobaith iddo gael adferiad buan. Penderfynwyd ein bod yn caniatâu i Mr. Williams seibiant oddiwrth ei waith yn yr Athrofa am fis neu ddau yn hwy os barna y meddyg hyny yn anghenrheidiol, a'n bod yn darpar fel na byddo gwaith y Coleg yn dyoddef yn ystod ei absennoldeb.

6. Penodwyd Mri J. E. Powell, Wrexham, ac Owen Williams, Bodffari, yn archwilwyr y cyfrifon a'r *safe*. Hysbyswyd ganddynt eu bod wedi cael y cyfrifon yn hollol gywir, ond fod yr amser yn rhy brin iddynt allu myned trwy gynnwysiad y *safe* mewn dull boddhaol. Mewn canlyniad gofynwyd iddynt ddyfod am ddiwrnod i'r Bala a chwblhâu y gorchwyl gyda'r manylwch mwyaf; caniatäwyd iddynt hefyd gael unrhyw gynnorthwy a farnent yn anghenrheidiol. Bu Mr. Wynne Evans, cyfreithydd, Wrexham, gyda hwynt am ddiwrnod yn edrych trwy yr holl weithredoedd yn y *safe*, a thystient mewn llythyr dan eu llaw eu bod wedi cael y cwbl yn ddyogel.

7. Derbyniwyd a chymeradwywyd, gydag ychydig gyfnewidiadau, Adroddiad y Pwyllgor Lleol, a gorchymynwyd iddo gael ei ysgrifenu yn llyfr y cofnodion.

8. Pasiwyd am y flwyddyn nesaf yr un penderfyniad â'r llynedd mewn perthynas i dŷ gwag y Coleg, sef—Ein bod yn cynnyg y tŷ yn rhad am y flwyddyn nesaf i'r Parch. Ellis Edwards, M.A.; ac os na bydd efe am fyned iddo, ein bod yn gadael pob trefniad mewn perthynas iddo i'r Pwyllgor Lleol.

9. Penodwyd y personau canlynol yn Isbwyllgor i ofalu am Lyfrgell y Coleg, ac i ddwyn adroddiad gyda golwg arni—pa fodd i'w gwella ac i eangu ei defnyddioldeb. Penderfynwyd hefyd eu bod i gymeryd penodiad llyfrgellydd i ystyriaeth. Y personau ydynt: y ddau Broffeswr; y Parchn. Owen Jones, B.A., Liverpool; Robert Roberts, Dolgellau; T. J. Wheldon, B.A., a W. R. Evans. Y Parch. T. J. Wheldon i fod yn gynnullydd. Caniatäwyd iddynt hefyd i warlo hyd £40 eleni ar y llyfrgell.

10. Gadawyd gwneuthur pob trefniadau ar gyfer yr Arholiadau yn mis Medi yn nwylaw y Proffeswyr, a phob hysbysiad i gael ei roddi yn y *Goleuad* a'r Drysorfa.

11. *Athraw Cymorthwyol Newydd.*—Ar ol llawer o siarad, penderfynwyd fod hysbysiad yn cael ei roddi yn y *Goleuad* yn gofyn am *applications* am y swydd o Athraw Cynnorth-

wyol yn y Bala, y cyflog i fod yn £80 y flwyddyn. Penodwyd y ddau Athraw, y Trysorydd Cyffredinol, a'r Ysgrifenydd, i ystyried y gwahanol *applications*, ac i awgrymu enwau i'r Pwyllgor Cyffredinol, yr hwn sydd i gyfarfod yn Rhyl i wneuthur y penodiad.

12. Penderfynwyd,—Ein bod yn penodi y Parch. John Owen Jones, B.A., fel un o'r Athrawon Cynnorthwyol am y flwyddyn nesaf, a'i fod i dderbyn am y flwyddyn ddiweddaf £80 o gyflog.

13. Penodwyd y Parchn. Robert Roberts, Dolgellau, William James, B.A., Manchester, a Mr. John Bryn Roberts, A.S., yn Is-bwyllgor i dynu allan gynllun i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor o'r dull i weithredu wrth ddewis Athrawon, ac hefyd *draft* o gytundeb ysgrifenedig â hwynt, yr hwn sydd i gael ei arwyddnodi ganddynt ar adeg eu penodiad, neu mor fuan wedi hyny ag y gellir. Penodwyd y Parch. William James, B.A., yn gynnullydd.

14. Derbyniwyd yr adroddiadau dilynol oddiwrth yr Arholwyr, a threfnwyd i ranu y gwobrau arferol, a'r rhai neillduol, fel y gwelir yn y DRYSORFA.

Adroddiad yr Arholydd mewn Duwinyddiaeth.—Y mae yn hyfrydwch genyf ddadgan y boddhad mawr a gefais wrth edrych drwy bapyrau y myfyrwyr mewn Duwinyddiaeth, yn yr Arholiad hwn. Yr oedd y papyrau ar y ddwy bennod yn yr Epistol at y Colosiaid yn dangos fod y gwŷr ieuainc wedi cael parotoad manwl a rhagorol iawn yn y Dosbarthiadau; a'u bod ar y cyfan wedi gwneuthur defnydd da o'u manteision. Dangosai y papyrau uwchaf gydnabyddiaeth eang a manwl âg iaith y Testament Newydd yn y gyfran hon, ac â'r gwahanol ddarlleniadau; a phrofent fod eu hysgrifenwyr wedi myned i mewn i ysbryd ac ystyr yr Epistol, fel ag i gael gafael gref yn egwyddorion yr ymresymiad. Y mae mwyafrif y papyrau yn dda a chanmoladwy iawn—*level* uchel o deilyngdod yn cael ei chadw i fyny trwy y Dosbarth. Nid oes ond ychydig yn disgyn yn isel. Ac un rheswm yn ddiau am fethiant y rhai hyn yw, diffyg cydnabyddiaeth â'r iaith Seisonig.

Gallaf ddyweyd yn gyffelyb am y papyrau ar Martensen. Er fod lliaws o'r syniadau yn ddyeithr i'r Cymry, a'r meddyliau yn fynych yn ddwfn ac athronyddol, yr oeddwn yn synu gynifer oedd wedi llwyddo i gael gafael yn y meddwl yn hollol gywir, ac i'w gyflwyno yn eu hatebion mewn ymadroddion mor glir a phriodol.

Yr oedd yr Arholiad hwn yn brawf newydd, at y lliaws a gafwyd o'r blaen, o alluoedd ac ymroddiad yr Athrawon. Y mae yn amlwg fod y ddau Athraw wedi cymeryd trafferth dirfawr yn mharotoad y Darlithiau a roddwyd ganddynt ar y naill destun a'r llall. Da iawn genyf hefyd allu dwyn tystiolaeth i'r gallu a'r wybodaeth a amlygir gan y rhan fwyaf o'r efrydwyr, ac i'r llafur cydwybodol ag y mae yn rhaid eu bod wedi ymroddi iddo yn ystod y tymmor.—GRIFFITH PARRY.

Adroddiad yr Arholwyr Clasurol.—Dengys llawer o'r traethodau gryfder meddwl a choethder arddull, ac ambell un ddiffyg enaid neu dlodi iaith, neu'r ddau. Mewn llenyddiaeth Saesoneg, y mae'r gwaith wedi ei wneyd yn drwyadl. Nid ydyw'r papyrau ar "Hanes" yn llawn cystal; er hyny gwelem fod gan y myfyrwyr syniad eglur am y Rhyfel Mawr a'r Rhyfel Sanctaidd.

Mewn Rhif a Mesur ceir rhai papyrau yn dangos diofalwch, ond nid ydyw y rhai hyn ond eithriadau. Ar y cyfan, ceir atebion cywir, ac arddull dda, yn dangos gwaith cydwybodol, a'r manylder meddwl a ddaw o astudio Rhif a Mesur.

Mae y cyfieithiadau o'r Lladin a'r Groeg i'r Saesoneg yn rhagorol iawn ar y cyfan. Y mae cryn ansicrwydd yn cael ei ddangos yn y cyfieithiadau o'r Saesoneg i Ladin a Groeg, er fod rhai efrydwyr wedi llwyddo yn amlwg yn yr adran yma. Y mae arwyddion o ddiffyg gwreiddioldeb mewn rhai o'r atebion—cedwir yn rhy fanwl hyd yn nod at ffurf yn gystal a sylwedd yr hyn a geir yn y llawlyfrau.

Yr ydym yn teimlo fod cynnydd amlwg wedi cymeryd lle yn ystod y flwyddyn yn arddull a destlusrwydd y papyrau.—OWEN OWEN, O. M. EDWARDS.

15. Penodwyd y Parch. G. Parry, D.D., yn Arholydd Duwinyddol am y ddwy flynedd nesaf, a'r Parch. John Williams, B.A., Ffestiniog, yn Arholydd am y tair blynedd nesaf, yn lle Mr. Owen Owen, M.A., Croesoswallt. Diolchwyd i Mr. Owen am ei wasanaeth ffyddlawn.

16. Hysbyswyd fod yr Achos Seisonig yn y Coleg wedi darfod. Annogwyd y Proffeswyr i edrych ai nid oedd yn bosibl gwneuthur rhywbeth yn y cyfeiriad hwn eto, a gadawyd y swm a votiwyd o'r blaen at eu gwasanaeth.

17. Derbyniwyd *certificate* o afiechyd gan y meddyg i Mri. J. P. P. a T. L.

18. Gofynwyd i'r Parch. Robert Roberts, Dolgellau, i ysgrifenu hanes yr Athrofa o ddechreuad y symudiad gydag addysg y weinidogaeth hyd yn awr, a phenderfynwyd fod rhestr o'r hen fyfyrwyr i gael ei hargraffu. Awdurdodwyd y Trysorydd Lleol i dalu pob mân dreuliau yr aethpwyd iddynt ynglŷn â hyn.

19. Diolchwyd i'r Athrawon, y Meddygon, y Pwyllgor Lleol, a'r Arholwyr, am eu gwasanaeth ffyddlawn.

R. H. MORGAN, *Ysgrifenydd.*

(*I'w barhâu.*)

Bywgraffiaeth.

MRS. ANNIE RICHARDS, PRIOD Y PARCH. JAMES RICHARDS, HANLEY.

Gan Mr. E. ROBERTS, *Hanley.*

Yr oedd gwrthddrych ein cofiant yn ferch i John a Rebecca Davies, Nantyfallen, Sir Aberteifi, wedi hyny Broncairo, yn yr un sir. Bu iddynt bump o blant, sef Eliza, Mary, Jane, Annie, a Thomas, o ba rai nid oes ond Mrs. E. Rees a Mr. Thomas Davies yn fyw. Bu Jane farw pan yn bur ieuanc; ymbriododdd Mary â Mr. William Williams, Emporium, Kansas, ar y 15fed o Fehefin, 1883, ac aeth gyda'i phriod i Emporium, ac yn mis Medi canlynol bu hi farw. Yr oedd hi yn wraig rinweddol a duwiol, yn hynod am ei haelioni a'i charedigrwydd, ac yn un a fawr hoffid gan bawb.

Ganwyd Mrs. Richards Mawrth 22, 1863, yn Nantyfallen, yn nghymydogaeth y Garn. Bu ei mam farw pan oedd ei merch Annie ond saith mlwydd oed; collodd felly y fraint o gael dylanwad mam dduwiol i ffurfio ei chymeriad. Ond cafodd bob mantais a allasai tad duwiol ei roddi iddi. Yr oedd yn hynod awyddus am roddi addysg dda iddi, ac nid oedd dim yn ei

foddhâu yn well na'i gweled yn awyddus am wybodaeth. Yr oedd Mr. John Davies yn ddiacon parchus yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Penygarn. Yr oedd efe yn ŵr cadarn yn yr ysgrythyrau, a thrwy ei fod yn darllen y Gair sanctaidd gyda chysondeb, yr oedd delw y gwirioneddar ei ysbryd ef. Yr oedd ei ysbryd pur yn ei wneyd yn zelog dros burdeb yn yr eglwys, ac o herwydd ei ymarweddiad sanctaidd yr oedd yn meddu ar wroldeb ac awdurdod fel ag i fod yn ofn i weithredoedd drwg. Trwy ymarfer duwioldeb gartref, yr ydoedd wedi gosod ei ddelw ar ei blant. Yr oedd hyn i'w ganfod yn eglur yn ein hanwyl chwaer Mrs. Richards: eiddigeddai âg eiddigedd duwiol dros burdeb yn yr eglwys, ac oblegid hyn mawrygai y duwiol pwy bynag fyddai, nid oedd wahaniaeth pa sefyllfa y gallai fod ynddi.

Ar y 26ain o Fawrth, 1879, bu farw ei thad duwiol a darbodus, yn 48 mlwydd oed. Mynych y dywedai Mrs. Richards wrth ei phriod, ddarfod iddi weled yn y brofedigaeth ystyr newydd i'r geiriau, "Tad yr amddifaid yw Duw yn ei breswylfa sanctaidd" (Salm lxviii. 5). A rhyfedd, meddai, y cymhorth sydd mewn adnod fel hyn. Yr oedd ein hanwyl chwaer yn gallu tynu dwfr o ffynnonau iachawdwriaeth ymhob amgylchiad. Derbyniodd Mrs. Richards ei haddysg foreuol gyda Mr. Evans, ysgolfeistr Ysgol y Bwrdd yn y Garn. Fel y canlyn yr ysgrifenai Mr. Evans at ei phriod ychydig o'i hanes tra yn derbyn ei haddysg gydag ef:—"Pan yn blentyn yr oedd o duedd feddylgar ac ymchwilgar, fel pe yn sylweddoli byrdra ac ansicrwydd bywyd. Y canlyniad ydoedd ei bod pan yn bur ieuanc wedi cyfoethogi ei meddwl âg ystôr o wybodaeth fuddiol, ac wedi trysori yn ei chof lawer iawn o'r Bibl, yr hyn yn ddiammheu a weinyddodd lawer o gysur ysbrydol iddi yn niwedd ei gyrfa fer, ond dysglaer. Bu o Ebrill 19eg, 1880, hyd Hydref yr un flwyddyn, yn yr ysgol hon yn *pupil teacher*, ac yn ystod y tymmor byr dangosodd lawer o allu a medr, a chryn fesur o amynedd, i addysgu y plant oedd dan ei gofal. Ymdaflai â'i holl enaid i'r gwaith, ac nid ei wneyd rywfodd fel y mae llawer o'r oedran yna yn gwneyd, ond yr oedd yn amlwg ei bod y pryd hwnw wedi ei thrwytho âg ysbryd y gorchymyn Dwyfol yn Col. iii. 22, 23. Yr oedd bob amser yn awyddus i ddysgu a chael ei haddysgu, a chymerai bob awgrymiad mewn ysbryd priodol. Am dani gellir dyweyd, er nad oedd ei blynyddoedd ond ychydig, eto bu fyw yn hir.

"We live in deeds, not years, in thoughts, not breaths,
In feelings, not in figures on a dial;
We should count time by heart-throbs.
He most lives who thinks most, feels the noblest, acts the best."

Gorfu iddi, oblegid sefyllfa ei hiechyd, roddi i fyny y gwaith o addysgu y plant yn Hydref, 1880, ac yn y flwyddyn ganlynol aeth i ysgol yn Amwythig, a bu yno flwyddyn; yna dychwelodd adref, a bu yn ymroddgar gyda phob achos da yn y gymydogaeth, ac yn neillduol fel athrawes yn yr Ysgol Sabbothol. Ar y 24ain o Ebrill, 1885, ymbriodod â'r Parch. James Richards, gweinidog eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Hanley, Swydd Stafford, pan yn 22 mlwydd oed; ac yn Hanley y treuliodd y gweddill byr o'i hoes, oddieithr ychydig gyda y tri mis diweddaf, pryd y symudodd, wrth gyfarwyddyd ei meddyg, i'w hen gartref yn Nghymru, gan obeithio y byddai i awyr ei chymydogaeth enedigol fod yn adgyfnerthiad iddi. Ond nid oedd dim yn tycio; ni bu y cyfnewidiad yn yr awyr o ddim llesâd i'w hiechyd, a gwaelu yn raddol a wnaeth. Yn ei chystudd teimlai awydd cryf am wellhâu, i fod yn gysur i'w phriod hoff, ac i fagu ei merch fechan anwyl, ac i fod yn ddefnyddiol yn ngwinllan yr Arglwydd. Nid rhyfedd ei bod mor awyddus am fyw, oblegid nid oedd ond fel blodeuyn yn dechreu ymagor. Yr oedd yn awyddus am wybodaeth, a hyny er mwyn bod yn ddefnyddiol yn ngwinllan yr Iesu. Credai fod iddi lawer o waith i'w wneyd yn y byd, a methai ddeall y gallasai wasanaethu a gogoneddu Duw wrth farw mor ieuanc. "Ond nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i, medd yr Arglwydd."

Gwel y darllenydd oddiwrth yr hyn sydd wedi ei ddywedyd uchod ei bod yn feddiannol ar gymhwysderau neillduol i fod yn wraig i weinidog yr efengyl. Yr ydoedd yn ymwybodol o ymboeni i geisio gwybodaeth, ac oblegid hyn gallai gydymdeimlo âg ef yn ei lafur am wybod y gwirioneddau. Yr oedd yn gallu synied pa mor bwysig iddo ydoedd cael llyfrgell dda a helaeth, ynghyd a llonyddwch a thawelwch i lafurio yn meusydd llenyddiaeth, er cael gafael ar y perlau cuddiedig ynddynt. Cofus genym ei chlywed yn dywedyd, pan yn trefnu ei thŷ, ac yn neillduo ystafell i fod yn llyfrgell i'w phriod, ei bod hi yn ewyllysio iddo gael pob mantais posibl i gyflawni ei weinidogaeth. Ac wedi trefnu y llyfrgell yn bob peth a allesid ddymuno, ac i'w phriod ddechreu ar ei waith o astudio, deuai hithau i mewn, nid i'w rwystro, ond yn hytrach i gyd-efrydu âg ef, ac i fod yn gwmni iddo. Trwy ei hymroddiad diflino i geisio gwybodaeth, yr ydoedd wedi cyrhaedd mesur helaeth o gymhwysder i feirniadu y bregeth, ac yn yr ystyr yma cynnorthwyai ef yn ei waith; a chymhorth gwerthfawr yn ddiau ydyw hwn.

Yr oedd hi wedi ei lleuwi âg ysbryd cenadol yn y fath fodd fel ag i feddu hoffder neillduol at y Genadaeth Dramor, yn gymaint felly fel mai y *Cronicl Cenadol* a ddarllenai gyntaf bob amser o'r Drysorfa. Clybuwyd hi yn dywedyd, pe buasai hi yn meddu ar gyfansoddiad corfforol cryf, y buasai hi yn ewyllysio bod ar y maes cenadol yn llafurio dros y Gwaredwr; a hawdd genym gredu pe cawsai hi iechyd ac oes, y buasai hi o wasanaeth mawr ar faes y

Genadaeth Gartrefol yn Hanley. Hyd yr ydoedd ei hiechyd yn caniatâu, dangosodd mewn modd amlwg ei bod yn llawn o awydd gwir am fod o wasanaeth i grefydd a'r Efengyl; ond nid ewyllys Meddianydd nefoedd a daear oedd hyny. Ei ewyllys Ef oedd ei chymeryd hi "fel tywysen lawn, yn addfed iawn i'r ref."

Yr oedd caredigrwydd yn nodweddu cymeriad Mrs. Richards mewn modd amlwg iawn. Yr ydoedd y derbyniad siriol a roddai i ni i'w thŷ, a'r croesaw caredig a dderbyniem yno, yn ein hargyhoeddi fod caredigrwydd yn elfen gref yn ei natur. Byddem weithiau yn teimlo anhawsder i benderfynu i ba un o chwïorydd hynod Bethania yr oedd yn fwyaf tebyg. Ar brydiau byddai ei charedigrwydd yn peri iddi fod yn hynod o ofalus a thrafferthus, fel ag i'n tueddu i feddwl mai i Martha yr ydoedd yn fwyaf tebyg. Amser arall, pryd y byddai rhyw fater crefyddol yn cael ymdrin âg ef, eisteddai yn dawel a gwrandawai gyda hoffder neilluol ar yr ymdriniaeth, a chymerai ran ei hunan yn yr ymddyddan. Dangosai yn amlwg fod ei chalon yn ymhyfrydu mewn gwybod y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu. Pryd hyn yr oeddym yn gweled ei bod yn cyfranogi yn helaeth o ysbryd Mair. Tybiwn ei bod yn gyfuniad o'r ddwy.

Ennillodd iddi ei hun gydymdeimlad llwyraf y rhai oedd yn ei hadnabod, a rhoddai hithau bris uchel arno, pa ffordd bynag y dangosid ef; os mai trwy lythyr neu ymweliad personol, yr ydoedd yr un mor werthfawr yn ei golwg. Hysbyswyd hi fod yr Eglwys yn Hanley yn gweddïo am ei hadferiad; rhoddodd yr hysbysiad hwn ddyddanwch mawr i'w chalon, oblegid edrychai ar Eglwys Dduw mewn safle uchel a dyrchafedig iawn. Wedi clywed, adroddodd y rhan hon o'r adnod, "Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn." "Pwy a all dywedyd," meddai, "faint sydd yn gynnwysedig yn y gair 'llawer?'" Ei chysur penaf yn ei chystudd ydoedd yr adnodau a'r emynau oedd hi wedi eu trysori yn ei chof mewn iechyd, pa rai oedd yn dyfod i'r meddwl yn nerth a dyddanwch gwastadol. Ei hoff adnodau yn ei chystudd oeddynt "Duw sydd noddfa a nerth i ni, cymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder." "Deuwch ataf fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch," a'u cyffelyb.

Teimlai yn bur hyderus ei bod mewn heddwch â Duw, ac y cawsai pan yn gadael y fuchedd hon fyned adref ato Ef. Yr ydoedd yn mwynhau cymdeithas â Duw, ac yn derbyn nerth oddiwrtho i ddyoddef. "Y mae Crist," meddai, "yn fy nerthu, ac yn cydymdeimlo â mi." Yr wythnos ddiweddaf y bu fyw, teimlai fod y diwedd yn agos, a siaradai lawer wrth ei phriod am farw ac am y nefoedd. Dywedai nad oedd arni ofn y tu draw i farw, gan y teimlai yn hyderus mai y nefoedd a fyddai ei chartref. Ond yr oedd arni ofn yr ymddattodiad, ac adroddodd amryw weithiau y pennillion canlynol,—

"Ar lan Iorddonen ddofn
'R wy 'n oedi 'n nychlyd," &c.

Ac wedi eu hadrodd, dywedodd un tro, "Cael eu cynnal a wnaethant hwy;" ac meddai drachefn, fel pe yn cael goruchafiaeth ar angeu,—

"Paham yr ofnaf mwy,
Y Duw a'u daliodd hwy
A'm dyga innau drwy
Ei dyfroedd dyfnion."

Ac nid rhyfedd mai dyna oedd ei phrofiad, oblegid profiad cyffelyb oedd gan yr Apostol Paul: "Canys ninnau hefyd y rhai ŷm yn y babell hon, ydym yn ocheneidio yn llwythog: yn yr hyn nid ym yn chwennych ein diosg, ond ein harwisgo, fel y llyncer yr hyn sydd farwol gan fywyd." Y diwrnod olaf y bu fyw, dywedodd wrth ei pherthynasau oedd yn yr ystafell, "Yr wyf am i chwi ganu yr hymnau canlynol yn fy nghladdedigaeth, oblegid y maent yn brofiad i mi heddyw, nid ydynt yn brofiad eto i chwi." Yna adroddodd hwynt bob gair yn hollol hyglyw ac yn hynod effeithiol, sef

"Ni ddaw nghyfeillion mwya 'u hedd
I'm hebrwng ond hyd lan y bedd," &c.,

ynghyd a'r pennillion a enwyd eisoes. Yna dywedodd, "Gweddïwch oll," ac ymhen enyd trodd at ei phriod a dywedodd, "Peidiwch chwi a gweddïo mwy am i mi wellhau, ond gweddïwch am i mi gael myned adref;" a chyda gwên nefolaidd dywedodd drachefn, "Y mae arnaf eisieu myned adref," ac felly yr hunodd mewn tangnefedd yn yr Iesu, Awst 27, 1887, cyn cyrhaedd 25 mlwydd oed.

Dydd Iau, y laf o Fedi, hebryngwyd ei rhan farwol i dŷ ei hir gartref yn nghladdfa y Garn, gan dyrfa liosog o rai a ddaethent i ddangos eu parch iddi, a'u cydymdeimlad â'i phriod.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth wrth y tŷ gan Mr. E. Owens, Diacon yr Eglwys yn Hanley, a'r Parch. T. J. Morgan, Garn; ac wrth y bedd gan y Parchedigion D. Morgan, Penllwyn, a W. Hinton Jones, Amwythig. Y Sabboth canlynol traddododd y Parch. W. Morgan, Garn, bregeth angladdol yn y Garn, a'r Sabboth dilynol yn Hanley gan y Parch. John Pugh, B.A., Treffynnon. Gellir dywedyd ddarfod i'r Parch. James Richards dreulio yr wyth mis cyntaf o'r flwyddyn 1887 megys yn mhair profedigaeth, oblegid nis gellir dywedyd fod Mrs. Richards wedi cwbl wellhau ar ol geni ei merch fechan, Ida Gwladys, ar y 25ain o Rhagfyr, 1886. Ni bu yn alluog i fyned i fewn ac allan fel yr arferai. Ychydig weithiau y gallodd fyned i'r capel, y lle yr hoffai mor fawr fyned i addoli—îe, i addoli.

Wedi claddu ei anwyl briod, y mae yn rhesymol i ni feddwl fod Mr. Richards yn gobeithio fod ystorm profedigaeth drosodd, ac y gallai ddysgwyl i'r cymylau duon i ddechreu gwasgaru, ac i awyr las hawdd fyd ddechreu ymddangos. Bellach, naturfol ydyw i'w ferch fechan anwyl a hoff i

fod yn ganolbwynt ei ddysgwyliadau am gysur daearol; ond yn ebrwydd, wele gwmwl du profedigaeth yn codi drachefn yn annysgwyliadwy. Cymerwyd ei anwyl blentyn yn glaf, ac er holl fedr a dyfais y meddygon, a phob peth oedd yn ngallu ei hanwyl dad a phawb, ehedodd hithau ymaith ar y 29ain o Ionawr, 1888, megys o afaelion tynion ei serchiadau, i wlad sydd well i fyw, pan nad oedd ond 13 mis a 3 diwrnod oed. Claddwyd hi ar y laf o Chwefror, 1888, yn nghladdfa y Garn yn yr un bedd a'i hanwyl fam.

Wrth edrych ar y goruchwyliaethau hyn, priodol ydyw dyfynu yr adnod o'r Salm lxxvii.: "Dy ffordd sydd yn y môr, a'th lwybrau yn y dyfroedd mawrion, ac nid adwaenir dy ol."

Uloffion.

LLWYDDIANT DYSGEIDIAETH CRIST RHAGOR Y DOETHION IUDDEWIG.

Un rheswm am lwyddiant dysgeidiaeth Crist oedd ei bod yn cael ei sylweddoli mewn bywyd, yn ei fywyd Ef ei hunan. Rhoddid gwirioneddau gan yr athrawon Iuddewig mewn ysgolion, wedi eu helfenu, eu sychu i fyny mewn ymadroddion diarhebol. Ni chynnyrchent unrhyw ddyddordeb bywiol. Ond dyma Un yn dyfod, ac yn dyweyd, 'Myfi yw y Gwirionedd a'r Bywyd. Gwelwch fy ngweithredoedd, edrychwch ar fy mywyd, yr hyn yr wyf yn ei ddyweyd, ei wneuthur, a'i fyw, dyna ydyw meddwl a chymeriad Duw.' Y mae yn hawdd rhoddi hyna i'r prawf. Deffroir dyddordeb, chwiliant, dychwelant eilwaith a thrachefn at y sylweddoliad dynol o'r gwirionedd. Dyma wirionedd mewn person. Anhawdd yw caru gwirionedd yn y drychfeddwl. Ond dyma wirionedd wedi ei gorffori mewn person y gallwn ei garu.—Brooke.

CELFYDDYD PAUL.

Rhoddir rhyw grefft yn llaw pob bachgen Iuddewig. Golygid fod bachgen a ddygid i fyny heb hyny, yn cael ei ddwyn i fyny yn lleidr. Yn wahanol i'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid, y rhai a edrychent ar grefft gyda dirmyg heb fod yn gymhwys i neb ond i gaethweision, golygai yr Iuddewon fod celfyddyd law-weithfaol yn anrhydedd i ddyn, ac na ddylai neb, y gwych fel y gwael, fod heb yr un. Yr oedd un Rabbi Juda yn bobydd; Eliezer, arlywydd ysgolion Alexandria, yn ôf; Johanan yn grydd; ac un Simon yn wehydd, &c. Ac wedi ymgodi i'r safleoedd uwchaf, ymfalchïent i gydio wrth eu henwau eu hen gelfyddyd. Dygwyd Saul i fyny yn wneuthurwr pebyll. Dichon mai hyn oedd crefft wreiddiol ei dad. Yr arferiad ymhlith yr Iuddewon ydoedd i fab ddysgu yr un gelfyddyd a'i dad. Dywedir fod hon yn gelfyddyd bur gyffredin yn Cilicia. Gwneid pebyll o frethyn bras o flew geifr, a elwid cicilium—defnydd oedd yn helaeth iawn yn ardaloedd mynyddoedd y Taurus. Yr oedd y defnydd hwn yn erthygl bwysig yn masnachaeth Talaeth Cilicia, a thybia rhai y gallai fod ei dad ymhlith y marsiandwyr a gludent y nwydd yma i farchnadoedd traethau Môr y Canoldir. Y mae yn ddiareb ymysg yr Iuddewon, "fod yr hwn sydd ganddo gelfyddyd yn ei law yn gyffelyb i winllan wedi ei hamddiffyn â magwyrydd." Da i Paul yn Ephesus, Corinth, a Thessalonica, ei fod yn gallu ennill ei fara trwy weithio â'i law ei hun, ac er mai gorchwyl digon annymunol oedd gweithio y brethyn o flew duon a drwgsawrus y geifr, eto fel y sylwa Farrar yr ydoedd yn waith nad oedd yn gofyn llawer o'i feddwl, ac felly yn rhoddi cyfleusdra iddo pan gyda'i waith fyfyrio neu siarad ar bynciau dyrchafedig yr efengyl a ymddiriedwyd iddo. —*Y Parch. John Evans (Eglwysbach).*

Y PWYS O FOD RHYWBETH YN Y BREGETH.

Rhoddwyd y cynghor rhagorol hwn unwaith gan weinidog enwog gyda'r Wesleyaid i'w fab, yr hwn a ddaeth wedi hyny yn fargyfreithiwr o radd uchel (*Queen's Counsellor*):—"Y mae rhai yn rhoddi Duwinyddiaeth yn eu pregethau, rhai yn rhoddi barddoniaeth, rhai yn rhoddi profiad; byddwch chwi yn sicr, Sammy, eich bod bob amser yn rhoddi *rhywbeth* i fewn."—Dr. Parker.

PREGETHWYR POENUS.

Pe byddai mwy o bregethwyr poenus, yn yr hen ystyr i'r gair, sef rhai yn *cymeryd* poen (yn "*poeni* yn y gair a'r athrawiaeth"), byddai llai o wrandawyr poenus, yn yr ystyr ddiweddar i'r gair, sef rhai yn *dyoddef* poen. —*Archesgob* Trench.

(*Simple Equation* i bregethwyr ieuainc. Pregethwr poenus=gwrandawyr diboen: pregethwr diboen=gwrandawyr poenus.—G).

GEIRIAU Y DOETHION.

Cerddoriaeth yw adsain o fyd pell o gydgordiad—ochenaid yr angel o'n mewn.

Nis gall cywirdeb perffaith gydfyned â dim ond rhinwedd. Rhaid i bechod wrth dwyll, megys mai twyll ydyw.

Un peth yw deall pynciau, peth arall tra gwahanol yw deall personau.

Nis gall dyn feddu dim gwell na gwraig dda, na dim gwaeth nag un ddrwg.

Ymarferiad yw ymgnawdoliad ffydd.

Nid oes neb mor ddwfn brudd a'r hwn sydd yn chwerthin gormod.

Y mae cwsg hir marwolaeth yn iachâu ein *creithiau*, a chwsg byr bywyd ein *harchollion*. Cwsg yw yr hanner hwnw o amser sydd yn ein hiachâu.

Cronicl Cenadol.

DOSBARTH CHERRA.

YR YSGOL NORMALAIDD.

Yn yr Adroddiad Blynyddol diweddaf yr oeddym yn gallu hysbysu fod yr Ysgol Normalaidd yn Cherraponjee yn ail ar restr Ysgolion Normalaidd Talaeth Assam, o ran nifer yr efrydwyr oedd wedi myned yn llwyddiannus trwy yr arholiadau ac wedi ennill tystysgrifau. Ysgrifena y Parch. J. Ceredig Evans ei fod wedi gweled Cyfar-

wyddwr Addysg Gyhoeddus yn Nhalaeth Assam *(the Director of Public Instruction)* ychydig ddyddiau yn flaenorol, a'i fod wedi ei hysbysu mai Ysgol Cherra sydd y flwyddyn hon ar ben y rhestr. Mae yn y Dalaeth tua saith o Ysgolion Normalaidd.

DOSBARTH SHILLONG.

Llythyr oddiwrth y Parch. T. Jerman Jones.

Shillong, Awst 24, 1889.

Dechreu y mis hwn bu farw yr hen chwaer anwyl o Sadew, Ka Kymi U Mur. Yr oedd yn wael er's tua thri mis, a myned yn waelach waelach a wnaeth nes yr ehedodd ymaith i fod byth gyda'r Arglwydd Iesu a garai mor fawr ac y soniai am dano mor fynych. Rhaid ei bod o 73 i 75 o flynyddoedd oed. Yr oedd yn ddall er's llawer blwyddyn, ond yr oedd yn wastad yn siriol a llawen. Y fynyd yr elid i mewn i'r tŷ codai yn y fan, a chyda'i dwylaw fel yn chwilio am y person, ac yna ysgwyd llaw yn garedig a serchog. Yr oedd rhywbeth yn anwyl a syml ac agos ynddi. Llawer gwaith y dywedodd â gwên ar ei gwyneb y cai hi ddau lygad newydd gan Iesu Grist, ac y cai hi ei weled ef a gweled y saint yn y nefoedd, ac y cai fod gyda hwynt yn dragywydd. Hi a gafodd lawer o brofedigaethau ac erlidiau oblegid ei bod yn Gristion, a hyny yn benaf oddiwrth ei pherthynasau yn y pentref. Dro yn ol darfu i nifer o honynt gytuno i wneyd pen am dani, a hyny mewn ffordd oedd yn dangos yn amlwg fod dichellion y fall yn cynllwyn yn ei herbyn. Gwellt yw tô y tai yn y wlad hon, a'r gwelydd yn gyffredin o gorsenau wedi eu plastro â chlai; felly peth hawdd, a pheth yn cael ei wneyd yn awr ac eilwaith, yw rhoddi tŷ ar dân. Gwnaed hyn dro yn ol â theulu Cristionogol yn y pentref hwn, a hyny gan berthynasau, er dangos eu casineb atynt, oblegid iddynt gofleidio crefydd Iesu Grist; a chollasant bob peth oedd ganddynt, a buom yn gwneyd casgliad yma i'w helpio yn eu tlodi a'u cyfyngder. Ond am yr hen Gristionoges ddall, darfu i'r creuloniaid rwymo drws *front* y tŷ lle yr oedd yn byw, a rhwymo drws bychan oedd yn y cefn, fel nad oedd modd eu hagor oddi fewn, ac yna rhoddasant y tŷ ar dân, gan lawn fwriadu ei llosgi i farwolaeth. Nid oedd neb gyda'r hen wraig yn y tŷ ar y pryd, ac yr oeddynt wedi dewis adeg pryd nad oedd neb yn agos i'w chlywed yn gwaeddi am help. Llosgodd y tŷ, ond yr oedd yr hen wraig o'r tu allan; hi a ddiangodd heb dderbyn llawer iawn o niwed. Ond pa fodd y diangodd nid oedd neb yn gwybod, ac mae yn bur sicr nad oes neb yn Sadew yn gwybod; ond mae Duw yn gwybod, ac iddo ef y byddo yr holl ddiolchgarwch am y waredigaeth hon. Mae mab iddi yn Gristion, yr hwn gyda'i deulu sydd yn byw yn Mawphlang. Cafodd gladdedigaeth barchus, ac yr ydym yn gobeithio y bydd i rai o'i pherthynasau edifarhau am eu drygioni a throi at yr Arglwydd am faddeuant.

Yr ydym wedi derbyn i'r eglwys yma yn ddiweddar ddeg neu ddeuddeg ar brawf, ond nid oes genyf hamdden ar hyn o bryd i roddi i lawr rai crybwyllion am danynt; dichon y ceir cyfle dro arall.

Diolch lawer iawn i "Dienw" ac "E. M." am eu rhoddion at gapel Myllim; yr oedd yn help gwirioneddol i'r eglwys yn y lle hwn. Y maent yn dysgwyl bod yn barod i agor eu capel newydd y mis nesaf. Maent yn hwylio cael cyfarfod pregethu yno ar hyd y Sabboth. Anfonaf i chwi air am y cyfarfod, a'r capel, ac am yr achos yn y lle. Gallaf ddyweyd hyn yn awr, yr oedd Major Maxwell, Is-Lywodraethwr y Bryniau, yn myned trwy y pentref, ac wrth weled y capel darfu iddo ddisgyn o'r cerbyd, ac aeth i mewn iddo, a holodd U Kubur, yr athraw, sut yr oeddynt wedi ei adeiladu Eglurodd yntau eu bod wedi codi a chario y ceryg, ac wedi casglu eu goreu i dalu i'r seiri meini a seiri coed; a dywedodd ei fod yn synu eu bod wedi gweithio cystal, a dyma i chwi 20 *rupees*, meddai, i helpu talu am ei orphen. Rhodd ydoedd heb ofyn am dani, ac mor falch oedd y cyfeillion yn dyfod yma i adrodd yr hanes.

Da iawn genym ddeall fod Mr. John Jones yn d'od yn ol y flwyddyn hon; bydd yn dda iawn genym oll ei weled. A pheidiwch a chadw Dr. Griffiths yn hir iawn yr ochr yna. Mae yma waith lawer iddo i'w wneyd, a dysgwyliad am dano, gan ein bod yn credu nad yw yr hyn a wnaeth â meddyginiaeth a chyda'r efengyl ond ernes o'r hyn a wna eto yn y dyfodol ar y Bryniau hyn.

DOSBARTH SHANGPOONG.

Llythyr oddiwrth y Parch. R. Evans.

Shangpoong, Medi 3ydd, 1889.

Tua mis yn ol bum am Sabboth yn Nongbah, sef pentref yn Nosbarth Jowai. Yr oedd yr eglwys yn awyddus i gael cyfranogi o Swper yr Arglwydd, a dau neu dri eisieu cael eu bedyddio. Cyrhaeddais yno yn lled gynnar prydnawn Sadwrn, a daeth U Kypa Ka Lahûn yno o Jowai. Wedi iddi dywyllu, cynnaliasom gyfarfod gweddi, a chyfarfod eglwysig ar ol, er mwyn derbyn rhai yn gyflawn aelodau, ac ymbarotoi ar gyfer yr ordinhadau. Yr oedd yno un dyn ieuanc yn gallu ateb bron bob cwestiwn a roddwyd iddo, a'r lleill yn ateb yn lled dda.

Bore Sabboth daeth y *Dolloi* a'r *Pator* (dau Lywodraethwr y pentref) i'r ysgoldŷ yn lled fore, gyda'u Testamentau yn eu dwylaw, fel pe buasent Gristionogion pro ffesedig. Daethant i'r Ysgol Sul, a'r holl gyfarfodydd eraill, gan ddadwisgo eu penau, ac ymddwyn ymhob peth fel pawb eraill. Gall y ddau ddarllen yn dda. Er

nad ydynt yn Gristionogion proffesedig, y maent yn cael eu herlid gryn lawer gan y pentrefwyr, am eu bod yn rhy ffafriol i'r Cristionogion, ac yn myned i'r cyfarfodydd Cristionogol yn rhy fynych. Bydded i'r Arglwydd eu dwyn, nid yn unig o fewn ychydig, ond yn gwbl oll.

Cawsom gyfarfodydd hapus a chynhes, gan ein bod yn teimlo fod yr Arglwydd yn agos. Mae yr eglwys hon wedi cynnyddu yn fawr o fewn y pedair neu bum' mlynedd diweddaf. Mae tri blaenor wedi eu dewis ganddi, y rhai sydd yn gafael yn eu gwaith gydag yni a zel. Mae genyf feddwl mawr o'r athraw sydd yno, U Manik. Dyn dystaw ydyw, ond y mae yn weithiwr da, ac yn cario dylanwad da ar y bobl. Teimlem fod yr awyrgylch o'i gwmpas yn un grefyddol. Gofynais iddo, pan nad oedd neb ond efe a minnau yn yr ysgoldŷ, i ddyweyd ei hanes gyda chrefydd. Ymddangosai fod gwreiddyn y mater ganddo. Bu tipyn o erlid arno gan ei deulu pan ddechreuodd ddyfod yn Gristion; ond dalíodd y prawf. Dywedai ei fod wedi teimlo cryn lawer o sicrwydd y pryd hwnw, ond ni wyddai nemawr pa beth ydoedd. Fel y cynnyddai ei wybodaeth, yr oedd pethau ysbrydol yn dyfod yn fwy gwirioneddol iddo. Yr wyf yn credu fod llwyddiant crefydd i'w briodoli, fel offeryn, i grefyddolrwydd a duwiolddeb y dyn hwn.

Ar ol y cyfarfodydd rheolaidd, cynnaliasom gyfarfod yn yr awyr agored o flaen yr ysgoldŷ. Canu oedd gwaith mawr y cyfarfod hwn. Wedi i ni ganu hymn neu ddwy, dechreuodd pobl a phlant y pentref ymgynnull o'n cwmpas. Daeth rhai atom yn ddiymdroi, ond arosai y lliaws ychydig o bellder oddiwrthym. Fel yr oeddym ni yn cynhesu gyda'r canu, yr oeddynt hwythau yn anghofio y gwahaniaeth, ac yn dyfod yn nês. Erbyn y diwedd daeth oddeutu cant atom heblaw y Cristionogion. Rhoddais anerchiadau byrion rhwng y tonau, ac adroddais rai hanesynau byrion o'r Bibl. Ar y diwedd dywedai llawer o honynt eu bod wedi mwynhau y cyfarfod yn fawr, a gofynent i mi fyned yno drachefn. Darfu i ni hau cryn lawer o'r had da, ac nid oes dim ammheuaeth na fydd rhywfaint o ffrwyth arno yn amser da Duw.

Mae ychydig o adfywiad ar grefydd yma yn Shangpoong; ond er mai ychydig ydyw, a rhy ychydig o bosibl i rai ei weled, y mae yn bod, ac y mae yn dda iawn genyf fi ei weled. Mae amryw o'r arweinwyr yma wedi cael rhyw adnewyddiad i'w hysbryd nes eu gwneyd yn fwy zelog gyda'r gwaith, ac yn fwy awyddus am dywalltiad o'r Ysbryd Glân. Yr ydym yn dysgwyl am gael Henaduriaeth wahanol i'r un fu o'i blaen yn yr ystyr yma; a byddai yn dda genyf pe b'ai holl Fethodistiaid Cymru a Lloegr yn gweddïo am dywalltiad helaeth ar ein cyfarfodydd ar y 23, 24, a'r 25ain o Dachwedd nesaf. "O frodyr, gweddïwch dros om."

Byddwch gystal a chyhoeddi fy niolchgarwch diffuant i A. B. am ei rodd haelionus o bum' punt tuag at y gwaith. Fe allai y bydd yn dda ganddo ddeall fod ei rodd wedi dyfod mewn atebiad i fy ngweddi; ac nid yn unig hyny, ond daeth ar y diwrnod yr oeddwn yn ei dysgwyl. Yr oedd arnaf eisieu gwneyd yr ysgoldŷ yn weddol gymhwys i'r cenadon gysgu ynddo ar adeg yr Henaduriaeth. Pe buaswn heb glywed gyda'r *mail* hono, buasai yn rhy hwyr i barotoi. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Arglwydd ac i A. B. Nid dyma y tro cyntaf i'r cyfaill hwn ein cynnorthwyo yn sylweddol. Taled yr Arglwydd iddo yn ddauddyblyg am ein dwyn o brofedigaeth.

YMWELIAD Y PARCH. K. S. MACDONALD, M.A, A BRYNIAU KHASIA.

Mae amryw o'r cenadon wedi cyfeirio yn eu llythyrau diweddar at ymweliad y Parch. K. S. Macdonald â'n gorsafoedd cenadol. Adwaenir Mr. Macdonald fel un o genadon mwyaf blaenllaw Eglwys Rydd Scotland. Mae wedi bod yn llafurio fel cenadwr yn Calcutta er ys saith mlynedd ar hugain. Bu am flynyddoedd yn Llywydd y *Free Church Institution*, y sefydliad addysgawl a gychwynwyd gan Dr. Duff ac a fu yn hir dan ei ofal. Edrychir i fyny ato nid yn unig fel arweinydd cenadaeth yr Eglwys Rydd, ond fel un o'r rhai mwyaf cyfarwydd â llenyddiaeth a chrefyddau India ac â'r ymdrechion a wneir i efengyleiddio y bobl. Efe a gychwynodd ac sydd yn parhau i olygu yr *Indian Evangelical Review*, cylchgrawn chwarterol a gyhoeddir yn Calcutta. Dyddorol bob amser ydyw cael adroddiadau gan rai y tu allan i'n cenadaeth fyddont wedi ymweled â'n maes cenadol o'r argraff a wneir ar eu meddyliau yn eu teithiau trwy y wlad; ac y mae y dyddordeb yn llawer mwy pan y byddo yr ymwelydd yn un wedi cael profiad maith yn y gwaith cenadol, ac yn meddu cydnabyddiaeth ëang â'r amrywiol ddulliau o'i ddwyn ymlaen. Cyhoeddwyd erthyglau gan Mr. Macdonald mewn dau rifyn o'r *Indian Standard* yn rhoddi adroddiad am ei ymweliad â Bryniau Khasia. Mae hefyd yn y *Free Church Monthly Record*, Calcutta, "grynodeb o anerchiad dyddorol" a roddwyd gan Mr. Macdonald yn Eglwys Wellesley Square, yn rhoddi hanes ei arosiad yn Khasia. Rhoddwn rai dyfyniadau o'r anerchiad:—

"Preswylid y wlad hon hanner can' mlynedd yn ol gan anwariaid cwbl anllythyrenog, heb ond ychydig, os dim, dillad, gydag un iaith, un grefydd, os gellir ei galw yn grefydd,—yn cael eu llywodraethu gan gyfundrefn o ddefodau ac arferion ofergoelus, eto yn cael eu rhanu yn llwythau gwahanol dan "*Sims*," neu freninoedd, y rhai a feddant holl awdurdod penaduriaid annibynol, a byth a hefyd mewn rhyfel â'u gilydd neu â llwythau cyfagos. Dyna oedd sefyllfa pethau pan, hanner can' mlynedd yn ol, y darfu i'r Methodistiaid Calfinaidd, yn unol â chynghor Dr. Duff, anfon y

Parch. T. Jones, eu cenadwr cyntaf, i'r wlad. Nis gwn pa bryd y darfu i'w lafur ef ddybenu mewn ychwanegiadau at yr eglwys, ond gwn fod yno yn awr—hanner can' mlynedd wedi hyny—gorff o tua naw mil o bobl sydd wedi ymneilldu o i'r fath raddau oddiwrth ofergoelion ac arferion Paganaidd eu gwlad nes y cyfrifir hwynt fel gwrandäwyr Cristionogol, ac y mae y rhai hyn yn cynnwys 5196 o Gristionogion (cymunwyr neu ymgeiswyr am gymundeb a'u plant). Mae y rhai hyn oll yn llwyrymwrthodwyr oddiwrth yr hyn sydd yn felldith i anwariaid a rhai gwareiddiedig (at ddiodydd meddwol yr wyf yn cyfeirio). Ond gadewch i ni ddyfod yn nês atynt, at y rhai sydd yn Gristionogion o honynt. Ac ymlaenaf, gadewch i ni fyned i rai o'u tai, fel y gwnaethum i,—i dŷ ar ol tŷ, tua deg ar hugain o honynt mewn un boreu. Cyn myned i mewn chwi sylwch ar y destlusrwydd a'r glanweithdra, a'ch tarawa yn fwy ar ol myned i mewn. Mae yn hyn wrthgyferbyniad hollol i dai y rhai o honynt sydd heb fod yn Gristionogion, ac nid oedd yn nodweddu unrhyw rai o'u tai yn y cyfnod cyn-Gristionogol. Ar eich mynediad i mewn i'r naill dŷ ar ol y llall, tarewir chwi gan ymddangosiad llyfrgell o ugain neu ddeg ar hugain o gyfrolau, yn cael lle arbenig gyda'r cadeiriau a'r byrddau. Seisonig a Chasiaeg yw y llyfrau i gyd. Ymysg y rhai Khasiaeg mae y Testament Newydd, Pum' Llyfr Moses, a'r Llyfrau Hymnau yn cael lle pwysig. Wrth ymofyn yr ydych yn cael fod bron yr oll o'r Cristionogion yn gallu darllen eu Bibl Khasiaeg a'u Llyfr Hymnau, ac y mae nifer mawr yn gallu darllen a deall y Bibl yn Saesoneg, er nad ydynt yn siarad Saesoneg ond yn anmherffaith. Mae hyn yn effaith eu hysgolion elfenol dyddiol da, a'u Hysgolion Sabbothol, y rhai ydynt yn arbenig yn rhai o nodweddGymreig. Nid oedd dim yn fy synu yn fwy na'r rhwyddineb gyda pha un, pa le bynag yr awn, y byddai fy anerchiad Saesoneg, a fyddai yn fynych yn hanner awr o hyd, yn cael ei ail-adrodd yn y Khasiaeg wedi i mi eistedd i lawr gan un o'r gynnulleidfa. Yn Cherra, sicrhawyd fi gan Mr. Roberts, mai yr unig gamgymeriad a wnaed gan y cyfeithydd oedd troi "*too much time*" i "*two months' time;*" dywedai fy mod yn dyweyd y cymerai ryw syniad y cyfeiriaswn ato *ddau fis o amser* yn lle *gormod o amser* i'w egluro.

"Mae y nifer mawr sydd yn rhoddi eu presennoldeb yn y cyfarfodydd cyhoeddus —y rhai ydynt yn dra llïosog, yn tueddu i roddi argraff fod nifer y Cristionogion yn llawer mwy nag ydynt mewn gwirionedd. Yr wyf wedi rhoddi eisoes y nifer, ond dylid cofio fod y rhai hyn yn wasgaredig dros yr oll o Fryniau Khasia a Jaintia, mewn 138 o eglwysi a lleoedd pregethu. Yr oedd nifer y gynnulleidfa yn Cherra, ar ddiwrnod o'r wythnos, ac un gwlawog iawn, tua phedwar cant neu ragor. Y flwyddyn ddiweddaf bu raid gwneyd y capel gymaint ddwywaith yn fwy, gan ei fod yn rhy fychan i'r gynnulleidfa. Mae ynddo yn awr le i fil i eistedd. Mae y capel yn Shillong, neu yn hytrach Mawkher Shillong, yn gymaint neu yn fwy. Cawsom gynnulliadau llïosog ynddo ar ddyddiau yr wythnos ac ar y Sabboth. Yr oedd tua tri chant yn yr Ysgol Sabbothol. Yr oedd llawer iawn yn bresennol yn nghyfarfod y "*society*," yn y cyfarfodydd gweddïo, ac yn nghyfarfod y gweithwyr (y cyfarfod a elwid genyf fi y "*Council of War*"). Yr oedd y canu yn yr oll o honynt yn nodedig o gryf a gwresog.

Wedi hyny, pa beth a ddywedaf am eu haelioni? Pan ystyriwyf pa beth oeddynt ddeng mlynedd a deugain yn ol, ac, yn wir, pa beth ydynt eto,—pobl dlodion a gwanaidd mewn llawer ystyr,—nis gallaf ond dyweyd fod Duw yn fynych yn "dewis gwan bethau y byd i waradwyddo y pethau cedyrn." Yr oedd cyfanswm eu casgliadau eglwysig y flwyddyn ddiweddaf yn R7736 4. 1, ac nid yw hyny yn cynnwys mewn llawer o amgylchiadau yr hyn a roddir tuag at adeiladau mewn llafur, defnyddiau ac arian. Nid yw yr Eglwys Gymreig gartref, yr hon nad yw mewn cymhariaeth ond bechan a thlawd, yn rhoddi dim tuag at adeiladu ysgoldai a chapelau ar y maes cenadol. Rhoddir hyny fel baich priodol i'r eglwysi ieuainc, ac y mae y Khasiaid yn ei ddwyn yn siriol. Nodweddir hwy yn arbenig gan awydd i helpu y naill y llall, ac i helpu eu gilydd. Nid ydynt hwy yn arfer yr ymadrodd a glywir genym ni mor fynych—'Nid fy ngwaith i yw hyn,'—ond y maent yn ymroddi ati yn siriol i wneyd yr hyn a allant."

Rhoddwn ddyfyniadau o'r erthyglau y cyfeiriwyd atynt mewn rhifyn dyfodol.

RHODDION I'R GENADAETH.

Yn ychwanegol at y rhoddion y crybwyllwyd am danynt yn ein rhifyn diweddaf, da genym allu cydnabod fod amryw sypynau eraill wedi dyfod i law ac wedi eu hanfon ymaith. Derbyniwyd oddiwrth gyfeillion yn Manchester a Salford gistiad o *prints*, calico, papyr ysgrifen, gwlaneni, &c., &c. Oddiwrth Mrs Jones, Bryn Aethwy, Menai Bridge, sypyn o bethau tra defnyddiol i'w anfon i'r Parch. R. Evans. O Pembroke Dock, sypyn gwerthfawr i'w anfon i Mrs. Ceredig Evans. Oddiwrth ddosbarth Miss E. Evans, Llanbedr, flannelette, calico, &c., &c., i Mrs. Evans, Shangpoong. Oddiwrth Miss Jane Williams, Glanrafon, Corwen, prints, calico, &c., at wasanaeth yr ysgolion ar Fryniau Khasia. Oddiwrth M. T., Minffordd, blue flannelette, &c., &c. Sypyn oddiwrth Mr a Mrs E. Morgan, Pier Street, Aberystwyth, i'w anfon i'r Parch. J. Pengwern Jones, Sylhet. Oddiwrth Mr. Daniel Thomas, Aberystwyth, dwy gistiad o amrywiol nwyddau i'w hanfon i'r Parch. J. Ceredig Evans at wasanaeth y Genadaeth. Cyfranwyd cynnwys y cistiau hyn gan amryw gyfeillion heblaw Mr. Thomas, sef Mrs.

Dr. Parry, Mrs. Edward Ellis, Sarah Richard, ac Elizabeth Jones, Mrs. T. W. Powell, Y Gwynfryn, "Friends," Mr. R. G. Bennett, Miss A. Parry, "*A Friend*," Messrs W. and J. B. Jenkins, Mrs. Jenkins, Moor Street, A Friend, Mr. E. Edwards; Ceitho; Mrs. David Lloyd, Mrs. Lewis Griffiths. Drwg genym na chaniatâ y gofod i ni roddi manylion o'r pethau a anfonwyd gan bob un. Oddiwrth "Undeb Llenyddol Rhostryfan a Rhosgadfan," Bedyddfaen i'w gyflwyno i'r Parch. John Jones at wasanaeth ein Cenadaeth yn Nosbarth Jiwai. Derbyniwyd oddiwrth Mrs. Evan Jones, Segontium Terrace, Caernarfon, gist yn cynnwys amrywiaeth mawr o nwyddau, llyfrau, &c., wedi eu cyfranu gan Mr. T. Jones, 12, Garnons Street; Mrs. Owen, Tŷ coch; Miss Jonathan; Miss C. E. Evans; E. a M. C Howells; Mrs. Jones, Gelert Street; Miss Griffith, College; Miss Lewis, College; Mrs. Williams, Cae mawr; Mrs. Thomas, Ty'r Capel; Mrs. Roberts, Pool Side Square; Miss Jones, 12, High Street; Miss Barlow, Castle Street; Mrs. Wynne Williams, 16, Tithebarn Street; Miss Thomas, Tithebarn Street; Mrs. Parry, Segontium Terrace; Mrs. Williams, Pool Street; Miss Williams, eto; Mrs. E. Jones, 27, Segontium Terrace; Katherine Jones, eto; Robert Jones, eto; Margarette Wood Jones, eto; Helena Kate Humphreys; Maggie Ellen Humphreys; Ellen Anne Evans, 27, Segontium Terrace; Ellen Jones Evans a Mary ac Annie Davies; Mrs. Capt. Jones; Mrs. Capt. Owen; Miss E. M. Jones; Mrs. Evans, Marino. Naw o gyfrolau oddiwrth y Parch. Dr. Saunders i'r gwŷr ieuainc a aethant dan yr Arholiad Duwinyddol yn 1887. Cafodd Miss Williams anrheg gan Gymdeithas y Chwiorydd Wilton Square, Llundain, o ddefnyddiau i gyfranu addysg yn y *Kindergarten system; Surgical Instrument case fitted*, gydag arian a gasglwyd gan Mrs. Wheldon, Blaenau Ffestiniog; *case of instruments* gan Dr. Phillips, Llundain. Cyflwynwyd tua £18 i Miss Williams gan Gyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd i brynu llyfrau, ac yr ydym yn deall fod amryw gyfeillion wedi anrhegu Miss Williams â thua 80 o gyfrolau fel rhoddion personol.

YMADAWIAD CENADON.

Ddydd Iau, Hydref y 10fed, hwyliodd y Parch. John Jones o Lundain yn yr agerlong "Manora" i fyned i Calcutta, a'r dydd Iau dilynol cychwynodd Miss Williams yn y "Chusan." Yr oedd dros hanner cant o genadon yn myned yn y llestr hon i lafurio mewn gwahanol barthau o'r India a China. Cenadesau oedd y nifer mwyaf. Golygfa nad anghofir gan y lliaws oedd wedi myned i hebrwng eu cyfeillion i'r llong oedd gweled y gwŷr ieuainc, ac yn enwedig y merched ieuainc, yn cychwyn allan mor galonog; brodyr a chwiorydd a rhieni a phlant yn ffarwelio â'u gilydd, llawer o honynt am y tro olaf ar y ddaear, ac eto yn gwneyd hyny yn llawen "er mwyn ei enw Ef." Pan oedd y llong yn cychwyn oddiwrth y cei, unai y rhai oedd ar ei bwrdd â'r rhai ar y lan i ganu "Crown Him, crown Him, Lord of all."

Y CYLCHGRAWN CYNTAF YN Y KHASIAEG.

Mae y Parch. W. Williams wedi cychwyn cyhoeddiad daufisol yn y Khasiaeg at wasanaeth Dosbarth Shella. Mae y rhifyn cyntaf yn awr ger ein bron. Ei enw ydyw, *U Nonket-Khubor* (Cludydd Newyddion). Cynnwysa bedwar ar ddeg o du dalenau wythplyg mewn amlen ddestlus.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
Oddiwrth ddarllenwyr y *Monthly Tidings* tuag at Ysbytŷ Jiwai, trwy law y Parch. D. Evans, B.A., Whitchurch, Caerdydd	1	0	0
Cyfeillion yn Nhyddewi, tuag at Feddfaen U Borsing, trwy law Mr. D. Evans, High Street	1	5	0
Un o Langaffo, Sir Fôn, sydd yn caru llwyddiant yr achos	1	0	0
Casglwyd yn y Gynnadledd Seisonig yn Aberystwyth, Medi 25	12	3	0
Mrs. J. M. Saunders, Pencoed, trwy law Miss M. M. Thomas	1	0	0
Un o Benmaenmawr, tuag at gynnal athraw yn Lahan Gap, £3; at Gapel Sohka, £2; Wahiager, £2; at Gofgolofn U Borsing, £1	8	0	0
Webster Road, Liverpool	10	15	6
Fitzclarence Street, Liverpool	27	18	3
G. W. H. M., i'w hanfon i'r Parch. T. Jerman Jones, i'w defnyddio fel y barno yn oreu er lles y gwaith	5	0	0
"Cyfaill," trwy law Austin G. Thomas, 28, Breckfield Road S., Liverpool	1	0	0

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road Scuth, Liverpool.*

P. M. EVANS A'D SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.